Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
50/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/07/2022

# Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: adroddiad terfynol

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80364-529-2

**Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: adroddiad terfynol**

Awduron: Brett Duggan, Hefin Thomas, Morgan Davies-Walker, Ymchwil Arad. Claire Sinnema, Athro Cyswllt, Cyfadran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland. Sarah Stewart, Dr Nia Cole-Jones, Dr Alison Glover, Y Brifysgol Agored yng Nghymru. Mike Griffiths, Cydymaith Arad.

Duggan, B; Thomas, H; Davies-Walker, M; Sinnema, C; Stewart, S; Cole-Jones, N; Glover, A; Griffiths, M (2022). *Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 50/2022 Ar gael yn: https://llyw.cymru/ymchwil-ansoddol-ag-ymarferwyr-ar-baratoadau-ar-gyfer-diwygiadau-cwricwlwm-ac-asesu-2022

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000256812
E-bost: YmchwilYsgolion@Llyw.Cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau ........ 2

Rhestr o'r ffigurau ........ 2

Geirfa ........ 3

Crynodeb gweithredol ........ 4

1. Cyflwyniad ........ 10
2. Methodoleg ........ 14
3. Theori'r rhaglen ........ 18
4. Mapio data ........ 48
5. Blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol ........ 54
6. Atodiad A: Aelodau grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru ........ 85
7. Atodiad B: Mapio data ........ 86

Llyfryddiaeth ........ 111

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1. Crynodeb o fapio data yn erbyn y cwestiynau ymchwil a gwerthuso ........................50
Tabl 2. Amserlen ymchwil a gwerthuso arfaethedig............................................................83
Tabl 3. Nodau llesiant wedi'u mapio yn erbyn deilliannau'r Cwricwlwm i Gymru................108

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1. Crynodeb o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso .............................................................8
Ffigur 2. Theori newid ar gyfer diwgyiadau'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu – golwg sgematig..............................................................................................................24
Ffigur 3. Theori newid ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu: gweithgareddau a deilliannau tymor byr (Tudalen 1 o 2).....................................................................25
Ffigur 4. Theori newid ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu: gweithgareddau a deilliannau tymor byr (Tudalen 2 o 2).....................................................................26
Ffigur 5. Crynodeb o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso ...........................................................56

## Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| Addysg a phrofiadau byd gwaith | Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith |
| AGA | Addysg Gychwynnol i Athrawon |
| ANG | Athro newydd gymhwyso |
| CA | Cynorthwy-ydd addysgu |
| CALU | Cynorthwyydd addysgu lefel uwch |
| CBGY | Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| DPP | Datblygiad proffesiynol parhaus |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| HESA | Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| HMS | Diwrnod Addysg a Hyfforddiant Mewn Swydd |
| Meysydd/MDPh | Maes dysgu a phrofiad |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| PAEM | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| PDP | Pasbort Dysgu Proffesiynol |
| PISA | Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr |
| PYPC | Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol |
| SHRN | Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion |
| TWE | Talu wrth ennill |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| Y Cwricwlwm | Y Cwricwlwm i Gymru |
| Ysgol pob oed | Ysgol i ddysgwyr 3-16/19 oed |

## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau astudiaeth gwmpasu sy'n ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

2. Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy'n codi safonau addysgol ac sy'n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol wrthi'n datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol, a fydd yn galluogi dysgwyr i wireddu **pedwar diben y cwricwlwm** drwy ddod yn:

   - **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
   - **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
   - **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd
   - **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

3. I gefnogi'r diwygiadau i'r cwricwlwm, ceir dull cenedlaethol o ddarparu gweithgaredd dysgu proffesiynol; ceir trefniadau gwerthuso a gwella newydd; mae'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ym maes anghenion dysgu ychwanegol wedi'u trawsnewid; ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu. Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganllawiau i ysgolion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan gydnabod bod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yn un ailadroddus.

### Cefndir yr astudiaeth gwmpasu

4. Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal astudiaeth gwmpasu sy'n ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

5. Nod yr astudiaeth gwmpasu yw amlinellu'r theori, y rhagdybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen fonitro a gwerthuso gadarn.

### Methodoleg

6. Nodir methodoleg yr astudiaeth gwmpasu yn Adran 2 o’r adroddiad hwn ac mae’n cynnwys:
    - datblygu **theori newid** ar gyfer y diwygiadau drwy:
        - gynnal adolygiad o ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru
        - cyfres o weithdai a grwpiau trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a dysgwyr
        - cyfweliadau ansoddol ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau
    - **mapio'r ffynonellau data sydd ar gael** yn erbyn elfennau’r theori newid i nodi eu cwmpas a'r bylchau drwy:
        - gynnal adolygiad o ffynonellau data yn ymwneud â phob elfen o'r theori newid
        - cyfweliadau ag ystadegwyr a rheolwyr data yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid
    - **datblygu blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso** yn y dyfodol i gefnogi gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru drwy:
        - drafodaethau gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru
        - trafodaeth ag aelodau o grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru.

### Theori'r rhaglen

7. Mae’r theori newid a amlinellir yn Adran 3 o’r adroddiad hwn yn dangos natur gymhleth y diwygiadau i’r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, eu cyrhaeddiad ar draws y system a’r deilliannau posibl i ddysgwyr, ymarferwyr, ysgolion a chymdeithas yn gyffredinol.
    - Mae'n cynrychioli dehongliad y tîm ymchwil o theori'r rhaglen fel y saif ar hyn o bryd. O ystyried yr amserlen estynedig a gwmpesir gan y theori newid, mae'r awduron yn cydnabod bod datblygiadau polisi a ffactorau allanol eraill yn debygol o ddylanwadu ar lawer o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y

theori. **O'r herwydd, dylid adolygu'r theori newid yn rheolaidd, a'i defnyddio'n ailadroddol i lywio gweithgarwch gwerthuso a meddwl yn feirniadol am y llwybrau rhwng gweithgarwch a deilliannau wrth i'r diwygiadau fynd rhagddynt.**

**Mapio data**

8. Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r cwestiynau ymchwil a gwerthuso a fydd yn ymchwilio i a yw'r mecanweithiau a'r llwybrau yn y theori newid yn cael eu rhoi ar waith. Ar ôl nodi'r data a'r dulliau eraill o gasglu tystiolaeth sydd ar waith neu yn yr arfaeth, mae adran 4 yn nodi a fydd y data'n caniatáu i'r cwestiynau hyn gael eu hateb, a ble mae'r prif fylchau.

- Mae dadansoddiad yn datgelu na fyddai'r data sydd ar gael yn darparu digon o dystiolaeth ar gyfer y cwestiynau ymchwil a gwerthuso a nodir yn yr adroddiad hwn.
- O ganlyniad, **mae angen dylunio a chyflwyno rhaglen casglu data, ymchwil a gwerthuso sy'n cynhyrchu'r data a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i ddeall effeithiolrwydd a deilliannau'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm**.
- Wrth wneud hynny, mae angen cyfeirio at waith ymchwil a chasglu data parhaus neu arfaethedig a all fod yn sail i'r broses werthuso. Dylai hyn gyd-fynd â gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddiffinio ecosystem newydd ar gyfer data a gwybodaeth i gefnogi gwelliant, atebolrwydd a thryloywder ar draws y system ysgolion[1], a'r Cynllun Gweithredu Tegwch mewn Addysg.  Dylai hefyd gyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol, a gweithgareddau partneriaid allweddol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): gonsortia rhanbarthol; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; Estyn; Cymwysterau Cymru; Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); yr Academi

[1] Gweler [Ymchwil i anghenion y system ysgolion yng Nghymru o ran data a gwybodaeth a'u defnydd - Hwb (llyw.cymru)]

Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol; byrddau arholi a sefydliadau addysg uwch.

**Blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol**


9. Mae’r awduron yn argymell y dylid ystyried cyfres gynhwysfawr o astudiaethau sydd, gyda’i gilydd, yn galluogi archwilio cynnydd ac effaith y diwygiadau i’r cwricwlwm dros amser. Mae hon yn rhaglen ymchwil a gwerthuso ar raddfa fawr sy’n cynnwys astudiaethau sy’n canolbwyntio ar:

    - ddeall **newid ar draws y system gyfan** a'r cysylltiadau rhwng gwahanol agweddau ar y broses ddiwygio
    - deall beth sy'n hwyluso ac yn atal gweithrediad ac effaith llwyddiannus a beth y dylid ei wneud i sicrhau llwyddiant
    - deall effaith y diwygiadau ar gynnydd **safonau a chyrhaeddiad** dysgwyr
    - deall y cynnydd tuag at **ddeilliannau tymor canolig a thymor hwy i ddysgwyr (gan gynnwys y pedwar diben), ymarferwyr a rhieni**
    - **astudiaethau â ffocws / thematig** yn edrych ar agweddau penodol ar y diwygiadau.

10. Cynigir naw astudiaeth, rhai ohonynt yn pwysleisio golwg eang a hirdymor ar ymchwil i lwyddiant diwygio’r cwricwlwm, a sawl un sy’n cydnabod pwysigrwydd ymchwiliad manwl i ddeall elfennau penodol o’r system ar waith. Cyflwynir yr astudiaethau'n unigol yn Adran 5 o'r adroddiad. Maent yn cynrychioli cyfres gydlynol o weithgaredd casglu tystiolaeth sy'n cynnig dulliau meintiol, ansoddol, cymysg, a gwaith archwilio tymor byr a hirdymor. Mae'r prosiectau'n cynnwys ymchwil gyda grwpiau amryfal y bwriedir i'r diwygiadau effeithio arnynt. Ceir potensial i gysylltu rhai astudiaethau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddefnyddio canfyddiadau o astudiaethau mwy i lywio'r gwaith samplu a dylunio astudiaethau eraill neu i gysylltu setiau data lle mae samplau neu is-samplau yr un fath yn y ddwy astudiaeth. Yn sgil cysylltu astudiaethau yn y fath fodd, ceir cymhlethdod, sy'n arwyddocaol o ran y posibilrwydd o gysylltu data, a bydd angen ystyried hynny'n ofalus yn ystod y cam dylunio.

11. Rhoddir crynodeb o'r astudiaethau arfaethedig yn Ffigur 1 isod.

**Ffigur . Crynodeb o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso**




12. Mae'r adnoddau sydd eu hangen i gynllunio, comisiynu a chyflwyno rhaglen casglu data, ymchwil a gwerthuso o'r fath yn sylweddol. Yng ngoleuni maint a chwmpas yr astudiaethau a argymhellir, mae'n bwysig ystyried sut y maent yn berthnasol i weithgarwch ymchwil arall sydd wedi'i gynllunio ac sy'n dod i'r amlwg ar draws y system ehangach a sut y maent yn ategu'r gweithgarwch hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil a gwerthuso a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gweithgareddau ymchwil partneriaid haen ganol a ffynonellau allanol eraill o gyllid ymchwil. Mae potensial i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â

phartneriaid addysg uwch, Estyn ac asiantaethau eraill ar rai o’r meysydd ymchwil a argymhellir.

13. Mae'r awduron o'r farn y gall pob un o'r astudiaethau gynnig dealltwriaeth bwysig o'r newidiadu i'r system a'r deilliannau. Yn benodol, mae'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm (Astudiaeth 1) yn darparu cyfleoedd i ddeall rolau'r holl bartneriaid ar draws y system o ran cefnogi gweithrediad y cwricwlwm. Yn ogystal, bydd yr Astudiaeth Fonitro Genedlaethol (Astudiaeth 2) yn hollbwysig o ran casglu data ar gyrhaeddiad dysgwyr dros amser.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru ac o ddiben yr astudiaeth gwmpasu, gyda'r nod o helpu i gefnogi blaenoriaethau ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

### Y Cwricwlwm i Gymru

1.2 Y Cwricwlwm i Gymru yw conglfaen ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddiwygio addysg yng Nghymru a chreu system addysg sy’n codi safonau addysgol ac sy’n ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Pedwar diben y cwricwlwm yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer holl blant a phobl ifanc Cymru. Yn adroddiad yr OECD ar wella ysgolion yng Nghymru (Improving Schools in Wales 2014) ac adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson (2015), cyflwynwyd y sail resymegol dros y diwygiadau ynghyd ag argymhellion ynghylch sut i ddylunio cwricwlwm newydd sy’n addas ar gyfer y Gymru gyfoes. O dan y diwygiadau, mae pob ysgol wrthi'n datblygu ei chwricwlwm ei hun, gyda chymorth canllawiau cenedlaethol, a fydd yn galluogi dysgwyr i wireddu pedwar diben y cwricwlwm drwy ddod yn:

- **ddysgwyr uchelgeisiol, galluog** sy’n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **cyfranwyr mentrus, creadigol** sy’n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a’u gwaith
- **dinasyddion egwyddorol, gwybodus** yng Nghymru a'r byd
- **unigolion iach, hyderus** sy’n barod i fyw bywydau gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

1.3 O dan y Cwricwlwm i Gymru, bydd pynciau'n cael eu trefnu ar sail chwe Maes Dysgu a Phrofiad (Meysydd): y celfyddydau mynegiannol; iechyd a lles; y dyniaethau; ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu; mathemateg a rhifedd; a gwyddoniaeth a thechnoleg.

1.4 Maent yn annog canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn hyrwyddo dull integredig o ddysgu ac addysgu. Mae'n annog cydweithio a chynllunio ac addysgu trawsbynciol i alluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol Feysydd a defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd.

1.5 O dan drefniadau'r cwricwlwm newydd mae ysgolion yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol ar hyd continwwm dysgu o 3 i 16 oed. Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn disgrifio egwyddorion cynnydd o ran y cwricwlwm a'r Meysydd unigol, ynghyd â chamau cynnydd a ategir gan ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig a disgrifiadau dysgu. Yn gysylltiedig â hyn, dylai'r trefniadau asesu fod yn ffurfiannol, dylent ganolbwyntio ar y dysgwr, a dylid eu defnyddio'n sail i sut y mae ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigolion a grwpiau. Un o'r nodweddion sy'n diffinio'r dull newydd yw bod y cwricwlwm, y trefniadau asesu ac addysgeg yn cael eu gweld fel elfennau o gyfanwaith integredig

1.6 I gefnogi'r diwygiadau i'r cwricwlwm, ceir dull cenedlaethol o ymdrin â gweithgaredd dysgu proffesiynol; ceir trefniadau gwerthuso a gwella newydd; mae'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth ym maes anghenion dysgu ychwanegol wedi'u trawsnewid; ac mae cymwysterau newydd yn cael eu datblygu.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cyfres o ganllawiau i ysgolion ynghylch sut i fynd ati i ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm, gan gydnabod bod y broses o ddatblygu'r cwricwlwm yn un ailadroddus. Roedd y cyhoeddiad diweddaraf *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm* (2021) yn datblygu ar ddogfennau cynharach ac yn amlinellu'r camau sy'n gysylltiedig â dylunio'r cwricwlwm, sef:

- **ymgysylltu** i ddatblygu dealltwriaeth ysgol gyfan o'r cwricwlwm a gweledigaeth ar gyfer yr addysgu a'r dysgu sy'n ei gefnogi
- **dylunio, cynllunio a threialu** – gan ddefnyddio canllawiau a chymorth
- **gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf**
- **addysgu am y tro cyntaf**, dechrau rhoi'r cwricwlwm ar waith, gan fyfyrio ar ei effeithiolrwydd dros amser a mireinio'r dyluniad wrth i ddysgwyr wneud cynnydd.

1.8 At hynny, amlinellodd Llywodraeth Cymru yr egwyddorion y dylai ysgolion eu dilyn wrth baratoi a dylunio'r cwricwlwm: datblygu **ar y cyd**; **addysgeg** effeithiol; ymgysylltu â **dysgu proffesiynol** a rhwydweithiau; ymgorffori rhinweddau **ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**; gan ystyried y **cyd-destun ysgol ehangach**, gan gynnwys sut y gall y cwricwlwm gefnogi'r Cod ADY, Cymraeg 2050 a hyrwyddo iechyd a llesiant y dysgwr.

### Cefndir yr astudiaeth gwmpasu

1.9 Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored yng Nghymru, i gynnal astudiaeth gwmpasu sy'n ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.

1.10 Nod yr astudiaeth gwmpasu oedd amlinellu'r theori, y rhagdybiaethau, y dystiolaeth a'r parodrwydd sy'n sail i'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu argymhellion ar gyfer rhaglen fonitro a gwerthuso gadarn. Amcanion yr astudiaeth oedd:

- asesu paratoadau ysgolion a lleoliadau ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, gan nodi camau gweithredu allweddol ar gyfer cefnogi'r paratoadau
- datblygu theori rhaglen ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gan nodi tystiolaeth a rhagdybiaethau allweddol a darparu darlun clir o'r system a'r rhanddeiliaid a fydd yn eu rhoi ar waith
- nodi cwestiynau'r gwerthusiad ac archwilio i ba raddau y gellir eu bodloni'n gredadwy ac yn ddibynadwy gan ddefnyddio ffynonellau data presennol a newydd
- argymell strategaeth monitro a gwerthuso fanwl ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau'r gwerthusiad.

1.11 Gan gyfeirio at y cyntaf o'r amcanion a restrir uchod, cynhaliwyd arolwg ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021 yn canolbwyntio ar baratoadau ysgolion ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Cyhoeddwyd adroddiad interim, *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2021m), ym mis Medi 2021, gan nodi canfyddiadau lefel uchel cychwynnol. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol ym mis Ionawr 2022 yn cyflwyno'r canfyddiadau'n llawn (Llywodraeth Cymru, 2022a). Yn dilyn hwn, cwblhawyd cyfweliadau gyda 48 o arweinyddion hŷn ac ymarferwyr a oedd wedi llenwi'r holiadur ar eu paratoadau ar gyfer CiG. Cafodd canfyddiadau'r cyfweliadau hyn eu cyhoeddi mewn adroddiad ym Mehefin 2022, *Ymchwil ansoddol ag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu* (Llywodraeth Cymru, 2022c).

1.12 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau elfennau eraill o'r astudiaeth gwmpasu.

- Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth gwmpasu.

- Mae Adran 3 yn canolbwyntio ar ddatblygiad theori'r rhaglen.
- Mae Adran 4 yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ymwneud â mapio data.
- Mae Adran 5 yn nodi argymhellion ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

Amlinellir y casgliadau a'r materion i'w hystyried yn Adran 6.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn darparu manylion am fethodoleg y gwerthusiad. Mae hyn yn cynnwys manylion yr ymchwil desg, y gwaith maes a gynhaliwyd, y broses ddadansoddi, yr heriau a wynebwyd a chyfyngiadau'r fethodoleg.

### Y dull o ddatblygu'r theori newid

2.2 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennaeth yn ymwneud â'r Cwricwlwm er mwyn deall sut yr oedd gweithgareddau allweddol, deilliannau ac effeithiau disgwyliedig y diwygiadau wedi'u mynegi a'u dehongli gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Roedd yr adolygiad hwn yn cynnwys:

- strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector addysg, sef *Cenhadaeth Ein Cenedl*[2] a'r cynllun gweithredu a ddiweddarwyd yn ddiweddar[3]
- *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2020b)
- *Cwricwlwm i Gymru: cynllun gweithredu* (Llywodraeth Cymru, 2021a)
- *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2021b)
- *Cymwys ar gyfer y Dyfodol: Ein penderfyniadau* (Cymwysterau Cymru, 2021)
- *Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE): dogfen weledigaeth* (Llywodraeth Cymru, 2021c)
- *Undertaking professional enquiry: an introduction for lead enquirers* (Prifysgol Metropolitan Caerdydd, 2019)
- *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd* (Llywodraeth Cymru, 2021g)
- *Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm* (Llywodraeth Cymru, 2021h)
- *What makes a school a learning organisation? A guide for policy makers, school leaders and teachers* (OECD, 2016)

[2] Llywodraeth Cymru (2017a) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-21*
[3] *Llywodraeth Cymru (2020a) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Diweddariad Hydref 2020.*

- *Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu* (Llywodraeth Cymru, 2022b).

Mae rhestr lawn o'r dogfennau a adolygwyd wedi'i chynnwys yn y llyfryddiaeth.

2.3 Cynhaliwyd gweithdai cychwynnol i drafod datblygu'r theori newid gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2021. Yn ystod y gweithdai hyn, casglwyd barn y cyfranogwyr ar y gweithgareddau, y deilliannau a'r effeithiau hirdymor y dylid eu cynnwys yn y theori newid.

2.4 Arweiniodd yr adolygiad o ddogfennaeth a'r gweithdai cychwynnol at ddatblygu theori newid ddrafft. Yn ystod hydref 2021, trafodwyd y theori newid ddrafft mewn **gweithdai i randdeiliaid** gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Estyn, consortia addysg rhanbarthol, Cymwysterau Cymru a chyfarwyddwyr addysg awdurdodau lleol.

2.5 Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2021, cynhwyswyd cwestiynau'n ymwneud â deilliannau disgwyliedig y theori newid mewn **cyfweliadau ansoddol ag ymarferwyr.** Cynhaliwyd cyfanswm o 48 o gyfweliadau ag uwch arweinwyr ac ymarferwyr mewn 48 o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion.[4]

2.6 Cynhaliwyd **trafodaethau grŵp gyda dysgwyr** mewn chwe ysgol ym mis Chwefror 2022 (cymerodd cyfanswm o 37 o ddysgwyr o Flynyddoedd 4-9 ran yn y rhain). Roedd y trafodaethau grŵp hyn yn canolbwyntio ar gasglu canfyddiadau dysgwyr o'r deilliannau a ragwelir ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

2.7 Defnyddiwyd canfyddiadau o'r **gweithdai i randdeiliaid, cyfweliadau ag ymarferwyr** a **thrafodaethau grŵp gyda dysgwyr** i fireinio'r theori newid.

2.8 Ar ôl llunio theori newid fanwl, defnyddiwyd hyn i **ddatblygu fersiwn gryno fwy hygyrch**, sy'n addas i'w chyhoeddi, yn gynnar yn 2022. Mae'r theori newid i'w gweld yn Adran 3.

[4] Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gasglu tystiolaeth ar baratoadau lleoliadau ar gyfer y cwricwlwm, ond roeddent yn cynnwys rhai cwestiynau ar ba ddeilliannau cychwynnol y gallai ymarferwyr ddisgwyl eu gweld yn y tymor byr i ganolig ar ôl ei gyflwyno.

### Y dull mapio data

2.9 Yn dilyn datblygu theori newid ddrafft yn ystod hydref 2021, cynhaliwyd adolygiad desg cynnar o ffynonellau data i nodi setiau data allweddol y gellid eu mapio yn erbyn yr eitemau yn y theori newid.

2.10 Cynhaliwyd cyfweliadau ag ystadegwyr a rheolwyr data yn Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ddeall argaeledd ffynonellau data cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi yn ogystal ag unrhyw newidiadau a ragwelwyd i'r ffynonellau hyn a allai effeithio ar argaeledd data yn y dyfodol neu gysondeb o fewn setiau data. Roedd y cyfweliadau hefyd yn archwilio cyfyngiadau'r data a materion i'w hystyried wrth gael mynediad at setiau data a'u defnyddio fel rhan o werthusiad yn y dyfodol.

2.11 Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol o setiau data a chyfweliadau ag ystadegwyr a rheolwyr data, cafodd data o'r setiau data a nodwyd eu mapio yn erbyn eitemau yn y theori newid i nodi i ba raddau yr oedd pob eitem wedi'i chynnwys a lle roedd bylchau neu gyfyngiadau o ran cwmpas y data. Amlinellir canfyddiadau'r broses mapio data yn Adran 4.

### Y dull o nodi blaenoriaethau gwerthuso

2.12 Cynhaliwyd cyfres o drafodaethau gyda swyddogion polisi ac ymchwil Llywodraeth Cymru i ystyried y blaenoriaethau ar gyfer gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol. Roedd hyn yn sail i ddatblygu argymhellion drafft a brofwyd mewn sesiynau pellach.

2.13 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i aelodau grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru gyfrannu at y broses o nodi blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol. Cynhaliwyd tri chyfarfod gydag aelodau'r grŵp cynghori arbenigol i drafod:

- theori newid y Cwricwlwm i Gymru ac elfennau hanfodol ohono a ddylai fod yn ffocws i werthusiad yn y dyfodol
- safonau, gan ganolbwyntio'n arbennig ar fesur cyrhaeddiad, mewn ffordd sy'n gyson ag athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru ac nad yw'n ei danseilio

- nodi blaenoriaethau tystiolaeth er mwyn archwilio i ba raddau y mae deilliannau disgwyliedig y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu a sefydlu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio mewn ysgolion wrth iddynt ddatblygu dulliau newydd o gynllunio a darparu'r cwricwlwm
- y blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol.

Mae rhestr o aelodau'r grŵp arbenigol a gymerodd ran yn y trafodaethau hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## 3. Theori'r rhaglen

3.1 Mae’r adran hon yn nodi theori'r rhaglen sy’n sail i’r diwygiadau i’r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

### Trosolwg o'r theori newid a sut y caiff ei chymhwyso yng nghyd-destun y diwygiadau i’r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru

3.2 Dull sy’n esbonio sut y bwriedir i raglen (neu yn yr achos hwn, proses ddiwygio) gyflawni ei nodau a’i hamcanion yw theori newid, drwy nodi'n glir y cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, deilliannau, ac effeithiau hirdymor. Mae’r dull yn rhoi cyfle i fyfyrio ar newidiadau cynnar a thymor canolig a allai ddeillio o raglen, a’r ffactorau sy’n dylanwadu arnynt mewn gwahanol gyd-destunau. Mae’r Magenta Book, sef canllaw gwerthuso Llywodraeth y DU, yn nodi bod angen y canlynol er mwyn deall y theori newid:

> an understanding of how the intervention is expected to work in practice, e.g. the problem the intervention aims to address; the change it aims to bring about; the causal chain of events that are expected to bring about the change; the main actors; the groups expected to be impacted; and the expected conditions required for the intervention to succeed;
>
> exposing the assumptions upon which the intervention is based and the strength or weakness of the evidence supporting these assumptions;
>
> an examination of the wider context, such as other policy changes or changes in economic, social and environmental factors;
>
> designers and implementers of the intervention have the opportunity to stress-test the intervention design and ensure they agree on how the intervention is expected to work.
>
> (Trysorlys EM 2020:24)

3.3 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r theori newid ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Mae’n cyflwyno ac yn herio’r rhagdybiaethau y seiliwyd y diwygiadau arnynt, gan gyfeirio at y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth. Daeth trafodaethau ag aelodau grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru i’r casgliad mai prin yw’r enghreifftiau o werthusiadau o ddiwygio cwricwlwm yn rhyngwladol sy’n dilyn modelau tebyg i'r Cwricwlwm i Gymru. Awgrymwyd y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol herio, cefnogi ac egluro ymhellach y rhagdybiaethau a gyflwynir yn y theori newid, a thrwy hynny gyfrannu at broses barhaus o 'ddatblygu theori'. Dylid defnyddio'r dystiolaeth hon i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm a llywio'r gwaith parhaus o fireinio'r theori newid.

3.4 Mae'r gwaith o ddatblygu'r theori newid yn seiliedig ar ystod o ddogfennau polisi a chanllawiau (gweler Adran 2.2) ac mae'n cydnabod y rhyng-ddibyniaethau rhwng y Cwricwlwm i Gymru a mentrau ar draws y system ehangach. Yn ei chanllawiau gwella ysgolion a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi wyth ffactor cyfrannol, sy'n disgrifio nodweddion allweddol ysgolion a fydd yn gwireddu'r cwricwlwm yn llwyddiannus.[5] Mae'r ffactorau allweddol hyn hefyd wedi'u hymgorffori yn y theori newid – fel gweithgareddau (yn achos dysgu ac ymholi proffesiynol, a hunanwerthuso effeithiol o dan y fframwaith gwerthuso a gwella newydd), neu fel deilliannau (yn achos llesiant, datblygu ar y cyd, llais y dysgwr a'r gymuned, a phob dysgwr yn gwneud cynnydd).

3.5 Yn olaf, mae'r theori newid hefyd yn cydnabod y berthynas rhwng y diwygiadau a ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allanol. Fodd bynnag, er mwyn mireinio'r theori newid bydd angen archwilio a dadansoddi'r ffactorau hyn ymhellach dros amser, gan gyfeirio at ganfyddiadau'r rhaglen ymchwil a gwerthuso.

3.6 Gellir cymhwyso theori newid ar wahanol adegau yng nghylch bywyd rhaglen neu brosiect:

> ‘theory of change thinking can be applied at different stages through the programme cycle [...]. These include pre-planning stages of scoping and strategic analysis, design and planning, and throughout implementation. It can be used to support [...] implementation decision-making and adaptation; to clarify the drivers, internal and external, around an existing initiative; monitor progress and assess impact.’ (Vogel 2012:12)

---

[5] Wyth ffactor cyfrannu, gan Lywodraeth Cymru (2022d): [Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd]

1. Galluogi pob dysgwr, ac yn benodol y rheini o gefndiroedd difreintiedig, i wneud cynnydd ar hyd eu llwybr dysgu eu hunain a chodi eu huchelgeisiau i gyflawni eu llawn botensial, gan ddilyn amrywiaeth o ddulliau asesu i ddeall a chefnogi'r cynnydd hwn.
2. Datblygu cwricwlwm ar y cyd, yn unol â Fframwaith Cwricwlwm i Gymru, sy'n hyrwyddo amrywiaeth eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau (gan gynnwys profiadau cymdeithasol a rhyngweithiol) gyda dealltwriaeth glir o pam y mae'r rhain yn bwysig.
3. Sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cefnogi lles dysgwyr ac ymarferwyr.
4. Cefnogi dealltwriaeth ymarferwyr o'r hyn sy'n gweithio wrth ddylunio'r cwricwlwm drwy fuddsoddi yn sgiliau ymholiad ac addysgeg pob aelod o staff.
5. Galluogi dysgu proffesiynol uchelgeisiol i bob ymarferydd mewn ysgol sy'n ymroddedig i fod yn sefydliad sy'n dysgu.
6. Ymgorffori prosesau myfyrio, hunanarfarnu a gwella mewn ysgolion, gyda phrosesau arweinyddiaeth ysgolion da yn rhagamod i hynny.
7. Bod wrth wraidd eu cymunedau - gan feithrin cydberthnasau gwell rhwng ysgolion a theuluoedd, cymunedau a chyflogwyr, i gefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol a chyflogaeth ardderchog a'r camau nesaf mewn addysg a hyfforddiant.
8. Gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ymgysylltu â'u dysgu a'u cefnogi i gyflawni eu dyheadau.

3.7 Yn achos datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru, bydd y theori newid yn cael ei defnyddio dros y misoedd nesaf i gefnogi'r gwaith dylunio gweithgarwch ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol (gweler Adran 5). Drwy fyfyrio'n feirniadol ar gadernid y theori newid, rydym yn cyflwyno sylwadau ac ystyriaethau gyda'r nod o gefnogi rhaglen ymchwil a gwerthuso ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol, gan gwmpasu gweithgarwch gwerthuso sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r diwygiadau a'u deilliannau.

**Yr achos dros newid**

3.8 Mae *Dyfodol Llwyddiannus* (Donaldson, 2015) yn nodi'r rhesymau dros gychwyn y broses o ddiwygio'r cwricwlwm, gan nodi pedwar prif sbardun.

i. Yn gyntaf, cyfeiriodd yr adolygiad at dystiolaeth sy'n dangos **nad yw perfformiad a lefelau cyrhaeddiad** cymharol plant a phobl ifanc yng Nghymru 'mor uchel ag y gallent ac y dylent fod'. Cyfeiriodd Dyfodol Llwyddiannus at dystiolaeth o arolygon y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), cymwysterau cenedlaethol, adroddiadau blynyddol Estyn ac adroddiad 2014 yr OECD ar y system ysgolion yng Nghymru. Nododd yr OECD fod myfyrwyr yng Nghymru yn perfformio'n is na'r cyfartaledd o gymharu â'u cyfoedion rhyngwladol, a bod perfformiad o fewn ysgolion yn amrywio'n fawr gan ddod i'r casgliad bod y trefniadau asesu a gwerthuso presennol yn anfoddhaol.

ii. **Angen i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais a chyflawniad addysgol:** nododd Dyfodol Llwyddiannus fod anfantais – o lawer math – yn cael effaith niweidiol ar ddeilliannau dysgu ac ar lesiant plant a phobl ifanc. Pwysleisiodd yr angen am gwricwlwm sy'n ennyn diddordeb pob plentyn a pherson ifanc ac sy'n gosod disgwyliadau uchel i bawb.

iii. **Hyrwyddo ymreolaeth a rhyddid ysgolion ac athrawon i weithredu:** nododd Dyfodol Llwyddiannus fod cwricwlwm cenedlaethol rhagnodedig iawn a 'mecanweithiau atebolrwydd sy'n gynyddol bwerus', dros amser, wedi lleihau cyfraniad proffesiynol a chreadigrwydd y gweithlu addysgu. Ystyriwyd bod y Cwricwlwm i Gymru yn gyfle i'r gweithlu addysgu symud o fod yn 'weithredwyr' cwricwlwm rhagnodedig i fod yn gyd-ddatblygwyr gweithredol

cwricwlwm sydd wedi'i ddylunio gan ystyried anghenion penodol eu hysgol a'u dysgwyr.

iv. **Perthnasedd i'r byd sydd ohoni a chyfleoedd yn y dyfodol:** mae llawer wedi newid ers cyflwyno’r cwricwlwm cenedlaethol ym 1988 ac mae newidiadau i gymdeithas, yr economi, a datblygiadau technolegol yn gofyn am ailystyried y wybodaeth a’r sgiliau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i fod yn barod ar gyfer heriau’r dyfodol. Rhaid i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu arfogi dysgwyr â'r sgiliau, yr anian a'r agweddau meddalach a fydd yn hanfodol yn eu bywydau. Gall cwricwlwm sydd wedi'i arwain gan ddiben sicrhau bod pobl ifanc yn gadael yr ysgol ar ôl cael addysg eang sy'n sicrhau eu bod yn gallu 'llwyddo mewn byd sy'n fwyfwy cymhleth a chyfnewidiol'.

### Trosolwg o'r theori newid ar gyfer diwygiadau'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu

3.9 Wrth wraidd y broses o ddiwygio’r cwricwlwm mae’r newid i gwricwlwm sydd wedi'i arwain gan ddibenion. Bwriad y pedwar diben yw arwain yr hyn a addysgir, sut y caiff ei addysgu a sut y cefnogir dysgwyr i wneud cynnydd. Diffinnir cwricwlwm ysgol yng nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru fel *'popeth mae dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben'*. Mae hyn yn dangos bod pwysigrwydd y dysgwr a'i brofiad yn greiddiol i'r broses ddiwygio. At hynny, mae'r theori newid yn dangos bod dysgwyr yn rhan weithredol o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm a bod y broses o ddiwygio'r cwricwlwm yn cael ei llywio'n barhaus gan gynnydd dysgwyr.

3.10 Er mai dysgwyr sydd wrth wraidd y diwygiadau, mae'r theori newid yn dangos bod cadwyn achosol hir cyn bod dyheadau dysgwyr yn cael eu gwireddu. Mae’r theori newid yn pwysleisio gweithredoedd ymarferwyr a’r cymorth a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid ar draws y system addysg. Mae ymarferwyr yn allweddol i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cwricwlwm trawsnewidiol. Dengys y theori newid ei bod yn ofynnol i ymarferwyr, ysgolion ac eraill ar draws y system gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn y pen draw yn effeithio ar ddysgwyr ac yn cyfrannu at wireddu deilliannau'r Cwricwlwm i Gymru. Am y rheswm hwn, mae llesiant ymarferwyr a'u hymgysylltiad â’r diwygiadau yn hanfodol i lwyddiant y Cwricwlwm i Gymru.

3.11 Bydd y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion ac athrawon gynllunio eu cwricwlwm eu hunain, o fewn fframwaith deddfwriaethol clir, wedi'i lywio gan ganllawiau a gofynion cenedlaethol ac wedi'i gefnogi gan weithgarwch ar lefel system gyfan. Y theori sy'n sail i hyn oll yw, drwy alluogi ysgolion ac athrawon i gael mwy o ymreolaeth i wneud penderfyniadau o fewn fframwaith cenedlaethol, y bydd y cwricwlwm yn fwy perthnasol ac yn cynnwys profiadau dysgu cyfoethocach a mwy dilys, sydd, yn ôl y theori, yn gwella rhyddid i weithredu, ymgysylltiad a chymhelliant y dysgwyr. Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yma yw'r disgwyliad y bydd cwricwlwm ysgol yn berthnasol i'r ardal leol, i'w rhieni a'u gofalwyr, a'u cymuned leol.

3.12 Mae canllawiau'r Cwricwlwm i Gymru yn tanlinellu pwysigrwydd addysgeg o ansawdd uchel er mwyn gwireddu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Dylai ysgolion: *'ystyried y dulliau addysgegol y bydd angen iddyn nhw eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben'.* Mae gan arweinwyr ysgolion ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau safonau dysgu ac addysgu uchel, gan fanteisio ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael sy'n cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.

3.13 Bydd ysgolion yn mabwysiadu ystod o ddulliau asesu sy'n galluogi'r ymarferwr a'r dysgwr i ddeall ble mae'r dysgwr wedi cyrraedd a beth sydd angen iddo'i wneud nesaf. Mae'r theori newid yn rhagdybio y bydd dulliau newydd o ddylunio'r cwricwlwm, addysgu a dysgu, ac asesu yn cyfrannu at ystod o ddeilliannau tymor byr, canolig a hwy ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr, lleoliadau, rhieni/gofalwyr, a phartneriaid eraill ar draws y system addysg. Ar gyfer dysgwyr yn benodol, mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn perthynas â'u dysgu, eu sgiliau a'u profiadau. Bydd datblygu a gweithredu'r cwricwlwm ysgol hefyd yn cefnogi datblygu sgiliau a phriodoleddau sy'n berthnasol i'r pedwar diben. Tybir bod y newid i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd yn cyfrannu at ystod o ddeilliannau cadarnhaol ar draws y system, yn benodol safonau uwch, mwy o degwch, gwell cyflogadwyedd a mwy o hyder ymhlith y cyhoedd mewn addysg. Hynny yw, drwy ffocws clir a chyson ar ddysgwyr unigol a'u cynnydd, bydd y manteision hyn sy'n ymwneud â system ehangach yn cael eu gwireddu.

3.14 Yn olaf, mae'r theori newid yn dangos y bydd y diwygiadau yn cefnogi ystod ehangach o ddeilliannau i gymdeithas, gan gynnwys cyfrannu at y saith nod llesiant

sydd wedi’u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a nodau'r Strategaeth *Cymraeg 2050* (gweler 3.58).


**Strwythur y theori newid**

3.15 Mae'r theori newid wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- **Gweithgareddau *i* ymarferwyr** yn y system, *sy'n cefnogi:*
    - deilliannau tymor byr i ymarferwyr, lleoliadau a rhanddeiliaid eraill y system.
- **Gweithgareddau *gan* ymarferwyr** (lefel ysgol/lleoliad):
    - sydd hefyd yn cefnogi deilliannau tymor byr yn ymwneud â chyfalaf dynol a chymdeithasol, meithrin hyder, galluoedd ac ymddiriedaeth.
- Cefnogir y ddau nod uchod gan **weithgareddau ar lefel system** ac mae pob un o'r rhain yn cefnogi:
    - **deilliannau tymor byr** i ymarferwyr, lleoliadau a'r system gyfan.
    - **deilliannau tymor canolig** i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr:
        - tuag at wireddu'r pedwar diben.
    - **deilliannau tymor hwy** (cymdeithasol):
        - sy'n cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a'r strategaeth *Cymraeg 2050*.


3.16 Mae'r theori newid i'w gweld yn ffigurau 2, 3 a 4 isod. Mae Ffigur 2 yn rhoi trosolwg o’r theori newid gyfan, yna ceir dadansoddiad manylach mewn dwy ran yn Ffigurau 3 a 4. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio pob un o gamau'r theori newid yn fwy manwl.

**Ffigur 2. Theori newid ar gyfer y diwgyiadau cwricwlwm ac asesu – golwg sgematig**





Noder: Mae'r ffigur hwn yn rhoi trosolwg o'r theori newid. Rhoddir rhagor o fanylion am bob un o'r segmentau lliw yn y darlun llawn ar y tudalennau canlynol.
Diben yr offeryn hwn yw cefnogi datblygiad polisi a'r broses werthuso. Ni ddisgwylir i ysgolion ei ddefnyddio fel rhan o'u prosesau cynllunio.

## Ffigur 3. Theori newid ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu: gweithgareddau a deilliannau tymor byr (Tudalen 1 o 2)[6]




[6] Diben yr offeryn hwn yw cefnogi datblygiad polisi a'r broses werthuso. Ni ddisgwylir i ysgolion ei ddefnyddio fel rhan o'u prosesau cynllunio.

**Ffigur 4. Theori newid ar gyfer y diwygiadau cwricwlwm ac asesu: gweithgareddau a deilliannau tymor byr (Tudalen 2 o 2)**[7]




[7] Diben yr offeryn hwn yw cefnogi datblygiad polisi a'r broses werthuso. Ni ddisgwylir i ysgolion ei ddefnyddio fel rhan o'u prosesau cynllunio.

**Gweithgareddau i ymarferwyr**

3.17 Fel y nodir uchod yn Adran 3.7, mae gallu ysgolion ac ymarferwyr i ddylunio cwricwlwm sy'n darparu'r buddion a nodwyd i ddysgwyr yn golygu bod angen darparu cymorth i ymarferwyr i greu'r amodau ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus. Mae'r adran hon yn amlinellu ystod o weithgareddau sydd wedi'u targedu at ymarferwyr ac yn disgrifio'r deilliannau tymor byr a ddaw ohonynt. Bydd y deilliannau tymor byr hyn yn meithrin y sgiliau, yr ymagweddau a'r ymddygiadau ymhlith ymarferwyr a fydd, yn eu tro, yn cefnogi'r deilliannau tymor canolig a hirdymor i ddysgwyr. Trefnir y gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr fel a ganlyn:

- Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), sefydlu a chymorth gyrfa gynnar
- Cydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid allanol
- Gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr
- Gweithgaredd dysgu proffesiynol i arweinwyr.

3.18 Mae'r adran hefyd yn amlinellu sut y bydd y gweithgareddau hyn ar gyfer ymarferwyr, mewn egwyddor, yn cefnogi mwy o gyfalaf dynol a chyfalaf cymdeithasol gwell sy'n rhagofynion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn llwyddiannus (gweler 3.22).

*Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), sefydlu a chymorth gyrfa gynnar*

3.19 Mae'r theori newid yn rhagdybio bod AGA a chymorth gyrfa gynnar yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu er mwyn eu helpu i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae rhaglenni AGA yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau athrawon dan hyfforddiant (mewn perthynas ag addysgeg, cydweithio, arloesi, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth) sy'n gyson â gweledigaeth a gwerthoedd y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhaglenni sefydlu a chymorth gyrfa gynnar yn ymgorffori arferion gwaith a phroffesiynoldeb sy'n sicrhau safonau uchel ymhlith ymarferwyr. Mae dyheadau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru, y mae'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn cyd-fynd â nhw, yn pennu llwybr ar gyfer newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn addysgu.

3.20 Mae’r theori newid yn tanlinellu’r angen i ymarferwyr gydnabod o ddechrau eu gyrfaoedd eu bod yn rhan arwyddocaol o’r broses o ddiwygio’r cwricwlwm ac y gallant gyfrannu mewn ffyrdd ystyrlon at y gorchwyl o ddatblygu system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru. Mae gan newydd-ddyfodiaid i'r proffesiwn y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru, a bodloni'r disgrifyddion lefel sefydlu ar gyfer addysgu a nodir yn y safonau proffesiynol.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud ag AGA, sefydlu a chymorth gyrfa gynnar** |
|---|
| ○ Mae partneriaethau AGA, ymarferwyr a mentoriaid yn datblygu newydd-ddyfodiaid i’r proffesiwn addysgu sy’n deall y Cwricwlwm i Gymru, sy’n ymroddedig iddo, ac sy’n barod ar ei gyfer.<br>○ Mae rhaglenni AGA yn adlewyrchu gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru ac mae cynnwys y rhaglen yn cyd-fynd â chanllawiau cenedlaethol.<br>○ Mae trefniadau arolygu yn darparu cymorth a her briodol i sicrhau bod rhaglenni AGA o ansawdd uchel ac yn cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. |

*Cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol*

3.21 Mae cydweithio a datblygu ar y cyd yn hanfodol i’r broses o ddiwygio’r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cydweithio rhwng ysgolion ar lefelau lleol a rhanbarthol, drwy glystyrau lleol a rhwydweithiau eraill. Mae’r Rhwydwaith Cenedlaethol yn dod ag ymarferwyr, arbenigwyr academaidd, consortia rhanbarthol, Estyn, llunwyr polisïau a sefydliadau eraill ynghyd i nodi a mynd i’r afael â rhwystrau a chyfleoedd i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae’n darparu cyfleoedd i sgwrsio, datblygu ar y cyd, ymholi ar y cyd a datrys problemau, gan fanteisio ar arbenigedd ystod o weithwyr addysg proffesiynol sydd â safbwyntiau gwahanol. Bydd cydweithio rhwng ysgolion a lleoliadau i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd yn hollbwysig yn ystod camau cynnar y broses o gyflwyno’r cwricwlwm, gyda phartneriaid gwella ysgolion yn chwarae rhan bwysig o ran hwyluso gweithgarwch.

3.22 Bydd cydweithio yn cefnogi dealltwriaeth ar draws y system addysg ehangach o’r cynnydd a wneir wrth weithredu’r cwricwlwm, ynghyd â dealltwriaeth o’r heriau a wynebir ac ymatebion i’r heriau hyn. Bydd y rhwydweithiau a sefydlwyd a'r perthnasoedd a ddatblygir yn galluogi ymarferwyr i nodi ffyrdd priodol o oresgyn heriau drwy weithio mewn partneriaeth a datblygu ar y cyd. Bydd cydweithio rhwng

ysgolion a fydd yn cynnwys uwch arweinwyr, arweinwyr canol ac ymarferwyr yn golygu bod y gwaith gweithredu'n cael ei gefnogi a'i ysgogi ar bob lefel.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â chydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid allanol** |
|---|
| ○ Mae ymrwymiad i gydweithio ymhlith ysgolion ar bob cam o'u taith tuag at wireddu'r cwricwlwm.<br>○ Mae cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn rhwydweithiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm.<br>○ Mae cydbwysedd priodol rhwng her a chymorth, sy'n arwain at weithgarwch cydweithredol sy'n gynhyrchiol, ac nad yw'n tanseilio paratoadau ysgolion. |

*Gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr*

3.23 Mae theori newid y Cwricwlwm i Gymru yn rhagdybio bod y system yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael yn eang i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm a bod ymarferwyr yn gallu manteisio ar gyfleoedd o'r fath. Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn hanfodol i lwyddiant y diwygiadau. Trefnir gweithgaredd dysgu proffesiynol o amgylch y weledigaeth hirdymor ar gyfer dysgwyr. Mae'n wahaniaethaol iawn, caiff ei osod yn ei gyd-destun ac mae'n adlewyrchu anghenion ymarferwyr. Mae'n defnyddio arbenigedd ochr yn ochr â chymorth gan gymheiriaid ac yn cynnwys archwilio effaith ymarfer ar ddysgwyr. Gall dysgu proffesiynol helpu i herio a newid y sefyllfa sydd ohoni. Gall hefyd hyrwyddo cyfleoedd rhwydweithio ac annog y defnydd o dystiolaeth a phrofiadau i archwilio ymddygiad a chredoau ymarferwyr.

3.24 Defnyddir y model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu fel y fframwaith lefel ysgol i nodi a chefnogi anghenion dysgu proffesiynol ymarferwyr. Drwy'r broses hon gall ysgolion nodi cryfderau allweddol, meysydd i'w datblygu a ffyrdd o weithio i alluogi pob un o'r staff i ddatblygu a gwella eu hymarfer proffesiynol. Mae Teithiau Dysgu Proffesiynol Unigol yn galluogi ymarferwyr i gymryd perchnogaeth o ofynion a phrosesau dysgu dros gyfnodau amser realistig.

3.25 Mae'r theori newid yn cynnig bod gweithgaerdd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cynyddu cyfalaf dynol ac yn gwella cyfalaf cymdeithasol mewn ffyrdd sy'n cyfoethogi ymarfer proffesiynol. Mae diwylliant cryf o ddysgu proffesiynol ar draws y

system, wedi'i ysgogi gan ymarferwyr sy'n fframio eu datblygiad eu hunain fel ymarferwyr yng nghyd-destun y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu, o fewn y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr** |
|---|
| ○ Mae cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a ddarperir gan wasanaethau gwella ysgolion a phartneriaid eraill.<br>○ Mae blaenoriaethau ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol yn seiliedig ar asesiadau cadarn o gryfderau a meysydd i'w datblygu, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r fethodoleg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.<br>○ Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael ei gynnal a'i drefnu o amgylch gweledigaeth ysgolion ar gyfer dysgu ac ar gyfer eu dysgwyr. Mae'n hynod wahaniaethol ac yn cael ei osod yn ei gyd-destun. Mae'n defnyddio arbenigedd ochr yn ochr â chymorth gan gymheiriaid ac yn cynnwys ymchwilio i effaith ymarfer ar ddysgwyr. |

*Gweithgaredd dysgu proffesiynol i arweinwyr*

3.26 Mae'r theori newid yn tanlinellu pwysigrwydd gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i gefnogi arweinwyr. Dylai gweithgaredd dysgu proffesiynol ganolbwyntio ar y galluoedd sydd eu hangen i arwain newid i'r cwricwlwm mewn ffordd sy'n cefnogi'r weledigaeth a'r gofynion a nodir yng nghanllawiau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r galluoedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ddofn o ofynion y cwricwlwm, sgiliau rhyngbersonol a sgiliau datrys problemau cryf, a galluoedd i ddatblygu rhwydweithiau a chryfhau ymddiriedaeth o fewn ac ar draws ysgolion. Dros amser bydd y rhaglen dysgu proffesiynol yn ehangu'r gronfa o arweinwyr y cwricwlwm ar draws y system.

3.27 Bydd y gweithgaredd hwn yn cefnogi ystod o ddeilliannau sy'n bwysig i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn gyntaf, bydd y cymorth yn sicrhau mwy o effeithiolrwydd o ran arweinyddiaeth y cwricwlwm a gwell gallu ymhlith arweinwyr i gefnogi datblygiadau mewn cyfalaf dynol (gweler Adran 3.25). Bydd gan arweinwyr fwy o allu i feithrin gwell amgylchedd, diwylliant ac amodau sy'n gydnaws â newid y

cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys cefnogi diwylliant o ymholi a gwelliant parhaus ymhlith ymarferwyr. Bydd arweinwyr mewn gwell sefyllfa i gefnogi ymgysylltu ag ymchwil ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithgaredd dysgu proffesiynol i arweinwyr** |
| --- |
| ○ Mae cyfle cyfartal i arweinwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol y mae ei ansawdd wedi'i sicrhau ac sy'n arloesol.<br>○ Mae pob arweinydd yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol dros amser.<br>○ Mae'n cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu proffesiynol ffurfiol ac anffurfiol.<br>○ Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio i arfogi arweinwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r broses o wireddu'r pedwar diben.<br>○ Mae gweithgaredd dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn datblygu gwybodaeth am gynnwys a sgiliau rhyngbersonol; ac yn darparu cyfleoedd amryfal i ddysgu ynghyd ag ymyrraeth ac adborth parhaus. |

*Gweithgareddau i ymarferwyr a mwy o gyfalaf dynol*

3.28 Awgryma'r theori newid y bydd y gweithgareddau i ymarferwyr a ddisgrifir yn yr adrannau blaenorol yn cyfrannu at **gynyddu deilliannau cyfalaf dynol** sy'n bwysig i gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfalaf dynol yn cynnwys gwelliannau mewn sgiliau a gwybodaeth; gwell llesiant ymysg ymarferwyr; mwy o foddhad yn y swydd; a manteision o ran recriwtio a chadw. Mae'r theori hefyd yn cynnig y bydd cydweithio a gweithgaredd dysgu proffesiynol yn meithrin diwylliant o welliant parhaus ymhlith ymarferwyr ac yn sicrhau bod ymrwymiad i wireddu nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o newid yn y cwricwlwm a hefyd y sgiliau a'r ymddygiad sydd eu hangen i roi'r diwygiadau ar waith.

3.29 Bydd AGA a gweithgaredd dysgu proffesiynol yn rhoi'r hyder i ymarferwyr arbrofi a rhoi cynnig ar arferion newydd a'r gallu i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu dyheadau'r cwricwlwm. Bydd gweithgareddau i ymarferwyr yn cefnogi gwella eu galluoedd i ddatrys problemau, sy'n hollbwysig o ystyried y symudiad tuag at fwy o ymreolaeth i ymarferwyr o ran dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Yn olaf, bydd dysgu

proffesiynol hefyd yn gwella effeithiolrwydd arweinwyr wrth arwain newid, a'u gallu i wneud hynny'n effeithiol.

*Cydweithio a gweithgaredd dysgu proffesiynol sy'n gwella cyfalaf cymdeithasol*

3.30 Mae'r theori newid yn dangos y bydd yr ystod o weithgareddau ar gyfer ymarferwyr yn cefnogi **cyfalaf cymdeithasol gwell**. Yn gyntaf, bydd y gweithgaredd a ddisgrifir uchod yn cryfhau'r cysylltiadau perthynol o fewn a rhwng ysgolion. Bydd y perthnasoedd hyn yn cefnogi gallu a pharodrwydd ysgolion i ddefnyddio arbenigedd lle bo angen i gefnogi'r gwaith o wireddu'r cwricwlwm ac i weithio'n gilyddol drwy ddangos parodrwydd i rannu syniadau ac adnoddau. Bydd cysylltiadau perthynol cryf – sy'n allweddol i lwyddiant y Cwricwlwm i Gymru – yn helpu i leihau ymagwedd dameidiog ar draws y system wrth i'r diwygiadau fynd rhagddynt.

3.31 Deilliannau cyfalaf cymdeithasol eraill sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr yw gwell cydweithredu a chydweithio; ymddiriedaeth rhwng ymarferwyr, darparwyr, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill; cyd-ddealltwriaeth a disgwyliadau ar gyfer newid y cwricwlwm; a mwy o ymdeimlad o reolaeth mewn perthynas â'r cwricwlwm.

**Gweithgareddau ar lefel system**

3.32 Mae'r adran hon yn amlinellu ystod o weithgareddau ar lefel system sy'n darparu'r fframwaith a'r amodau galluogi i gefnogi'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu. Mae'r gweithgareddau hyn ar lefel system yn cynnwys:

- Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, a deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru sy'n amlinellu'r disgwyliadau a'r gofynion o ran diwygio'r cwricwlwm
- safonau proffesiynol ar gyfer athrawon, arweinwyr, cynorthwywyr addysgu (CA) a chynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALU).
- cymwysterau
- systemau atebolrwydd, gan gynnwys trefniadau arolygu
- gweithgareddau i gefnogi system sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- gweithgaredd monitro a gwerthuso.

Dylid nodi nad yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr a cheir hefyd drefniadau cymorth a gwella ysgolion rhanbarthol a chenedlaethol eraill a fydd yn sail i ddiwygio'r cwricwlwm ac yn ei hwyluso.

*Fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol a dyluniad y cwricwlwm ysgol*

3.33 Yn ganolog i'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu mae datblygu fframwaith cenedlaethol sy'n galluogi hyblygrwydd o ran dylunio'r cwricwlwm. Mae Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ac mewn canllawiau ategol. Mae hyn yn cynnwys gofynion gorfodol ar gyfer y cwricwlwm y mae'n rhaid i ysgolion eu hymgorffori yn eu gwaith cynllunio a chyflawni. Y tu hwnt i ofynion y cwricwlwm mae gan ysgolion ddisgresiwn o ran sut y maent yn dylunio eu cwricwlwm.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â'r fframwaith cenedlaethol a dyluniad y cwricwlwm ysgol** |
| --- |
| ○ Mae gan ymarferwyr y gallu i ddablygu cwricwlwm ar y cyd sy'n adlewyrchu eu cyd-destun ac yn bodloni anghenion eu dysgwyr.<br>○ Wrth wneud hynny, mae ymarferwyr yn gweithredu o fewn strwythur cenedlaethol ac yn gallu manteisio ar ganllawiau a chymorth cenedlaethol gan bartneriaid ar draws y system addysg. |

*Safonau proffesiynol*

3.34 Mae safonau proffesiynol yn disgrifio'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiad sy'n nodweddu ymarfer ragorol ac yn cefnogi twf proffesiynol athrawon, arweinwyr, a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu. Datblygwyd y safonau i adlewyrchu ymarfer sy'n gyson â gwireddu'r cwricwlwm newydd. Mae'r theori newid yn rhagdybio bod y safonau proffesiynol yn cael eu cymhwyso a bod trefniadau ar waith i werthuso eu cydlyniaeth mewn perthynas â gofynion y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ymarferwyr.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â safonau proffesiynol** |
| --- |
| ○ Mae safonau proffesiynol yn cael eu sefydlu fel y gwerthoedd trosfwaol sy'n llywio ymagweddau ac ymddygiad ymarferwyr, gan gefnogi addysgeg o ansawdd uchel a gwelliannau mewn addysgeg. |

*Cymwysterau*

3.35 Mae cyfres newydd o gymwysterau'n cael ei datblygu sy'n cyd-fynd â nodau'r Cwricwlwm i Gymru ac yn eu cefnogi. Mae hyn ar ffurf cynnig cymwysterau wedi’u hailwampio i ddysgwyr 14-16 oed sydd wedi’u dylunio i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dewis o ystod ddwyieithog o gymwysterau sy’n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac yn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer dysgu parhaus, bywyd a gwaith. Mae'r cymwysterau newydd yn cyfrannu at gynnig cydlynol a chynhwysol i ddysgwyr ac yn ennyn hyder y cyhoedd. Maent hefyd yn cynnig amrywiaeth eang a chytbwys o ddewisiadau i ddysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Maent yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r ymagwedd tuag at wybodaeth, sgiliau a phrofiad sydd yn y Cwricwlwm i Gymru. Ymhen amser, bydd y fframwaith cymwysterau newydd yn cefnogi deilliannau i ddysgwyr, yn cyfrannu at gynnig cyfle cyfartal i bob dysgwr, ac yn helpu i sicrhau bod y rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg yn fwy cyflogadwy.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â chymwysterau**

- Mae cymwysterau yn cyd-fynd â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi datblygu sgiliau a phriodoleddau sy'n helpu i wireddu'r pedwar diben.
- Mae cymwysterau wedi'u dylunio mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir cyflwyno amrywiaeth ar draws ysgolion yn y pynciau a'r cynnwys penodol a archwilir.
- Mae cymwysterau'n cefnogi deilliannau tymor canolig a thymor hwy i ddysgwyr a nodir yn y fframwaith Cwricwlwm i Gymru.
- Mae'r gyfres o gymwysterau sydd ar gael yn galluogi dysgwyr i ddewis eu llwybr dysgu eu hunain mewn ffordd gynhwysol a theg.

*Systemau atebolrwydd*

3.36 Mae trefniadau arolygu ysgolion yn darparu gwerthusiadau teg a thrylwyr o ansawdd yr arweinyddiaeth, yr addysgu a’r dysgu mewn lleoliadau, gan gynnwys ansawdd cynnwys y cwricwlwm a llesiant ymarferwyr a dysgwyr. Mae’r theori newid hefyd yn amlygu pwysigrwydd systemau atebolrwydd cadarn ar lefel ysgol: cyrff llywodraethu’n arwain ac yn dwyn lleoliadau i gyfrif mewn ffyrdd sy’n ysgogi gwelliant parhaus.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â threfniadau atebolrwydd**

- Mae trefniadau atebolrwydd yn sicrhau bod arferion da a heriau wrth weithredu'r cwricwlwm yn cael eu nodi; maent yn cefnogi safonau uwch ar lefel lleoliadau unigol ac ar draws y system ehangach.

*Gweithgareddau i gefnogi system sy'n seiliedig ar dystiolaeth*

3.37 Mae ymchwil o ansawdd uchel ar gael i ymarferwyr ar bob lefel ac fe'i defnyddir fel sail i arloesi a gwneud gwelliannau i ymarfer. Cefnogir ymarferwyr mewn ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddefnyddio yn ogystal â chynhyrchu ymchwil ac ymholiadau. Caiff y cwricwlwm, asesu ac addysgeg eu blaenoriaethu yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol.

3.38 Noda'r theori newid y gall defnydd effeithiol o dystiolaeth ymchwil gan ymarferwyr gynyddu eu gallu i fyfyrio'n feirniadol ar weithrediad y cwricwlwm newydd a'u cyfraniad at wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Ymysg y deilliannau pellach mae'r ffaith bod tystiolaeth yn llywio gweithrediad y cwricwlwm ac yn cyfrannu at wella systemau. Bydd ymarferwyr yn defnyddio ac yn creu tystiolaeth yn ymwneud â'r cwricwlwm, addysgu a dysgu mewn ffyrdd sy'n cryfhau'r graddau y mae'r proffesiwn yn seiliedig ar dystiolaeth.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â defnyddio tystiolaeth ar draws y system**

- Mae cymorth ar gael i ddatblygu llythrennedd ymchwil a gallu ymarferwr i ymgymryd ag ymchwil ac ymholiadau.
- Mae ansawdd a pherthnasedd ymchwil yn cefnogi diwygio'r cwricwlwm a gwelliannau parhaus ar lefel ysgol a system.
- Rhennir tystiolaeth ymchwil drwy gydweithio o fewn a rhwng lleoliadau.
- Mae tystiolaeth ymchwil hefyd yn cael ei rhannu gan a rhwng partneriaid eraill ar draws y system, gan gynnwys consortia rhanbarthol, sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill.

*Gweithgaredd monitro a gwerthuso*

3.39 Fel rhan o'r astudiaeth gwmpasu, mae cyfres o egwyddorion arweiniol wedi'u nodi a ddylai lywio dulliau o fonitro a gwerthuso'r cwricwlwm a diwygiadau asesu. Dylai rhaglen werthuso:

- archwilio a yw'r weledigaeth a'r gofynion a nodir yn fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu drwy weithredoedd ysgolion a'r system addysg ehangach
- sicrhau bod dysgwyr, a dealltwriaeh o gynnydd dysgwyr, wrth ei gwraidd
- canolbwyntio ar weithgareddau, deilliannau a'r berthynas rhyngddynt
- edrych ar y system gyfan a chanolbwyntio ar ddeall newid/gwella system
- cymryd golwg hirdymor, gan gynnwys dyluniadau ymchwil hydredol ochr yn ochr â methodolegau eraill
- cymryd golwg eang – gan ymgorffori gwaith ymchwil manwl i agweddau newydd ar y broses ddiwygio ochr yn ochr â heriau (traddodiadol) mwy sefydledig
- llywio dysgu ar draws y system addysg yn barhaus – a chynnwys gweithgarwch wedi'i gynllunio a gweithgarwch ymatebol
- Cydnabod y cyd-destunau ieithyddol amrywiol ar draws y system ac adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gefnogi datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr[8]
- Meithrin ymddiriedaeth yn y broses werthuso – ymhlith y rhai sy'n cyfrannu ati ac ymhlith cynulleidfaoedd yr ymchwil
- Defnyddio arbedion effeithlonrwydd a manteisio ar arbenigedd presennol i gefnogi'r broses werthuso.

3.40 Mae angen prosesau clir ar lefel system i fonitro a gwerthuso'r cynnydd tuag at amcanion a deilliannau arfaethedig y diwygiadau i'r cwricwlwm. Bydd hyn yn cofnodi newidiadau mewn cyfalaf dynol a chymdeithasol ac mewn ymarfer proffesiynol, a chysylltiadau rhwng y rhain a chynnydd dysgwyr. Mae monitro a

[8] Gweler yr ymrwymiadau a nodir yn *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* (Llywodraeth Cymru, 2017c); *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg* (Llywodraeth Cymru, 2021k); Canllawiau ar Gategorïau Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2021l); Ymgynghoriad ar Fframwaith ar gyfer y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg (Mai 22).

gwerthuso ar lefel system yn ystyried prosesau monitro a gwerthuso ar lefel lleoliad, ac yn dysgu oddi wrthynt. Mae'r theori newid yn dangos y bydd hyn yn cefnogi adborth ar draws y system a dysgu am weithrediad y cwricwlwm sy'n llywio blaenoriaethau a dulliau gweithredu ar draws y system gyfan. Bydd hefyd yn cefnogi gwell dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o ddeilliannau'r Cwricwlwm i Gymru a chefnogaeth iddynt.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud â gweithgarwch monitro a gwerthuso** |
| --- |
| ○ Buddsoddir mewn monitro a gwerthuso ar lefel lleoliad ac ar lefel system.<br>○ Defnyddir gwerthuso i lywio blaenoriaethau diwygio'r cwricwlwm ar gyfer camau a dulliau gweithredu.<br>○ Bydd gwerthuso, wedi'i arwain gan yr egwyddorion a amlinellir uchod, yn cyfrannu at fwy o hyder ymhlith y cyhoedd yn nhrefniadau'r cwricwlwm newydd yng Nghymru, a dealltwriaeth ohonynt. |

**Gweithgareddau gan ymarferwyr**

3.41 Yn yr adran hon, disgrifir cyfres o weithgareddau sydd i'w cyflawni gan ymarferwyr i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn seiliedig ar, ac yn cefnogi, ymrwymiad i ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella'n barhaus a byddant yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, athrawon, ysgolion ac eraill.

3.42 Mae'r agwedd hon ar y theori newid yn cydnabod bod y meysydd amrywiol o ymarfer proffesiynol – addysgeg, ymholiad proffesiynol, asesu, cynllunio'r cwricwlwm, hunanwerthuso – yn rhyngddibynnol. Mae gwaith ym mhob maes ymarfer yn llywio ac yn defnyddio ymarfer mewn meysydd eraill.

*Cwricwlwm ysgol wedi'i ddylunio'n dda sy'n seiliedig ar ymgysylltu â dysgwyr a'r gymuned ehangach*

3.43 Gan ddefnyddio canllawiau cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru a chefnogaeth partneriaid ar draws y system, mae ymarferwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu eu cwricwlwm ar y cyd. Wrth wneud hynny, maent yn gweithio mewn ffordd gynhwysol gyda chydweithwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol. Mae dysgwyr, yn arbennig, yn cymryd rhan weithredol yn null eu

hysgol o ddylunio a datblygu'r cwricwlwm. Mae dylunio'r cwricwlwm yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol: mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio ar draws disgyblaethau, yn cydweithio ag ysgolion eraill a chydag ystod o randdeiliaid. Ceir cynwysoldeb a thegwch yn y lleisiau sy'n llywio ac yn rhoi cyfeiriad i'r cwricwlwm. Mae ysgolion yn sicrhau eu bod yn gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu. Trefnir y dysgu mewn ffyrdd sy'n ymateb i anghenion dysgwyr, gan ddarparu her a chymorth priodol.

3.44 Mae dylunio trefniadau asesu yn rhan gynhenid o'r broses o ddatblygu cwricwlwm. Mae'r theori newid yn rhagdybio bod ysgolion ac ymarferwyr yn glir ynghylch rôl benodol pob asesiad sy'n cael ei gynnal, ac ar gyfer beth y defnyddir y ddealltwriaeth a geir o asesu a pham. Dylai ymarferwyr fod yn barod i herio a chwestiynu sut y mae asesu yn cyfrannu at sicrhau bod dysgwyr yn gwireddu gweledigaeth a dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.

**Rhagdybiaethau'n ymwneud â dylunio'r cwricwlwm ysgol**

- Mae gan leoliadau yr amser a'r adnoddau i feddwl am ddylunio'r cwricwlwm ac ymgysylltu â'r broses.
- Mae barn dysgwyr yn cael ei chasglu a'i defnyddio fel rhan o'r broses o ddylunio'r cwricwlwm ysgol.
- Mae gan ymarferwyr y sgiliau a'r gallu i gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm yn unol â'r gofynion a nodir mewn canllawiau cenedlaethol ac mewn deddfwriaeth.
- Mae cwricwla ysgolion yn briodol o uchelgeisiol ac yn gosod disgwyliadau uchel ar ddysgwyr yn unol â gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru.
- Mae lleoliadau yn ymgysylltu â phartneriaid perthnasol fel rhan o'r broses  ddylunio eu cwricwlwm.

*Addysgeg o ansawdd uchel*

3.45 Wrth iddo gael ei roi ar waith, dylai cwricwlwm ysgol gael ei gefnogi gan addysgeg o ansawdd uchel sy'n cael ei llywio gan y deuddeg egwyddor addysgeg. Mae'r egwyddorion yn datgan bod dysgu ac addysgu da yn:

- canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm

- rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd
- defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol
- defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb
- creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu
- dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
- ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd
- atgyfnerthu yn rheolaidd y sgiliau trawsgwricwlaidd sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i’w hymarfer
- annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain
- hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol
- hybu cydweithio.

3.46 Mae ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel, wedi’i lywio gan addysgeg effeithiol, yn cefnogi ystod o ddeilliannau tymor canolig i ddysgwyr (gweler Adran 3.50).

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud ag ymarfer proffesiynol wrth gyflwyno'r cwricwlwm** |
|---|
| ○ Mae addysgeg o ansawdd uchel yn sail i’r modd y cyflwynir y cwricwlwm.<br>○ Mae ymarfer proffesiynol yn cael ei lywio gan y deuddeg egwyddor addysgeg a nodir yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.<br>○ Mae addysgeg o ansawdd uchel yn cefnogi ac yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a thymor hwy ar gyfer dysgwyr a nodir yn y theori newid. |

*Asesiad ar gyfer cefnogi dilyniant dysgwyr*

3.47 Fel rhan o ddatblygu cwricwlwm eu hysgol, mae ymarferwyr yn datblygu dulliau asesu sy'n ymgorffori egwyddorion asesu.[9] Mae'r egwyddorion hyn yn cydnabod mai pwrpas asesu yw cefnogi dilyniant pob dysgwr unigol mewn perthynas â'r continwwm 3 i 16. Mae dysgwyr wrth galon yr asesu a dylid eu cefnogi i ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses. Mae pob dysgwr, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn cael ei alluogi i symud ymlaen ar hyd ei lwybr dysgu ei hun a chodi ei ddyheadau. Mae'r cwricwlwm, asesu ac addysgeg yn rhan o ddull addysgu a dysgu integredig. Mae cyd-ddealltwriaeth o gynnydd, a ddatblygir drwy ddeialog broffesiynol, yn rhan annatod o gynllunio'r cwricwlwm a gwella dysgu ac addysgu. Dylai dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan ddefnyddio ystod eang o ddulliau asesu, gan greu darlun cyfannol o ddatblygiad y dysgwr. Mae tair prif rôl i asesu fel rhan o'r broses o alluogi cynnydd mewn perthynas â dysgu.

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd.
- Nodi a chofnodi cynnydd dysgwyr unigol dros amser a myfyrio ar hynny.
- Deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar ymarfer.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud ag asesu** |
| --- |
| ○ Mae ysgolion a lleoliadau yn datblygu dulliau asesu o ansawdd uchel ac addas at y diben sy'n canolbwyntio ar gefnogi cynnydd pob dysgwr unigol.<br>○ Mae asesu hefyd yn rhoi darlun o gynnydd grwpiau mewn perthynas â nodau ehangach y Cwricwlwm i Gymru i godi safonau.<br>○ Mae ysgolion a lleoliadau yn defnyddio gwybodaeth asesu i lywio addysgu a dysgu; i helpu dysgwyr i ddeall eu cynnydd eu hunain; ac i gyfleu cynnydd i rieni/gofalwyr. |

[9] Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gefnogi cynnydd dysgwyr sy'n amlinellu diben ac egwyddorion asesu (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar gefnogi cynnydd dysgwyr o 3 i 16 oed fel rhan annatod o ddysgu ac addysgu ac yn gwahaniaethu rhwng hyn ac asesu at ddibenion dyfarnu cymwysterau allanol.

*Hunanwerthusiad gan ysgolion er mwyn gwella'n barhaus*

3.48 Mae'r theori newid hefyd yn dangos y bydd asesu yn helpu lleoliadau i ddeall cynnydd grwpiau a dylai hefyd fod yn sail i hunanwerthusiad lleoliadau. Dylai hunanwerthuso fod yn broses barhaus sy'n cyd-fynd â chynllunio gwelliant; dylai fod yn fyfyriol, yn onest, yn gynhwysol, ac yn drylwyr; dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio ystod o ddata perthnasol a dibynadwy.

| **Rhagdybiaehau'n ymwneud â hunanwerthuso er mwyn gwella'n barhaus** |
|---|
| ○ Mae lleoliadau'n datblygu prosesau hunanwerthuso cadarn sy'n cefnogi gwelliant parhaus yn unol â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.<br>○ Mae dulliau hunanarfarnu yn cael eu cefnogi gan weithgarwch gwella ysgolion lleol a rhanbarthol.<br>○ Nid yw deilliannau hunanwerthusaid yn cael eu defnyddio gan bartneriaid lleol a rhanbarthol i gymharu lleoliadau neu fel data mesur perfformiad. |

*Ymholiad proffesiynol cadarn*

3.49 Mae'r theori newid ar gyfer diwygiadau'r cwricwlwm yn honni bod ymarferwyr ac ysgolion yn archwilio syniadau a datblygiadau addysgol newydd o ran eu sefyllfaoedd eu hunain. Mae pob aelod o gymuned yr ysgol – arweinwyr, athrawon, gweithwyr cymorth dysgu, dysgwyr, rhieni a gofalwyr a'r gymuned ehangach – yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm. Dylai ymholiad proffesiynol fod yn gydweithredol, gan alluogi ymarferwyr ac eraill i weithio gyda'i gilydd i nodi heriau a'r ffordd orau i'w goresgyn. Dylai ymholiad proffesiynol hefyd fod yn broses barhaus yn hytrach nag yn ymgynghoriad neu adolygiad a bennwyd gan amser. Dylai adeiladu ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad presennol ymarferwyr a chydweithwyr eraill. Yn olaf, dylai ganiatáu i ymarferwyr feirniadu eu hymarfer presennol ac ymchwilio i ddulliau newydd y bydd rhaid eu mabwysiadu yn y dyfodol.

| **Rhagdybiaethau'n ymwneud ag ymholiad proffesiynol** |
|---|
| ○ Mae lleoliadau yn annog ac yn cefnogi ymarferwyr i gynnal ymholiad proffesiynol cadarn sy'n gwella ymarfer proffesiynol ac yn cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. |

**data'n ymwneud â deilliannau tymor canolig ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr**

3.50 Gyda'i gilydd bydd y gweithgareddau ar lefel system a gweithgareddau ymarferwyr yn cefnogi ystod o ddeilliannau tymor canolig. Y deilliannau hyn fydd:

- dylunio a gwireddu'r cwricwlwm ysgol, gan ymgorffori holl elfennau'r cwricwlwm fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth a chanllawiau
- deilliannau i ddysgwyr
- deilliannau ar gyfer lleoliadau ac ymarferwyr
- deilliannau i rieni/gofalwyr.

3.51 Dylid nodi nad yw'r is-adrannau canlynol yn rhestru rhagdybiaethau penodol sy'n ymwneud â'r amrywiol ddeilliannau tymor canolig a thymor hwy, fel y gwnaed yn yr adrannau blaenorol. Mae un ragdybiaeth sylfaenol sy'n sail i'r theori newid, sef bod y cyfuniad o weithgareddau ar lefel system a gweithgareddau ymarferwyr gyda'i gilydd yn arwain at y deilliannau i ddysgwyr, i ysgolion, i'r system addysg ehangach ac, yn y pen draw, i gymdeithas. Yn ail, dylid tybio y bydd ystod o ffactorau allanol yn dylanwadu ar y graddau y cyflawnir y deilliannau a nodir isod. Gallai'r ffactorau allanol hyn amrywio o ddigwyddiadau ar raddfa fawr sy'n amharu ar y system addysg (fel y gwelwyd yn y blynyddoedd diwethaf), i newidiadau i bolisi a deddfwriaeth, i ffactorau ac amodau mwy lleol ar lefel ysgol neu lefel gymunedol. Mae amodau a newidynnau economaidd-gymdeithasol hefyd yn debygol o ddylanwadu ar y deilliannau a gyflawnir drwy'r diwygiadau. Bydd angen i'r astudiaethau a argymhellir ym mhennod 5 yr adroddiad hwn ymchwilio i ddylanwad ffactorau allanol a chyd-ddibyniaethau ar gynnydd a deililannau diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.

*Dyluniad y cwricwlwm*

3.52 Mae dyluniad y cwricwlwm ysgol yn ymgorffori holl elfennau'r cwricwlwm – Meysydd Dysgu a Phrofiad; sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol; ac elfennau a themâu trawsbynciol. Mae ymarferwyr, wrth gyfrannu at ddylunio'r cwricwlwm, yn glir ynghylch pam mae dysgu penodol yn bwysig a sut y bydd yn cyfrannu at gynnydd dysgwyr. Mae'r rhai sy'n cyfrannu at y broses o gynllunio'r cwricwlwm – gan gynnwys ymarferwyr, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol – yn

teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac wedi'u grymuso a'u hysgogi gan y broses.

*Deilliannau tymor canolig i ddysgwyr*

3.53 Mae cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a ategir gan addysgeg o ansawdd uchel, yn cefnogi ystod o ddeilliannau tymor canolig i ddysgwyr:

- Maent yn mynegi boddhad gyda'u dysgu; mae ganddynt ddiddordeb yn y cwricwlwm ac mae'n eu cyffroi
- Caiff eu hanghenion eu diwallu wrth iddynt ddatblygu a gwella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth dros amser
- Teimlant eu bod yn cael eu herio i archwilio posibiliadau uchelgeisiol a'u bod yn cael eu cefnogi i fodloni disgwyliadau uchel
- Maent yn cael profiad o addysgu a dysgu sy'n eang, yn ddilys, yn integredig, yn gynhwysol ac yn deg
- Maent yn cydnabod y rôl y gallant ei chwarae mewn penderfyniadau am eu dysgu eu hunain
- Cânt gyfleoedd i gymhwyso'r hyn a ddysgant mewn cyd-destunau newydd ac ehangu eu sgiliau
- Gwnânt gysylltiadau rhwng y Meysydd Dysgu a Phrofiad, a rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu dros amser ac ar draws cyd-destunau
- Gallant gyfathrebu'n effeithiol drwy wahanol ddulliau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

3.54 Mae dulliau asesu, wedi'u hintegreiddio o fewn y cwricwla ysgol hefyd yn cefnogi deilliannau tymor canolig i ddysgwyr. Mae dysgwyr yn cael profiad o asesu fel rhan annatod, o ddydd-i-ddydd, o'r cwricwlwm. Mae dysgwyr yn deall ble maen nhw wedi cyrraedd o ran eu dysgu, ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf, a sut i wneud cynnydd.  Maent hefyd yn ymateb i adborth ar eu dysgu, gan adolygu a chyfleu eu cynnydd.

*Deilliannau tymor canolig i ymarferwyr ac ysgolion*

3.55 Bydd dulliau asesu, sy’n ymgorffori’r egwyddorion asesu a nodir yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, yn cefnogi ystod o ddeilliannau ar gyfer ymarferwyr ac ysgolion. Byddant yn cyfrannu at ymarferwyr ac ysgolion o ran:

- cael darlun cyfannol o gryfderau eu dysgwyr, eu ffyrdd o ddysgu, unrhyw rwystrau a meysydd i'w datblygu
- deall a – lle y bo'n briodol – cofnodi cynnydd pob dysgwr dros amser
- darparu adborth a chyfleu'r camau nesaf yn eu dysgu i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr
- deall a yw grwpiau gwahanol o ddysgwyr yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, gan gynnwys dysgwyr dan anfantais, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai â nodweddion gwarchodedig
- nodi a chynllunio strategaethau i fynd i’r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad, gan gyfeirio at dystiolaeth o arferion mawr eu heffaith sydd fwyaf tebygol o fynd i’r afael â bylchau
- galluogi dysgwyr i ddechrau neu barhau eu taith tuag at ddod yn ddinasyddion dwyieithog.

3.56 Bydd gweithgareddau'n ymwneud ag ymholiad proffesiynol (fel y disgrifir yn Adran 3.48) yn cyfrannu at ymarferwyr yn datblygu eu gwybodaeth broffesiynol, eu dealltwriaeth, eu hyder a’u galluoedd ar gyfer dylunio cwricwlwm, addysgeg ac asesu o ansawdd uchel, a'u gwella. Mae’r theori newid yn nodi y bydd hyn yn cefnogi twf yn y gronfa o ymarferwyr sydd â lefelau uchel o arbenigedd ar y cwricwlwm, addysgeg ac asesu. Bydd ymholiad proffesiynol hefyd yn helpu i sicrhau bod problemau a heriau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu i gefnogi cynnydd yn cael eu nodi, yr eir i'r afael â hwy ac y cânt eu datrys.

*Deilliannau tymor canolig i rieni/gofalwyr a phartneriaid allanol*

3.57 Bydd rhieni a gofalwyr hefyd yn elwa ar y dulliau asesu a fabwysiadwyd mewn ysgolion i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae’r theori newid yn rhagdybio bod rhieni a gofalwyr:

- yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ysgolion i ddeall a chefnogi cynnydd eu plentyn mewn perthynas â dysgu
- yn deall ble maen eu plentyn wedi cyrraedd o ran eu dysgu, ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf, a sut
- yn ymateb yn weithredol i wybodaeth am gynnydd eu plentyn mewn perthynas â dysgu.

*Cynnydd y dysgwr*

3.58 Mae'r theori newid yn rhagdybio y bydd datblygu a gweithredu'r cwricwlwm a'r cymorth sydd ar gael i gynnal gwelliannau mewn ysgol yn cyfrannu at sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Yn gyntaf, bydd cyflwyno'r cwricwlwm yn arwain at gynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth y dysgwyr, gan gynnwys dealltwriaeth ddofn o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad. Canlyniad pellach fydd mwy o effeithiolrwydd dysgwyr, a amlygir gan ddull cynyddol soffistigedig o ddefnyddio a chymhwyso sgiliau. Bydd dysgwyr yn gwneud cysylltiadau ar draws y Meysydd ac yn trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i gyd-destunau newydd. Yn ogystal â hynny, bydd pob dysgwr yn gwneud cynnydd o ran ei ddefnydd o'r Gymraeg yn ei fywyd bob dydd. Mae'r theori newid yn cydnabod bod hon yn broses gylchol ac ailadroddol: bydd cynnydd dysgwyr yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i lywio'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm yn barhaus a bydd yn cefnogi gweithgareddau hunanwerthuso ysgolion.

**Deilliannau tymor canolig o ran y pedwar diben**

3.59 O ganlyniad i'w profiadau o ddysgu a chynnydd, fel y nodir yn adrannau cynharach y theori newid, bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r priodoleddau sy'n gysylltiedig â gwireddu'r pedwar diben. Mae pob dysgwr yng Nghymru yn cael ei gefnogi i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd

- yn unigolion iach, hyderus sy’n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Deilliannau system gyfan**

3.60 Mae'r theori newid yn cynnig bod y cynnydd a wneir gan ddysgwyr yn cefnogi nifer o ddeilliannau parhaus pwysig.

- Mae cyrhaeddiad yn gwella ar draws y system addysg.
- Mae'r cynnydd a wneir gan bob dysgwr yn cyfrannu at fwy o degwch yn y system addysg.
- Mae'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg yn fwy cyflogadwy.
- Mae gan y cyhoedd fwy o hyder yn y system addysg.

**Deilliannau cymdeithasol tymor hwy**

3.61 Rhagdybir y bydd y deilliannau i ddysgwyr a'r deilliannau system gyfan a nodir uchod yn cyfrannu at ystod o ddeilliannau tymor hwy ar lefel gymdeithasol ehangach. Noda *Cynllun gweithredu Cwricwlwm i Gymru* Llywodraeth Cymru fod *'diwygiadau addysg yn gysylltiedig â’n nodau fel cenedl, fel y’u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015'* (Llywodraeth Cymru, 2021a). Mae’n nodi’r cysylltiadau rhwng nodau llesiant cenedlaethol a deilliannau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru fel a ganlyn:

| Nod llesiant | Deilliannau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mwy o unigolion cyflogadwy yn gadael yr ysgol a'r coleg ac yn cael cyfle i ddod o hyd i waith boddhaol. |
| | Dinasyddion mwy ymgysylltiol a galluog |
| Cymru gydnerth | Mathau o ymddygiad mwy cynaliadwy, cyfrifoldebau egwyddorol, a gwell amgylchedd. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Llai o dlodi a mwy o symudedd cymdeithasol.<br>Cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad. |
| Cymru iachach | Dinasyddion iachach sy'n ymwybodol o'u lles corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau cryfach, mwy cydlynus â chysylltiadau dyfnach rhwng ysgolion a chymunedau lleol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Dinasyddion sy'n gwerthfawrogi eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill yn well.<br>Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Dinasyddion mwy hunanymwybodol sy'n gwneud gwell penderfyniadau ac yn dangos mathau o ymddygiad cynaliadwy |

3.62 Mae'r deilliannau hyn yn disgrifio'r manteision a ragwelir i'r gymdeithas ehangach wrth i ddysgwyr wireddu'r pedwar diben dros amser. Drwy geisio sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cefnogi agweddau ar y Strategaeth Cymraeg 2050 sy'n cynnwys targedau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd i ba raddau y bydd yr honiadau hyn am gyfraniad y Cwricwlwm i Gymru at ddeilliannau ehangach yn cael eu cadarnhau dros amser yn cael eu profi fel rhan o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso.

## 4. Mapio data

4.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r broses mapio data a edrychodd ar y data sydd ar gael a'u cymharu yn erbyn cwestiynau ymchwil a gwerthuso, sy'n ymchwilio i weithgareddau, deilliannau ac effeithiau a nodir yn y theori newid.

4.2 Nodwyd amrywiaeth o ffynonellau data drwy'r broses mapio data sy'n ymwneud â phob un o adrannau'r theori newid, sef:

- gweithgareddau *i* ymarferwyr
    - deilliannau tymor byr
- gweithgareddau *gan* ymarferwyr
- gweithgareddau'r system
    - deilliannau tymor byr: system
- data'n ymwneud â deilliannau tymor canolig ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr
- deilliannau tymor hwy (cymdeithasol).

4.3 Mae disgrifiad o'r ffynonellau data a nodwyd sy'n ymwneud â phob un o'r adrannau uchod o'r theori newid wedi'i gynnwys yn Atodiad B. Mae'r mathau o ffynonellau data yn cynnwys setiau data gweinyddol y llywodraeth, data cenedlaethol ar gyfranogiad a chyrhaeddiad, data arolwg addysg, tystiolaeth arolygu Estyn ac astudiaethau ymchwil a gwerthuso ad hoc. Rheolir y ffynonellau data hyn gan amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid addysg eraill. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ffynonellau data a nodwyd, cyhoeddir data, adroddiadau neu fwletinau ystadegol rheolaidd er nad yw rhai o'r ffynonellau'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd.

4.4 Mae'r broses mapio data wedi nodi llawer o ffynonellau data sy'n ymwneud â phob un o'r eitemau unigol yn y theori newid. Fodd bynnag, prin yw'r ffynonellau sy'n archwilio'r cysylltiadau a'r llwybrau rhwng eitemau, ac mae hyn felly'n cyfyngu ar y graddau y gellir profi theori y rhaglen yn empirig gan ddefnyddio ffynonellau data eilaidd presennol.

4.5 Mae ein dadansoddiad yn datgelu y byddai'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol neu, mewn rhai achosion, dystiolaeth gyfyngedig mewn perthynas â'r cwestiynau ymchwil a gwerthuso a nodwyd (Gweler Tabl 1). O

ganlyniad, mae angen cynllunio a chyflwyno rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n cynhyrchu'r data a'r wybodaeth i ddeall effeithiolrwydd a deilliannau'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm. Wrth wneud hynny, mae angen cyfeirio at waith ymchwil a chasglu data parhaus neu arfaethedig a all lywio'r broses werthuso a chysylltu â gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddiffinio ecosystem data a gwybodaeth newydd ar gyfer y system ysgolion yng Nghymru i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.[10] Gallai'r broses hon gynnwys ystyried sut y gallai'r prosesau casglu ar gyfer y ffynonellau data a nodir yn Atodiad B gael eu diwygio neu eu dylanwadu gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol fel eu bod yn casglu data sy'n cyd-fynd yn well ag eitemau a llwybrau'r theori newid. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- SHRN - Holiadur Amgylchedd Ysgol ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
- adolygiadau thematig Estyn yn y dyfodol (bydd ffocws y rhain yn cael ei bennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cymru ac Estyn).

4.6 Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau mapio data yn Nhabl 1 sy'n nodi:

- adrannau ac eitemau o'r theori newid (yng ngholofnau A a B. Mae lliwiau'r rhesi yn cyfateb i gamau yn y theori newid)
- cyfres o gwestiynau ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud â'r eitemau a'r llwybrau rhwng eitemau a nodir yn y theori newid (yng ngholofn C)
- i ba raddau y byddai'r data sydd ar gael yn galluogi'r cwestiynau ymchwil a gwerthuso hyn i gael eu hateb ar lefel genedlaethol (yng ngholofn D)
- a gynigir gwaith ymchwil pellach fel rhan o werthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol (yng ngholofn D), yn ogystal â chyfeiriadau at yr astudiaethau arfaethedig a gyflwynir yn Adran 5 a fyddai'n mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn.

[10] Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i anghenion a defnydd data a gwybodaeth ar draws y system ysgolion yng Nghymru. Bydd yr ymchwil yn darparu sylfaen dystiolaeth i helpu i ddiffinio ecosystem data a gwybodaeth newydd ar gyfer y system ysgolion yng Nghymru i gefnogi uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru. Gweler Ymchwil i anghenion y system ysgolion yng Nghymru o ran data a gwybodaeth a'u defnydd- Hwb (llyw.cymru).

**Tabl 11. Crynodeb o fapio data yn erbyn y cwestiynau ymchwil a gwerthuso**

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil a gwerthuso | D. I ba raddau y mae'r data yn galluogi cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | E. Ymchwil pellach? |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau *i* ymarferwyr | AGA, Sefydlu a Chymorth Gyrfa Gynnar | **I ba raddau y mae AGA, Sefydlu a Chymorth Gyrfa Cynnar yn galluogi ANG i:**<br>• **gredu eu bod, o'r dechrau, yn rhan arwyddocaol o'r ymdrech i ddiwygio'r cwricwlwm ac y gallant gyfrannu'n llawn at y genhadaeth i ddatblygu system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru?**<br>• **meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymagweddau i chwarae eu rhan yn y broses o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru?**<br>• **bodloni'r disgrifyddion lefel sefydlu ar gyfer addysgu o fewn y safonau proffesiynol?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 5, 7 yn Adran 5) |
| | Cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol | **I ba raddau y mae cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol yn cefnogi:**<br>• **dealltwriaeth system o'r cynnydd gyda'r broses gweithredu, yr heriau ac ymatebion i heriau?**<br>• **datblygu dulliau ar y cyd o oresgyn?**<br>• **sefydlu rhwydweithiau a datblygu perthnasoedd?**<br>• **sicrhau bod y broses weithredu yn cael ei chefnogi a'i hybu ar bob lefel?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 5, 7, 8, 9 yn Adran 5) |
| | Gweithgaredd Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr | **I ba raddau y mae gweithgaredd Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr yn cefnogi:**<br>• **cynyddu capasiti i ymarferwyr ddysgu'n barhaus ac ymateb yn hyblyg mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwelliannau o ran y cwricwlwm, addysgeg a threfniadau asesu?**<br>• **newid diwylliannol sy'n gydnaws â gweithgaredd dysgu proffesiynol?**<br>• **bod gweithgaredd dysgu proffesiynol yn cael ei ysgogi gan ymarferwyr sy'n fframio twf proffesiynol yng nghyd-destun pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 5, 7, 8, 9 yn Adran 5) |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil a gwerthuso | D. I ba raddau y mae'r data yn galluogi cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | E. Ymchwil pellach? |
|---|---|---|---|---|
| Data sy'n ymwneud â deilliannau tymor byr ar gyfer ymarferwyr, lleoliadau a'r system | Cynnydd mewn cyfalaf dynol | **I ba raddau y mae'r gweithgareddau *i* ymarferwyr yn cefnogi mwy o gyfalaf dynol?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 4, 5 yn Adran 5) |
| | Gwell cyfalaf cymdeithasol | **I ba raddau y mae'r gweithgareddau *i* ymarferwyr yn cefnogi gwell cyfalaf cymdeithasol?** | Ddim o gwbl | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 4, 5 yn Adran 5) |
| | Datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu | **I ba raddau y mae'r gweithgareddau *i* ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu?** | Ddim o gwbl | Ie (Gweler Astudiaeth 4 yn Adran 5) |
| Data'n ymwneud â gweithgareddau *gan* ymarferwyr | Ymgysylltu cynhwysol; Cwricwlwm wedi'i ddylunio'n dda | **I ba raddau y mae ysgolion/lleoliadau wedi datblygu cwricwlwm a threfniadau asesu yn unol â'r fframwaith cenedlaethol?**<br>**I ba raddau y mae lleoliadau wedi ymgysylltu'n gynhwysol ag amrywiol bartneriaid fel rhan o'u gweithgaredd datblygu'r cwricwlwm.** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 6 yn Adran 5) |
| | Hunanwerthusiad gan ysgolion er mwyn gwella'n barhaus | **I ba raddau y mae prosesau hunanwerthuso lleoliadau ar gyfer gwella'n barhaus: yn cyd-fynd â chynllunio gwelliannau; yn integreiddiol; yn fyfyriol; yn onest; yn gynhwysol; yn drwyadl; yn anfygythiol; yn seiliedig ar dystiolaeth a data?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 6 yn Adran 5) |
| | Ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel ac ymarfer proffesiynol sy'n gwella | **I ba raddau y mae prosesau asesu ysgolion a lleoliadau, yn canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau, o ansawdd uchel, yn addas at y diben ac yn cefnogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd?**<br>**I ba raddau y ceir addysgeg o ansawdd uchel, gan gynnwys a yw arferion proffesiynol ar lefel lleoliad yn cael eu llywio gan yr egwyddorion addysgeg?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 6 yn Adran 5) |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil a gwerthuso | D. I ba raddau y mae'r data yn galluogi cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | E. Ymchwil pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | **I ba raddau y ceir ymholiad proffesiynol cadarn sy'n cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru?** | | |
| Data'n ymwneud â gweithgaredd au'r system | Cymwysterau; Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth; System wedi'i llywio gan dystiolaeth; fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn galluogi hyblygrwydd; Monitro a gwerthuso; Systemau atebolrwydd. | **I ba raddau y mae pob un o'r gweithgareddau ar lefel system yn arwain yn uniongyrchol at y deilliannau tymor byr cysylltiedig fel y'u nodir yn y theori newid?**<br>**I ba raddau y mae gweithgareddau ar lefel system gyda'i gilydd yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig?** | Yn rhannol | Ie (Gweler Astudiaethau 1, 5 yn Adran 5) |
| Data'n ymwneud â deilliannau tymor canolig i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr | Mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd | **I ba raddau y mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd yn unol â'r egwyddorion cynnydd, o ran: cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth, gwella'r ffordd y maent yn defnyddio ac yn cymhwyso eu sgiliau, gwneud cysylltiadau o fewn eu dysgu a chymhwyso'r hyn a ddysgant i gyd-destunau newydd, datblygu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg?**<br>**I ba raddau y mae dysgwyr yn: mynegi boddhad gyda'u dysgu, yn dangos diddordeb yn y cwricwlwm a gyflwynir iddynt ac yn cael eu cyffroi ganddo, a yw eu hanghenion wedi'u bodloni, a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu herio i ymchwilio i bosibiliadau uchelgeisiol ac yn cael cefnogaeth i fodloni disgwyliadau uchel, adnabod y rôl y gallant ei chwarae mewn penderfyniadau am eu dysgu?** | Cyfyngedig | Ie (Gweler Astudiaethau 2, 3 yn Adran 5) |

| A. Adran y theori newid | B. Eitem y theori newid | C. Cwestiynau ymchwil a gwerthuso | D. I ba raddau y mae'r data yn galluogi cwestiynau i gael eu hateb yn genedlaethol | E. Ymchwil pellach? |
|---|---|---|---|---|
| | | **I ba raddau y mae dysgwyr yn cael profiad o addysgu a dysgu sy'n eang, yn ddilys, yn integredig, yn gynhwysol ac yn deg?**<br>**I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi hyder cynyddol y cyhoedd yn y system addysg?** | | |
| | Gwireddu'r pedwar diben | **I ba raddau y mae'r pedwar diben yn cael eu gwireddu?**<br>**I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at wireddu'r pedwar diben?** | Cyfyngedig | Ie (Gweler Astudiaethau 2, 3 yn Adran 5) |
| Data'n ymwneud â deilliannau tymor hwy (cymdeithasol). | Nodau Llesiant Cenedlaethol<br>*Cymraeg 2050* nod | **I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant Cenedlaethol?**<br>**I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at gyflawni nod *Cymraeg 2050* o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg?** | Cyfyngedig | Ie (Gweler Astudiaethau 2, 3 yn Adran 5) |

# 5. Blaenoriaethau a argymhellir ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol

5.1 Mae’r adran hon yn amlinellu’r blaenoriaethau ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol ar gyfer y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu.

## Egwyddorion ar gyfer rhaglen ymchwil a gwerthuso

5.2 Dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso fod yn seiliedig ar set o egwyddorion i arwain y gweithgaredd ymchwil. Cynlluniodd y tîm ymchwil set o egwyddorion sy’n adlewyrchu’r theori newid yn fanwl ac sy'n cyd-fynd â'i natur, fel y nodir yn Adran 3. Maent yn adlewyrchu rhesymeg sylfaenol theori'r rhaglen, gan ddarparu cyswllt â'r rhaglen ymchwil a gwerthuso sydd ei angen i ddeall y broses ddiwygio a'i deilliannau. Mae'r egwyddorion a nodir isod yn berthnasol i'r rhaglen gyfan ac mae iddynt oblygiadau hefyd ar gyfer astudiaethau a gweithgareddau gwerthuso unigol. Noda'r egwyddorion arfaethedig y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso:

- archwilio a yw’r weledigaeth a’r gofynion a nodir yn fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu drwy weithredoedd ysgolion a’r system addysg ehangach
- sicrhau bod dysgwyr, a dealltwriaeh o gynnydd dysgwyr, wrth ei gwraidd
- canolbwyntio ar weithgareddau, deilliannau a'r berthynas rhyngddynt
- edrych ar y system gyfan a chanolbwyntio ar ddeall newid/gwella system
- cymryd golwg hirdymor, gan gynnwys dyluniadau ymchwil hydredol ochr yn ochr â methodolegau eraill
- cymryd golwg eang – gan ymgorffori gwaith ymchwil manwl i agweddau newydd ar y broses ddiwygio ochr yn ochr â heriau (traddodiadol) mwy sefydledig
- llywio dysgu ar draws y system addysg yn barhaus – a chynnwys gweithgarwch wedi’i gynllunio a gweithgarwch ymatebol
- cydnabod y cyd-destunau ieithyddol amrywiol ar draws y system ac adlewyrchu ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gefnogi datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr

- meithrin ymddiriedaeth yn y broses werthuso – ymhlith y rhai sy’n cyfrannu ati ac ymhlith cynulleidfaoedd yr ymchwil
- defnyddio effeithlonrwydd a manteisio ar arbenigedd presennol i gefnogi'r broses werthuso.

5.3 I ddangos y berthynas rhwng yr egwyddorion uchod a natur y theori newid rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau canlynol.


- Gan fod y theori newid yn cymryd golwg hirdymor, gan ymdrin â deilliannau y byddai disgwyl yn rhesymol iddynt ddigwydd yn gymharol fuan, a hefyd deilliannau a fydd yn cymryd blynyddoedd lawer, ac efallai ddegawdau i’w gwireddu’n llawn, mae’r rhaglen ymchwil arfaethedig yn cynnwys astudiaethau lluosog sy’n seiliedig ar astudiaeth hydredol, neu batrymau trawstoriadol ailadroddus.
- Oherwydd bod y theori newid yn pwysleisio nad dim ond athrawon ac eraill sy’n gweithio mewn ysgolion sy’n gyfrifol am y Cwricwlwm, mae’r samplau yn y rhaglen ymchwil arfaethedig yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys athrawon ac arweinwyr, ond hefyd y rheini sy'n gweithio yn y maes AGA, y maes dysgu proffesiynol i athrawon ac arweinwyr, ar lefel polisi, rhieni/gofalwyr ac, yn bwysicach, y dysgwyr eu hunain.
- Gan fod y theori newid yn amlygu deilliannau a ragwelir o weithgareddau amrywiol, mae'r rhaglen ymchwil arfaethedig yn cynnwys mathau o astudiaethau sy'n addas i'w dadansoddi sy'n archwilio'r perthnasoedd rhwng newidynnau a sut y gallai unrhyw un neu fwy o elfennau'r theori newid achosi newid i elfen arall.

### Gweithgaredd ymchwil a gwerthuso arfaethedig

5.4 Yn seiliedig ar yr ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r ymchwil desg a gynhaliwyd fel rhan o’r gwaith o ddatblygu’r ymarfer mapio data a theori'r rhaglen, argymhellir rhaglen o weithgarwch ymchwil a gwerthuso isod i’w hystyried. Cynigir naw astudiaeth, rhai ohonynt yn pwysleisio golwg eang a hirdymor ar ymchwil i lwyddiant diwygio’r cwricwlwm, a sawl un sy’n cydnabod pwysigrwydd ymchwiliad manwl o agweddau mwy penodol ar y gwaith.  Wrth i wybodaeth yn deillio o'r astudiaethau arfaethedig

gael ei datgelu, dylid adolygu'r rhaglen o weithgareddau ymchwil a bydd yn esblygu mewn ymateb i hynny. Gyda'i gilydd, mae'r set o weithgareddau ymchwil yn ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen ymchwil fynd i'r afael â'r egwyddorion a amlinellir uchod.

**Ffigur 5. Crynodeb o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso**




5.5 Mae angen sicrhau, ar gyfer pob astudiaeth a gynhelir fel rhan o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso, fod ystyriaeth gyffredinol yn cael ei rhoi i gwestiynau penodol yn ymwneud â'r Gymraeg. Dylid adlewyrchu hyn mewn manylebau manylach ar gyfer astudiaethau unigol, gan sicrhau bod ymchwil yn archwilio effaith y diwygiadau i'r

cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar addysg cyfrwng Cymraeg, gan gydnabod y sbectrwm o ddarpariaeth iaith sy'n bodoli ledled Cymru.

5.6 Yn ogystal â hynny, bydd angen i ddyluniad astudiaethau ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol sicrhau bod effaith y diwygiadau ar ddysgwyr difreintiedig yn cael ei blaenoriaethu a'i deall. Dylid ystyried hyn yn ofalus fel rhan o strategaethau samplu yn ystod cyfnod dylunio'r astudiaethau.

5.7 Isod, rydym yn cyflwyno gwybodaeth am bob un o'r naw astudiaeth a nodir fel tabl cryno ynghyd â nodyn esboniadol. Yng ngoleuni maint a chwmpas yr astudiaethau a argymhellir, mae'n bwysig ystyried sut y maent yn berthnasol i weithgarwch ymchwil arall sydd wedi'i gynllunio ac sy'n dod i'r amlwg ar draws y system ehangach a sut y maent yn ategu'r gweithgarwch hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil a gwerthuso a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, gweithgareddau ymchwil partneriaid haen ganol a ffynonellau allanol eraill o gyllid ymchwil. Mae potensial i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â phartneriaid addysg uwch, Estyn ac asiantaethau eraill ar rai o'r meysydd ymchwil a argymhellir. Mae'r tîm ymchwil yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen ymchwil mor uchelgeisiol ac yn argymell y dylid ystyried ystod eang o lwybrau posibl i gyllido neu gomisiynu gweithgaredd. Gallai hyn olygu gweithio ar draws gwahanol adrannau i gyfuno adnoddau ymchwil a nodi cyfleoedd i sicrhau cyllid ymchwil gan sefydliadau ledled y DU ac yn rhyngwladol.

5.8 Mae pennu dulliau samplu ar gyfer yr astudiaethau mawr (yn enwedig astudiaethau 1 i 3) yn gymhleth. Bydd angen cam dylunio manwl i sicrhau bod y dulliau samplu a ddefnyddir yn briodol er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil a gwerthuso y cytunwyd arnynt ar gyfer pob astudiaeth, gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i is-grwpiau penodol. Mae'r angen i ddeall cynnydd dysgwyr ac effeithiau'r Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas ag ystod o nodweddion dysgwyr (e.e. fesul rhanbarth, yn ôl rhyw, yn ôl y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn ôl iaith y dysgu) yn cyflwyno cymhlethdodau pellach: bydd angen samplau mwy i greu amcangyfrifon cywir ar lefel is-grwpiau. Dim ond amcangyfrif o werth y gall sampl ei roi (yn wahanol i ddull cyfrifiad) sy'n codi cwestiynau pwysig, gan gynnwys: Faint o ansicrwydd sy'n dderbyniol mewn perthynas â'r canfyddiadau? Sut y gellir monitro newidiadau mewn canfyddiadau drwy ddulliau samplu dros amser? Mae'r rhain yn gwestiynau allweddol i'w harchwilio'n fanwl fel rhan o gam dylunio.

5.9 Ar bwynt cysylltiedig, mae sawl cyfeiriad at y potensial i gysylltu data a gasglwyd fel rhan o astudiaeth benodol â data a gasglwyd fel rhan o agweddau eraill ar y rhaglen ymchwil a gwerthuso. Manteision cynllunio ar gyfer cysylltu data o'r fath yw y gall:

- arwain at arbedion effeithlonrwydd, gan osgoi casglu data dro ar ôl tro ar draws astudiaethau amryfal
- cynnig dealltwriaeth o'r amodau a'r ffactorau amgylcheddol sy'n chwarae eu rhan yn y broses o gefnogi deilliannau i ddysgwyr, ymarferwyr ac ysgolion.

5.10 Mae cymhlethdodau a heriau ynghlwm wrth gysylltu data o'r fath gan gynnwys sut i drin gwybodaeth bersonol adnabyddadwy mewn ffyrdd sy'n caniatáu cysylltu data, ond sy'n cadw hunaniaeth unigolion yn gyfrinachol.

5.11 Gyda'i gilydd, mae'r naw astudiaeth unigol a nodir isod yn adlewyrchu'r angen i raglen ymchwil a gwerthuso 'gwmpasu' y theori newid gyfan. Serch hynny, rydym yn cydnabod bod potensial i'r astudiaethau gael eu cyflunio'n wahanol, a fyddai'n effeithio ar ddulliau samplu a dylunio'r astudiaethau.

5.12 Bydd rhoi mwy o ymreolaeth i ysgolion ddylunio cwricwla sy'n ymateb i anghenion, diddordebau a dyheadau eu dysgwyr yn cynhyrchu, yn fwriadol, ystod o ymatebion i fframwaith cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn bwysig i'r system ddeall natur yr amrywiant hwnnw a'r cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu cyflwyno. Mae nifer o astudiaethau mewn sefyllfa arbennig o dda i ymchwilio i ddyluniad cwricwla ysgol – yr astudiaethau achos (astudiaethau 6 a 7) a phrosiectau ymholi ymarferwyr (astudiaeth 9) yn arbennig. Bydd y dulliau arfaethedig o ymdrin â'r astudiaethau hyn yn sicrhau y caiff digon o sylw manwl ei roi i'r cyd-destun er mwyn cael darlun o ddyluniad y cwricwlwm mewn ysgolion a lleoliadau penodol. Bydd yr astudiaethau hyn yn caniatáu i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar yr ystod o ddulliau y bydd ysgolion ac ymarferwyr yn eu mabwysiadu, a'r ffactorau sy'n cael eu dylanwadu gan hynny, gael eu hystyried.

5.13 Yn yr un modd, bydd y darlun o brofiad dysgwyr o'r cwricwlwm a fydd yn deillio o'r astudiaeth genedlaethol o garfan (Astudiaeth 3) yn cyffwrdd â dyluniad cwricwla ysgolion, gan gynnwys y blaenoriaethau o safbwynt dysgwyr.

5.14 Gall hefyd fod yn bosibl i'r gwerthusiad ffurfiannol a phroses (Astudiaeth 1) fyfyrio ar ddulliau allweddol o ddylunio'r cwricwlwm ysgol, er mwyn cael darlun mwy cyffredinol o sut y mae ysgolion yn ymateb. Bydd y graddau y mae cwricwla ysgolion yn 'lleol' (wedi'u dylunio ar y cyd â'u dysgwyr a'u cymunedau) ac yn gyson

â disgwyliadau cenedlaethol yn faen prawf pwysig ar gyfer gweithgarwch ymchwil a gwerthuso.

### Astudiaeth 1. Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm

*Trosolwg*

| Teitl yr astudiaeth: | 1. Gwerthusiad Cenedlaethol Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Hydredol<br>Cydberthynol<br>Dulliau cymysg<br>Graddfa fawr |
| Dulliau Casglu Data | Dulliau sy'n addas ar gyfer yr ystod o ffocysau/newidynnau ar draws y theori newid gan gynnwys<br>- arolwg<br>- cyfweliad/grŵp ffocws<br>- dadansoddiad o rwydweithiau cymdeithasol<br>- arsylwi<br>- dulliau sy'n addas ar gyfer cynnwys cyfranogwyr sy'n blant |
| Diben | Monitro a gwerthuso i ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu a'r prosesau sy'n cefnogi ei wireddu. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | Newidynnau a phrosesau sy'n gysylltiedig ag:<br>- **Ymarfer proffesiynol** mewn ysgolion (ymgysylltu, dylunio'r cwricwlwm, ymholiad proffesiynol, addysgeg, asesu, hunanwerthuso/gwelliant parhaus, ymgysylltiad ymarferwyr ag ymchwil addysgol)<br>- **Cyfalaf dynol** (gan gynnwys llesiant; ymrwymiad; ymagweddau; gwybodaeth/dealltwriaeth; hyder; galluoedd; y gallu i ddatrys problemau; effeithiolrwydd o ran arwain y cwricwlwm)<br>- **Cyfalaf cymdeithasol** (gan gynnwys rhwydweithiau, cysylltiadau perthynol; strwythurau cymdeithasol, cydweithio; ymddiriedaeth; asiantaeth gyfunol)<br>- Gweithgareddau i ymarferwyr (AGA, sefydlu/cymorth gyrfa gynnar, dysgu proffesiynol, Arweinyddiaeth o ran dysgu proffesiynol) – eu hansawdd a'u heffaith<br>Effaith **elfennau'r system** sydd wedi eu hanelu at gefnogi gwireddu'r cwricwlwm (safonau proffesiynol, mynediad/defnydd o dystiolaeth, cymwysterau a systemau atebolrwydd) |
| Sampl | Sampl haenedig ar hap o ymarferwyr (athrawon ac arweinwyr)<br>+ samplau cyfatebol a/neu bwrpasol o ddysgwyr, AGA, darparwyr dysgu proffesiynol, rhieni a gofalwyr<br><br>Sampl fawr er mwyn gallu cyffredinoli. |
| Amserlen | Gwaith maes a gweithgareddau adrodd i ddigwydd bob tair blynedd o 2023/24 ymlaen. |
| Cwestiynau | - I ba raddau y mae dyheadau fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn cael eu gwireddu?<br>- Beth yw'r tueddiadau o ran y cynnydd tuag at gyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- I ba raddau y mae'r cyfalaf dynol, y cyfalaf cymdeithasol, a'r amodau mewn lleoliadau sy'n cefnogi ymarfer proffesiynol yn gydnaws â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- I ba raddau y mae gweithgarwch ar draws y system yn cefnogi datblygiad cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol ac amodau mewn lleoliadau mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru dros amser?<br>- I ba raddau y mae gwireddu'r cwricwlwm yn amrywio ar gyfer ysgolion, ymarferwyr a myfyrwyr o wahanol fathau a pham?<br>- Sut y mae gwaith y rhai ar draws y system addysg yn cefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei wireddu? |

| Teitl yr astudiaeth: | 1. **Gwerthusiad Cenedlaethol Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm** |
|---|---|
| Cwestiwn anffurfiol | *A yw'r broses gyfan o ddiwygio'r cwricwlwm yn gweithio fel y dymunwn ac fel yr oeddem yn ei ddisgwyl?* |

*Y sail resymegol*

5.15 Mae diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru yn gofyn am ddull newydd o ddylunio a gweithredu'r cwricwlwm. Bydd deall pa mor effeithiol y mae lleoliadau a phartneriaid eraill sy'n rhan o'r system yn ymdrin â newid ac yn addasu iddo dros amser yn hollbwysig. Un o nodweddion diffiniol allweddol fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yw'r hyblygrwydd a'r annibyniaeth a roddir i leoliadau i ddylunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu cyd-destun ac anghenion eu dysgwyr. Bydd hyn yn anochel yn arwain at amrywiadau yn y modd y mae lleoliadau'n datblygu ac yn gwireddu'r cwricwlwm newydd mewn ymateb i ganllawiau cenedlaethol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r system ehangach ailystyried y cymorth a ddarperir i leoliadau ac ymarferwyr. Mae angen deall o gyfnod cynnar sut y mae'r broses o gyd-greu'r cwricwlwm yn cael ei chyflawni mewn gwahanol gyd-destunau ac mewn gwahanol fathau o leoliadau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu'r bwriadau a'r gofynion a nodir mewn canllawiau cenedlaethol. Yn ogystal â chael dealltwriaeth o brosesau dylunio'r cwricwlwm, mae gwerthusiad ffurfiannol a phroses[11] yn rhoi cyfle i archwilio canfyddiadau ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a chymunedau o'r trefniadau newydd o ran y cwricwlwm a'u cyfraniad atynt: e.e. a ydynt yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a'u hysgogi gan y broses?

5.16 Ochr yn ochr ag agweddau hyblyg ar y Cwricwlwm i Gymru, mae'r fframwaith yn nodi disgwyliadau cenedlaethol clir a hawl i ddysgwyr - dylai'r rhain hefyd gael eu gwerthuso. Mae ymchwil a gwerthuso hefyd yn angenrheidiol i ddysgu sut y mae'r system ehangach yn ymateb i'r diwygiadau a sut y mae'r rhai mewn rolau penodol yn cefnogi eraill i chwarae eu rhan - mae'r cymorth a ddarperir gan bartneriaid haen ganol yn arbennig o bwysig. Byddai **Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm** yn darparu mecanwaith i sicrhau y gellir bwydo'r hyn a

[11] Mae gwerthusiad ffurfiannol neu broses fel arfer yn ymchwilio i *sut, pam ac o dan ba amodau* y mae polisi neu ymyriad yn gweithio, neu beidio.

ddysgir yn ôl i benderfyniadau a chanllawiau polisi, gan adeiladu ar ddata a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes lle y bo'n briodol (fel y nodir yn adran 4 ac Atodiad B).

5.17 Byddai hon yn astudiaeth hydredol ar raddfa fawr a allai gychwyn yn 2023/24 a chael ei gweinyddu bob tair blynedd (gyda chylchoedd ymchwil olynol yn 2026/27, 2029/30 a 2032/33). Gallai deilliannau o bob cylch lywio gwaith ymchwil manylach ar bynciau penodol fel rhan o ymchwil yn seiliedig ar astudiaethau achos neu astudiaethau ymyrraeth, a dylent hefyd fod yn sail i ymarfer mewn modd mor amserol â phosibl.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.18 Dylai'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm fabwysiadu dulliau cymysg, hydredol gan gynnwys dulliau meintiol ac ansoddol. Dylai fynd i'r afael ag ystod eang o elfennau cwricwlaidd a chynnwys sampl gynrychioliadol o ymarferwyr (athrawon ac arweinwyr) yn ogystal â sampl o AGA a darparwyr dysgu proffesiynol. Gallai'r astudiaeth hefyd o bosibl gasglu data gan sampl o ddysgwyr, rhieni a gofalwyr er, fel y nodir yn Adran 5.9 uchod, gallai cysylltu data o astudiaethau gwahanol greu arbedion effeithlonrwydd drwy osgoi ailadrodd casglu data ar draws astudiaethau lluosog.

5.19 Cynigir y dylid cynnal yr ymchwil hwn bob tair blynedd fel rhan o raglen ymchwil a gwerthuso ehangach. Dylid mabwysiadu dull hydredol, gyda'r potensial ar gyfer sampl drawstoriadol ychwanegol ym mhob ton o'r astudiaeth er mwyn cael dealltwriaeth o grwpiau penodol o randdeiliaid â budd. Byddai dull hydredol yn galluogi'r astudiaeth i olrhain taith y cwricwlwm dros amser.

5.20 Mae'n bosibl y gellid cysylltu data o'r Astudiaeth werthuso 1 arfaethedig (y Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm) â data o astudiaethau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen ymchwil. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai data o'r Astudiaeth werthuso 1 arfaethedig gael eu cysylltu â data dysgwyr Astudiaeth wethuso 3 arfaethedig (Astudiaeth Genedlaethol o Garfan) a allai gyfyngu ar y graddau y byddai angen data dysgwyr fel rhan o Astudiaeth 1.

5.21 Dylai arolygon gynnwys cwestiynau wedi'u strwythuro o amgylch y pum dimensiwn paratoi a ddefnyddiwyd yn *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad terfynol* (Llywodraeth Cymru, 2022a) i alluogi rhywfaint o

gymariaethau â’r ymchwil blaenorol hwn.[12] Dylai sampl yr arolwg alluogi dadansoddiad is-grŵp yn ôl y math o leoliad, sector, cyfrwng iaith a rhanbarth. O ystyried dyheadau unigryw a blaengar y Cwricwlwm i Gymru, dylai’r astudiaeth hon gynnwys dilysu mesurau sy’n cyd-fynd â’r dyheadau hynny lle nad oes mesurau presennol ar gael (er enghraifft mesurau sy’n ymwneud â dyheadau'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr sy’n ‘foesegol’ neu’n ‘fentrus’ neu'n 'uchelgeisiol').

5.22 Dylid defnyddio dulliau ansoddol fel rhan o'r astudiaeth hon, gan gynnwys cyfweliadau, grwpiau ffocws ac arsylwadau, gyda samplau pwrpasol. Yn ogystal, dylid defnyddio dulliau dadansoddi rhwydweithiau cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth o'r strwythurau cymdeithasol sy'n sail i'r diwygiadau, ac i archwilio a yw'r strwythurau perthynol sy'n hanfodol i ymdrechion diwygio llwyddiannus yn gweithio, a sut. Mae hyn yn bwysig o ystyried rôl strwythurau cymdeithasol anffurfiol wrth hwyluso (neu lesteirio) yr ymdrechion i ddiwygio.

5.23 Os cynhwysir dysgwyr yn yr astudiaeth hon, dylid mabwysiadu dulliau cynhwysol a phriodol i gael darlun o'u profiadau o wireddu'r cwricwlwm.

[12] Y rhain oedd *gwybodaeth, dealltwriaeth, ymrwymiad, paratoi* a *gallu* ac roeddent yn seiliedig ar addasiad o fodel a ddefnyddiwyd mewn astudiaeth flaenorol. Gweler Sinnema, C. ac L. Stoll (2020), Learning for and realising curriculum aspirations through schools as learning organisations, European Journal of Education 55, tud. 9-23.

### Astudiaeth 2. Astudiaeth Fonitro Genedlaethol: Cyrhaeddiad a Chynnydd

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **2. Astudiaeth Fonitro Genedlaethol: Cyrhaeddiad a Chynnydd** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Trawstoriadol ailadroddus<br><br>Graddfa fawr. Byddai'r astudiaeth hon yn rhaglen helaeth o weithgarwch a fyddai'n cymryd amser i'w dylunio. |
| Dulliau Casglu Data | Data asesu yn deillio o arferion asesu o ansawdd uchel gan gynnwys sesiynau un-i-un, grŵp/cydweithredol, annibynnol, wedi'u gweinyddu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb a'u marcio gan addysgwyr hyfforddedig. |
| Diben | Darparu cipluniau cenedlaethol o gyrhaeddiad dysgwyr ar draws yr holl Feysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd) ac elfennau eraill y Cwricwlwm i Gymru er mwyn pennu blaenoriaethau'r system ac edrych ar wella'r system yn hytrach nag asesiadau lle mae llawer yn y fantol i'r ysgolion sy'n cymryd rhan.<br><br>Nodi tueddiadau mewn perfformiad addysgol ar lefel genedlaethol. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | Cyrhaeddiad dysgwyr:<br>- Y pedwar diben<br>- 'Yr hyn sy'n bwysig' ym mhob Maes<br>- Dylai hefyd integreiddio'r holl sgiliau trawsgwricwlaidd eraill, elfennau/themâu trawsbynciol a'r Gymraeg.<br>- Y Gymraeg<br>- Agweddau<br>Athrawon:<br>- cyd-destun/galluoedd<br>- agweddau<br>- ymarfer |
| Sampl | Samplu dau gam: Sampl haenog o leoliadau a sampl ar hap o fyfyrwyr o bob lleoliad i ffurfio sampl cenedlaethol cynrychioliadol ac i alluogi dadansoddiad is-grŵp |
| Amserlen | Blynyddol o 2024/25 ymlaen. |
| Cwestiynau | - I ba raddau y mae dysgwyr yn cyflawni yn ôl y disgwyl mewn perthynas â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- I ba raddau y mae is-grwpiau o ddiddordeb yn cyflawni yn ôl y disgwyl?<br>- A yw gwahaniaethau mewn sgoriau cyfartalog ar gyfnodau pontio allweddol yn adlewyrchu'r cynnydd disgwyliedig tuag at gyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru dros amser? |
| Cwestiwn anffurfiol | A yw ein plant ledled y wlad yn gwneud yn dda (yn gynyddol)? |

*Y sail resymegol*

5.24 Mae'r gwaith mapio data wedi nodi diffyg data ar gyfer asesu i ba raddau y *mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd* ar lefel genedlaethol. Mae dod â chasgliadau data cenedlaethol asesiadau athrawon i ben ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 a 3 wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno yn golygu na fydd data

cenedlaethol a oedd ar gael yn flaenorol yn cael eu cyhoeddi mwyach mewn perthynas â chyrhaeddiad dysgwyr cyn-16. Ymhellach, mae gwahaniaeth yn nulliau'r lleoliadau o asesu cynnydd dysgwyr yn debygol wrth i leoliadau ddatblygu eu dulliau asesu eu hunain yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae hon yn rhan bwysig o'r egwyddor sybsidiaredd sy'n sail i'r diwygiadau, ond mae hefyd yn golygu nad yw'n debygol y bydd data lleol yn gallu cael eu cydgrynhoi ar lefel genedlaethol i roi darlun o gyrhaeddiad a chynnydd cenedlaethol.

5.25 Mae *codi safonau ar draws y system* yn un o'r deilliannau allweddol yn y theori newid ac mae diffyg data cenedlaethol wedi'i nodi mewn perthynas ag elfennau o'r pedwar diben sy'n ymwneud â sgiliau a themâu trawsbynciol. Mae hyn yn awgrymu bod angen dull cenedlaethol, yn seiliedig ar sampl, o asesu cynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r elfennau a themâu trawsgwricwlaidd. Byddai hyn yn darparu data dienw ar lefel genedlaethol ar gynnydd dysgwyr mewn perthynas â'r elfennau hyn o'r cwricwlwm. Ni fyddai hyn yn golygu profion safonedig i bob dysgwr.

5.26 Yn ogystal â darparu data ar gyfer monitro cyrhaeddiad a gwelliannau mewn cyrhaeddiad ar lefel genedlaethol, mae'n bosibl y gallai data dienw o'r astudiaeth hon fod yn gysylltiedig â data ar lefel lleoliad ar a) y dulliau a ddefnyddir ac addysgu'r cwricwlwm, ac i ddysgu ac asesu mewn ysgolion; b) cyfalaf dynol a chymdeithasol; c) arferion athrawon; a ch) profiadau dysgwyr o'r cwricwlwm (Gwerthuso Ffurfiannol a Phroses, Astudiaeth 1 uchod). Fel y nodwyd yn Adran 5.9, mae heriau'n gysylltiedig â hyn, ond gallai roi darlun o'r berthynas rhwng ysgolion ac arferion ymarferwyr, a chyrhaeddiad dysgwyr. Byddai tystiolaeth o'r math hwn yn ddefnyddiol i lywio gwelliannau ar draws y system i gefnogi diwygio'r cwricwlwm. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar o leiaf rai ysgolion a lleoliadau yn cael eu cynnwys yn samplau'r ddwy astudiaeth - a byddai angen ystyried cymhlethdodau hyn yn ofalus.

5.27 Byddai'r astudiaeth hon yn cyd-fynd ag un o'r argymhellion a wnaed yn Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015) a nododd: "Ni ddylai Llywodraeth Cymru bellach gasglu gwybodaeth am berfformiad plant a phobl ifanc fesul ysgol ond dylai fonitro perfformiad ar agweddau allweddol ar y cwricwlwm drwy brofion samplu blynyddol."

5.28 Gallai data o'r astudiaeth hon hefyd lywio a chyfoethogi unrhyw ddadansoddiad o ddata cyrhaeddiad yn y dyfodol yn seiliedig ar ganlyniadau cymwysterau newydd a fydd yn cael eu haddysgu o 2025 ymlaen. Bydd data sy'n seiliedig ar ganlyniadau

cymwysterau ar gael ar lefel genedlaethol yn y dyfodol a bydd yn darparu mesur o newidiadau yng nghyrhaeddiad dysgwyr 16 oed dros amser, yn ogystal â'r newidiadau mewn tegwch yn y system addysg (e.e. cyrhaeddiad y rhai o grwpiau dan anfantais, cyrhaeddiad yn ôl rhyw). Gellid cymharu canfyddiadau sy'n seiliedig ar ddadansoddiad is-grŵp o'r astudiaeth hon â dadansoddiad is-grŵp o ddata cymwysterau cenedlaethol i archwilio unrhyw nodweddion cyffredin a gwahaniaethau sy'n dod i'r amlwg.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.29 Byddai datblygu Astudiaeth Fonitro Genedlaethol (Astudiaeth 2) yn gofyn am gyfnod dylunio a chynllunio helaeth cyn gynted â phosibl. Ffocws y cyfnod hwn fyddai datblygu methodoleg ar gyfer sampl dreigl genedlaethol reolaidd o gyrhaeddiad / dilyniant dysgwyr o fewn pob Maes Dysgu a Phrofiad, gan integreiddio'r holl sgiliau, elfennau a themâu trawsgwricwlaidd eraill. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o ddulliau cyfannol o asesu, gan ddefnyddio arfer gorau rhyngwladol.

5.30 Ar gyfer yr astudiaeth fawr hon, byddai angen cynllunio systematig a byddai angen cytuno ar nifer o ystyriaethau, gan gynnwys:

- Y deilliannau dysgu penodol i'w defnyddio fel rhan o'r astudiaeth, gan ddefnyddio deilliannau'r gwaith ar ddatblygu dull cenedlaethol o fesur cynnydd a chyrhaeddiad.
- Y dulliau i'w defnyddio (a allai gynnwys cyfweliadau un-i-un, gwaith tîm, tasgau grŵp a thasgau annibynnol, wedi'u goruchwylio a'u harsylwi gan ymarferwyr hyfforddedig).
- Y dulliau samplu a fabwysiadwyd.
- Amseriad casglu data a'r amser cwblhau sydd ei angen ar ddysgwyr sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth.
- Datblygu a phrofi gweithdrefnau ar gyfer pob cam o weithgarwch yr Astudiaeth Fonitro Genedlaethol (Astudiaeth 2) gan gynnwys hyfforddi'r rhai sy'n gweinyddu ac yn marcio asesiadau.
- O ystyried pwysigrwydd cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr o fewn y theori newid, a'r cyfnod dylunio hir a fydd yn angenrheidiol i roi'r rhaglen fonitro hon

ar waith, efallai y byddai’n fuddiol ymchwilio i sut y gellid defnyddio data presennol a gofnodir yn rheolaidd gan ysgolion i helpu i ddarparu darlun cenedlaethol o gyrhaeddiad yn y tymor byr.

5.31 Byddai'r astudiaeth yn defnyddio cynllun trawstoriadol ailadroddus ac yn cynnwys hapsampl haenedig o leoliadau a hapsampl o fyfyrwyr o bob lleoliad; sampl digon mawr i alluogi dadansoddiad o is-grwpiau. Byddai’r astudiaeth yn asesu pob Maes Dysgu a Phrofiad yn ei dro (er enghraifft, asesu dau Faes y flwyddyn). Dylai hefyd integreiddio'r holl sgiliau trawsgwricwlaidd eraill, elfennau/themâu trawsbynciol a'r Gymraeg. Byddai'r astudiaeth yn gwbl ar wahân i drefniadau arolygu ac atebolrwydd a byddai angen rhoi sicrwydd i bob ysgol a lleoliad sy'n cymryd rhan na fyddai'r astudiaeth yn ddull o gymharu safonau rhwng ysgolion.

**Astudiaeth 3. Astudiaeth Genedlaethol o Garfan: 'Tyfu i Fyny gyda'r Cwricwlwm i Gymru'**

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **3. Astudiaeth Genedlaethol o Garfan: 'Tyfu i Fyny gyda'r Cwricwlwm i Gymru'** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Hydredol<br>Cydberthynol<br>Dulliau cymysg<br><br>Graddfa fawr. |
| Dulliau Casglu Data | - Arolwg<br>- Cyfweliadau<br>- Dulliau priodol a chynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc. |
| Diben | Creu darlun o sut brofiad yw dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru, a sut y mae cynnydd yn y cwricwlwm yn digwydd, drwy ddilyn carfan sengl o ddysgwyr (a'u rhieni/gofalwyr) yn ystod eu profiad ysgol/cwricwlwm cyfan. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | - Profiad **dysgwyr** o'r cwricwlwm (addysgeg; asesu; cynnwys y cwricwlwm; yr ysgol yn fwy cyffredinol)<br>- Adroddiadau/canfyddiadau dysgwyr a rhieni o **gynnydd** dysgwyr mewn perthynas â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru (yn benodol, elfennau/themâu trawsbynciol, a'r pedwar diben (iach a hyderus, moesegol a gwybodus, mentrus a chreadigol, uchelgeisiol a galluog<br>- Adroddiadau dysgwyr, a rhieni/gofalwyr, am y berthynas rhwng profiad a chynnydd dysgwyr |
| Sampl | Sampl gynrychioliadol o ddysgwyr wedi'u recriwtio cyn iddynt ddechrau'r ysgol ac, o bosibl, sampl o ddysgwyr a fydd ym Mlwyddyn 7 yn ystod 2022/23. Byddai ymarferwyr yn yr ysgolion hyn a'u rhieni/gofalwyr hefyd yn rhan o'r astudiaeth. |
| Amserlen | Gweithgaredd dylunio i ddechrau o 2022, a chasglu data bob blwyddyn neu bob dwy flynedd wedi hynny. |
| Cwestiynau | I ddysgwyr:<br>- Sut brofiad y mae plant yng Nghymru yn ei gael o'r cwricwlwm ar adegau gwahanol yn eu haddysg?<br>- Beth yw eu profiad o'r cwricwlwm o ran cefnogi plant i wneud cynnydd tuag at ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- Sut y mae dysgwyr yn deall eu cynnydd eu hunain a sut y mae hyn yn dylanwadu ar eu hymagwedd tuag at eu dysgu eu hunain?<br>- Sut y mae taflwybrau cynnydd a deilliannau yn cael eu cysylltu â newidynnau ar lefel dysgwr ac ar lefel ysgol?<br>- Pa ffactorau sy'n gwneud y gorau o brofiad y cwricwlwm a chynnydd i ddysgwyr? (e.e. arferion addysgu)<br>- Sut y mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol a nod Cymraeg 2050 o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg?<br><br>Ar gyfer rhieni a gofalwyr<br>- Sut y mae rhieni a gofalwyr yn cael eu galluogi/cefnogi i ddeall cynnydd eu plentyn gyda dysgu?<br>- Pa rôl/rolau y mae rhieni a gofalwyr yn ei chwarae wrth gefnogi dysgu eu plentyn? |
| Cwestiwn anffurfiol | Sut olwg sydd ar daith y cwricwlwm i ddysgwyr sy'n 'derbyn' y Cwricwlwm i Gymru o flwyddyn i flwyddyn? |

*Y sail resymegol*

5.32 Astudiaeth hydredol ar raddfa fawr yw hon er mwyn creu darlun o brofiad dysgwyr o'r Cwricwlwm i Gymru dros amser. Mae'r ymdrechion diwygio yng Nghymru yn gyfle unigryw i gydnabod ac ymateb i uchelgeisiau hirdymor diwygio'r cwricwlwm. Mae'r astudiaeth hon yn bwysig o ran cydnabod effaith gronnus amrywiaeth eang o brofiadau, gweithgareddau a deilliannau - mae'n cydnabod y bydd dyheadau hirdymor y cwricwlwm yn esblygu dros amser, mewn ffordd gymhleth, ac o ganlyniad i grynhoad o brofiadau. Mae'n hollbwysig deall sut y mae hynny'n gweithio, ac mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn gyfle unigryw i sefydlu a chynnal astudiaeth o'r fath. Y sail resymegol dros yr astudiaeth hon yw'r angen i gael darlun dros gyfnod parhaus ac mewn ffordd systematig o'r hyn y mae'r newid i gwricwlwm sy'n seiliedig ar ddibenion yn ei olygu i brofiadau a deilliannau dysgwyr, i ymarfer addysgu ac i ymgysylltiad a dealltwriaeth rhieni a gofalwyr. I ddysgwyr, byddai hyn yn canolbwyntio ar eu profiadau o'r cwricwlwm newydd a'r cynnydd a wnaed tuag at wireddu'r pedwar diben, wedi'u fframio gan y deilliannau disgwyliedig a ddisgrifir yn y theori newid.

5.33 Byddai **Astudiaeth Genedlaethol o Garfan** (Astudiaeth 3) hefyd yn rhoi dealltwriaeth o'r newidiadau mewn addysgeg ac ymholiad proffesiynol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac, yn bwysicach, effeithiau'r newidiadau hyn ar wybodaeth, dealltwriaeth, hyder a galluoedd proffesiynol athrawon. Yn olaf, byddai'r astudiaeth hon yn rhoi cyfle i archwilio newidiadau mewn perthynas ag ymgysylltiad rhieni a gofalwyr ag addysg eu plentyn a'u dealltwriaeth o gynnydd. Byddai'r Astudiaeth Genedlaethol o Garfan (Astudiaeth 3) yn astudiaeth hydredol, wedi'i seilio ar ymchwil flynyddol (neu o bosibl bob dwy flynedd) gyda thrawstoriad o ddysgwyr, ymarferwyr a rhieni/gofalwyr. Gellid cysylltu data o'r astudiaeth hon yn ddienw â data ar lefel lleoliad sy'n deillio o'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm, a amlinellir uchod.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.34 O ran yr **Astudiaeth Genedlaethol o Garfan** (Astudiaeth 3)**,** bydd angen cyfnod dylunio a chynllunio cynhwysfawr sy'n debygol o fod angen cryn dipyn o adnoddau o 2022/23 ymlaen. Bydd y cam hwn yn cynnwys datblygu methodoleg briodol i alluogi archwiliad o'r cwestiynau ymchwil a amlinellir uchod. Ymchwil hydredol fydd hwn, gan ddefnyddio dulliau arolygu yn bennaf gyda'r posibilrwydd o ymchwil ansoddol dilynol gydag is-samplau. Dylai'r astudiaeth gynnwys samplau

cynrychioliadol o ddysgwyr, ymarferwyr ar lefelau gwahanol o gyfrifoldeb mewn ysgolion, a rhieni/gofalwyr.

5.35 Y **cyfle yma yw creu gwaddol; gweithgaredd ymchwil sy'n mynd y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol, sy'n cymryd golwg hirdymor, ac yn breinio profiad cyfan dysgwyr o'r Cwricwlwm i Gymru fel rhywbeth sy'n werth ei ddeall er mwyn gwella'r cwricwlwm ar gyfer cenedlaethau i ddod.**

**Astudiaeth 4. Astudiaeth Genedlaethol o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu**

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **4. Astudiaeth Genedlaethol o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Trawstoriadol, neu drawstoriadol ailadroddus<br>Dulliau cymysg<br>Graddfa fawr |
| Dulliau Casglu Data | Arolwg<br>Ansoddol |
| Diben | Archwilio'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y system tuag at Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu<br><br>Deall y berthynas rhwng Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a datblygiad/gwelliant y cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol ac ymarfer proffesiynol i gefnogi dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru |
| Ffocysau / Themâu Posibl | - Dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu<br>- Trawsnewidiadau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu[13]<br>- Cyfalaf y cwricwlwm<br>- Datrys problemau'n ymwneud â'r cwricwlwm<br>- Cynnydd o ran gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru |
| Sampl | Sampl haenedig ar hap o leoliadau (e.e. wedi'u haenu yn ôl rhanbarth; math o ysgol; a maint) |
| Amserlen | 2023, 2026, 2029, 2032 |
| Cwestiynau | - I ba raddau y mae nodweddion allweddol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn amlwg ar draws ysgolion yng Nghymru dros amser?<br>- Sut y mae dimensiynau a thrawsnewidiadau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn cefnogi ysgolion yn eu hymdrechion i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- Sut y mae'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i ymarferwyr sy'n cefnogi gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru?<br>- Sut y mae'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn cefnogi dysgu a chydweithio ymhlith ymarferwyr sy'n galluogi'r cwricwlwm i gael ei wireddu'n effeithiol?<br>- Sut y mae gwybodaeth am wireddu'r cwricwlwm yn effeithiol yn cael ei rhannu mewn lleoliadau drwy'r model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu?<br>- |
| Cwestiwn anffurfiol | A yw ysgolion mewn sefyllfa dda fel sefydliadau sy'n dysgu i goleddu'r newidiadau a fynnir gan y Cwricwlwm i Gymru? |

*Y sail resymegol*

5.36 Mae'r theori newid yn dangos y bydd datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn chwarae rhan bwysig wrth greu'r amodau angenrheidiol i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yn llwyddiannus.  Mae angen deall sut y mae defnydd ysgolion o'r pecyn

[13] Gweler OECD (2018). Datblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yng Nghymru.

cymorth Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn cyfrannu at y deilliannau cyfalaf dynol a chyfalaf cymdeithasol a nodir yn y theori newid, diwylliant o welliant parhaus ac arfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella. Fel y nodwyd yn adran 4.18 rydym yn cydnabod y bydd data'n cael eu casglu drwy hunanwerthusiad ysgolion o'u defnydd o'r pecyn cymorth Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Fodd bynnag, dylid cynnal gwerthusiad cenedlaethol o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu – yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o ysgolion – i ddarparu asesiad annibynnol o weithrediad ac effeithiolrwydd y model.

5.37 Dylid dylunio hon fel astudiaeth hydredol (neu drawstoriadol ailadroddus) i archwilio cynnydd ar draws y system tuag at Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Awgrymir y gellid cynnal y gwerthusiad ar sail cylchoedd tair blynedd yn 2023, 2026, 2029 a 2032.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.38 Fe wnaethom awgrymu y dylid defnyddio dull ymchwil trawstoriadol hydredol neu ailadroddus, gan ddefnyddio pecyn cymorth presennol Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu i gefnogi’r gwerthusiad.

## Astudiaeth 5. Adolygiad o Gydlyniaeth y System

*Trosolwg*

| Teitl yr Astudiaeth | 5. Adolygiad o Gydlyniaeth y System |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Dadansoddiad o ddogfennau/Dadansoddiad beirniadol o bolisïau[14] |
| Dulliau Casglu Data | - Dogfennau<br>- Cyfweliadau |
| Diben | Adolygu i ba raddau, a sut, y mae gweithgareddau ar lefel system yn ffafriol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi; arfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | - AGA; safonau proffesiynol; dysgu proffesiynol (gan gynnwys ar gyfer athrawon ac arweinwyr); cymwysterau; systemau atebolrwydd; ymchwil; etc |
| Sampl | Dogfennau swyddogol yn ymwneud â holl weithgareddau system/elfennau'r theori newid<br>Rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am ddylunio/ysgrifennu/cyfathrebu'r dogfennau |
| Amserlen | Cam 1: 2022/23 Cam 2: yn 2026/27 |
| Cwestiynau | - I ba raddau a sut y mae gweithgareddau ar lefel system yn gydnaws ag arfer proffesiynol o ansawdd uchel sy'n gwella, a gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru ac yn cefnogi hynny?<br>- I ba raddau y ceir dealltwriaeth gyffredin o rolau a chyfrifoldebau gwahanol rannau o'r system wrth gefnogi newid yn y cwricwlwm?<br>- Sut y mae partneriaid o fewn y system yn cydweithio i gefnogi newid yn y cwricwlwm?<br>- Pa mor effeithiol a strategol y mae'r system yn gweithio i gynyddu hyder a galluoedd (ymysg ymarferwyr a phartneriaid) i wireddu dyheadau'r cwricwlwm? |
| Cwestiwn anffurfiol | A yw popeth yr ydym yn ei wneud yn cyd-fynd â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru? |

*Y sail resymegol*

5.39 Mae'r theori newid yn dangos nifer o weithgareddau ac elfennau ar lefel system sy'n hanfodol i gyflawni diwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys dysgu proffesiynol (gan gynnwys ar gyfer arweinwyr); y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu; cymwysterau; systemau atebolrwydd a gwella; a gweithgarwch monitro a gwerthuso. Ar lefel lleoliad, bydd y Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm yn casglu tystiolaeth gan ymarferwyr ac arweinwyr mewn perthynas â sut y maent yn rhyngweithio â'r system ehangach. Fodd bynnag, ar lefel

[14] Math o astudiaeth polisi addysg lle y mae'r ffocws ar ddeall y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol y mae polisi yn gweithredu ynddo, gyda'r potensial i ddylanwadu ar lwyddiant ei weithrediad.

genedlaethol, bydd angen archwiliad mwy strategol o gydlyniaeth y system sy'n canolbwyntio'n fwy ar swyddogaethau, gweithredoedd a barn rhanddeiliaid.

5.40 Mae amseriad yr astudiaeth hon yn bwysig, a chynigir ei symud ymlaen mewn dau gam:

- Byddai Cam 1 yn astudiaeth gynnar o gydlyniaeth y system a allai lywio gwelliannau i systemau sy'n cefnogi ymdrechion i wireddu'r cwricwlwm. Dylai hyn fod yn destun gweithgaredd yn ystod 2022/23.
- Byddai Cam 2 yn archwilio sut y mae’r systemau ehangach wedi addasu i’r diwygiadau, rhyw 3-4 blynedd ar ôl eu gweithredu. Byddai hyn yn galluogi dealltwriaeth o’r gyfatebiaeth a’r rhyngweithio rhwng asiantaethau sy’n darparu arweiniad a chymorth yn ymwneud â’r cwricwlwm, y fframwaith arholiadau, a threfniadau atebolrwydd. Gallai’r ail gam hwn gael ei gwblhau o 2026/27 ymlaen i dynnu ar brofiadau o gymwysterau TGAU newydd, a fydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2025.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.41 Byddai'r astudiaethau hyn yn cael eu cyflwyno drwy gyfuniad o ymchwil desg a chyfweliadau ansoddol gyda chynrychiolwyr sefydliadau rhanddeiliaid sy'n gweithio mewn uwch rolau strategol, rheoli a gweithredol.

**Astudiaeth 6. Ymchwil astudiaethau achos: Ffocws ar elfennau o'r cwricwlwm**

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **6. Astudiaethau Achos: Ffocws ar Elfennau o'r Cwricwlwm** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Astudiaethau achos ansoddol manwl |
| Dulliau Casglu Data | Cyfweliadau<br>Sylwadau<br>Grwpiau Ffocws<br>Dogfennau |
| Diben | Datblygu dealltwriaeth fanwl, amlweddog o sut y mae lleoliadau ac ymarferwyr yn cael eu cefnogi ac yn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru ac effaith yr ymdrechion hynny ar ymarfer proffesiynol a phlant a phobl ifanc.<br><br>Gallent o bosibl adeiladu ar ganfyddiadau astudiaethau eraill (yn enwedig y Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses, Astudiaeth 1), gan archwilio agweddau ar wireddu mewn ffordd benodol, gan ddarparu argymhellion ar ymarfer effeithiol ac anghenion cymorth yn ymwneud ag elfennau penodol o'r cwricwlwm. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | Wedi'u pennu ymlaen llaw - elfennau o'r cwricwlwm:<br>- Meysydd Dysgu a Phrofiad (neu flaenoriaethau cysylltiedig penodol o fewn MDPh penodol)<br>- Sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol: llythrennedd (neu ffocws mwy penodol o'r fframwaith, e.e. 'cyd-drafod' neu 'geirfa bynciol'; rhifedd (neu ffocws mwy penodol o'r fframwaith, e.e. 'rhesymu rhesymegol' neu 'dod i gasgliadau')<br>- themâu trawsgwricwlaidd e.e. addysg perthnasoedd a rhywioldeb; hawliau Dynol; amrywiaeth; gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol<br>Ymatebol: Themâu a nodwyd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm (Astudiaeth 1) a thrwy ddealltwriaeth o ffynonellau eraill (er enghraifft dysgu proffesiynol, addysgeg ac arweinyddiaeth, Estyn, ac astudiaethau eraill). |
| Sampl | Samplu bwriadus o leoliadau, dysgwyr, ymarferwyr, uwch arweinwyr, rhanddeiliaid cefnogol (i'w pennu yn ystod y cyfnod dylunio). |
| Amserlen | O 2024 ymlaen. |
| Cwestiynau | - I'w cynnig gan y rhai a fydd yn arwain y gwaith. |
| Cwestiwn anffurfiol | Sut y mae pobl yn gwneud synnwyr o'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ymateb iddo? Sut y mae'r geiriau yn nogfennau canllaw'r Cwricwlwm i Gymru yn dod yn fyw yn ymarferol? |

*Y sail resymegol*

5.42 Mae astudiaethau 6, 7, 8, 9 yn cynnwys partneriaethau ymchwil-ymarfer;[15] yn hynny o beth, dylent gael eu cynllunio mewn ffyrdd sy'n cydnabod partneriaethau fel dull

[15] Perthnasoedd cydweithredol, hirdymor rhwng ymchwilwyr ac ymarferwyr yw partneriaethau ymchwil-ymarfer, sydd wedi'u cynllunio i wella problemau ymarfer mewn addysg.

pwysig o gynhyrchu gwybodaeth a gwella addysg. Mae partneriaethau ymchwil-ymarfer yn gwerthfawrogi cael dealltwriaeth o'r prosesau, yr arferion, a'r polisïau sy'n gwella addysg i ddysgwyr, addysgwyr, teuluoedd, cymunedau, a sefydliadau lle mae dysgu ac addysgu yn digwydd.

5.43 Cynigir bod rhagor o **ymchwil astudiaethau achos manylach ar elfennau o'r cwricwlwm** yn cael ei gynnwys yn y rhaglen ymchwil a gwerthuso i archwilio pa mor dda y mae lleoliadau yn ogystal â darparwyr dysgu proffesiynol ac AGA yn cefnogi dyheadau cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys:

- Themâu sy’n canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad neu flaenoriaethau cysylltiedig penodol o fewn Meysydd penodol
- Themâu sy'n canolbwyntio ar sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol: llythrennedd (neu ffocws mwy penodol o’r fframwaith, e.e. ‘cyd-drafod’ neu ‘geirfa bynciol’; rhifedd (neu ffocws mwy penodol o’r fframwaith, e.e. ‘rhesymu rhesymegol’ neu ‘dod i gasgliadau’)
- Themâu sy'n canolbwyntio ar themâu trawsbynciol: E.e. addysg perthnasoedd a rhywioldeb; hawliau dynol; amrywiaeth; gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â byd gwaith; cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.44 Cynigir dull astudiaethau achos ansoddol ar gyfer yr agwedd hon ar y rhaglen, gyda dull samplu bwriadus er mwyn canolbwyntio ar leoliadau ac agweddau o ddiddordeb.

5.45 Byddai’r ymchwil astudiaethau achos yn cael ei gynnal mewn sawl ton, a byddai'r don gyntaf yn dilyn cam cyntaf y Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu’r Cwricwlwm (2024 ymlaen).

**Astudiaeth 7. Ymchwil astudiaethau achos: Gweithgareddau'r theori newid/Ffocws ar ddeilliannau**

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **7. Astudiaethau Achos: Ffocws ar Weithgareddau a Deilliannau'r Theori Newid** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Astudiaethau achos ansoddol manwl |
| Dulliau Casglu Data | Cyfweliadau<br>Sylwadau<br>Grwpiau Ffocws<br>Dogfennau |
| Diben | Datblygu dealltwriaeth fanwl, amlochrog o'r gweithgareddau a'r deilliannau sydd wedi'u hanelu at gefnogi'r gwaith o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru a'r berthynas rhyngddynt. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | Wedi'i benderfynu ymlaen llaw: gweithgareddau a deilliannau theori newid dethol<br>Ymatebol: Themâu a nodwyd yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm (Astudiaeth 1).<br>Gallai themâu gynnwys, er enghraifft:<br>- Yr egwyddorion pedagogaidd ar waith.<br>- Dulliau asesu ar gyfer dilyniant dysgwyr.<br>- Dysgu proffesiynol ar waith.<br>- Cwricwla AGA a'r Cwricwlwm i Gymru.<br>- Safonau proffesiynol ar waith, a'r Cwricwlwm i Gymru.<br>- Cydweithio ar ymholiadau ymarferwyr. |
| Sampl | Samplu bwriadus o leoliadau, dysgwyr, ymarferwyr, uwch arweinwyr, rhanddeiliaid cefnogol (i'w pennu yn ystod y cyfnod dylunio). |
| Amserlen | O 2024 ymlaen. |
| Cwestiynau | - I'w benderfynu yn y cyfnod dylunio. |
| Cwestiwn anffurfiol | A yw'r pethau yr oeddem yn meddwl y bydden nhw'n cefnogi'r broses o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio yn y ffyrdd yr oeddem yn eu disgwyl? |

*Y sail resymegol*

5.46 Yn ogystal ag astudiaethau achos yn ymwneud â'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, sgiliau a themâu trawsbynciol (gweler Astudiaeth 4), bydd hefyd angen ymchwil astudiaethau achos i weithgareddau a deilliannau penodol y theori newid a allai ddeillio o'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm (gweler Astudiaeth 1). Dylid cynnal ymchwil ansoddol fanwl hefyd i archwilio'r materion hyn.

5.47 Fel astudiaeth 6, dylai'r astudiaethau achos hyn gynnwys partneriaethau ymchwil-ymarfer.

*Cwestiynau ymchwil lefel uchel*

5.48 Bydd ffocws yr ymchwil astudiaethau achos yn cael ei bennu gan ddeilliannau'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm (Astudiaeth 1), gydag enghreifftiau wedi'u nodi yn y tabl uchod.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.49 Cynigir dull astudiaethau achos ansoddol ar gyfer yr agwedd hon ar y rhaglen, gyda dull samplu bwriadus er mwyn canolbwyntio ar leoliadau ac agweddau o ddiddordeb.

5.50 Byddai’r ymchwil astudiaethau achos yn cael ei gynnal mewn sawl ton, a byddai'r don gyntaf yn dilyn cam cyntaf y Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu’r Cwricwlwm (2024 ymlaen).

## Astudiaeth 8. Astudiaethau ymyrraeth: Ymchwil a Datblygu

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **8. Astudiaethau Ymyrraeth: Ymchwil a Datblygu** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Ymchwil a datblygu<br><br>Ystod o bosibiliadau dylunio:<br>- cyn ac ar ôl<br>- arbrofol<br>- hap-dreial wedi'i reoli<br>- grŵp cymharu<br>- lled-arbrofol<br>- arbrofol achos sengl<br>- dulliau cymysg<br>- astudiaeth achos ansoddol neu ddull cymysg |
| Dulliau Casglu Data | Ystod eang fel y bo'n briodol ar gyfer yr ymyriadau y canolbwyntir arnynt, gan gynnwys, er enghraifft:<br>- Dulliau cymysg<br>- Arolwg<br>- Data Rhwydweithiau Cymdeithasol<br>- Cyfweliadau<br>- Sylwadau<br>- Cysgodi<br>- Grwpiau Ffocws |
| Diben | Darparu ymyriadau o ansawdd uchel, gan ddefnyddio dull ymchwil a datblygu, i feithrin galluoedd a gwella amodau y gwyddys bod angen eu gwella.<br>Dysgu am yr amodau lle y gall ymyriadau fod yn effeithiol ac ar raddfa fawr. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | - Gweithgaredd dysgu proffesiynol<br>- Ymyriadau eraill gyda ffocws a bennir yn flynyddol yn seiliedig ar ymarfer sy'n dod i'r amlwg a chanfyddiadau'r Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm, e.e.:<br>    ○ Datrys problemau'n ymwneud ag Arwain newidiadau i'r cwricwlwm.<br>    ○ Adeiladu rhwydweithiau cryf ar gyfer gwella'r cwricwlwm.<br>    ○ Dulliau partneriaeth o gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm.<br>    ○ Ymholiad ymarferydd trwyadl ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.<br>    ○ Galluoedd addysgu'r cwricwlwm - ffocws ar MDPh.<br>    ○ Addysgu'n seiliedig ar ddisgwyliadau uchel. |
| Sampl | Samplau bwriadus o ddysgwyr, ymarferwyr, uwch arweinwyr, rhanddeiliaid |
| Amserlen | Cyfres o astudiaethau i'w pennu'n flynyddol |
| Cwestiynau | - Beth yw ansawdd y dulliau presennol o ymdrin â [__X__]?<br>- Sut y mae ansawdd [__X__] yn gwella yn dilyn ymyriad?<br>- Beth sy'n esbonio'r gwelliant yn [__X__] yn dilyn ymyriad? |
| Cwestiwn anffurfiol | *Ai nod ein mentrau yw gwella arferion gweithio, a beth allwn ni ei ddysgu ohonynt?* |

*Y sail resymegol*

5.51 Mae'r theori newid ar gyfer gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar ddysgu a gwella; yn hynny o beth mae'n galw am weithgareddau ymchwil a gwerthuso nad ydynt wedi'u cyfyngu i ddisgrifio arfer cyfredol yn unig, ond yn hytrach weithgareddau sy'n cyfrannu at wella'r broses o wireddu'r cwricwlwm. Mae lle pwysig yn y rhaglen ar gyfer astudiaethau ymyrraeth mawr eu heffaith o ansawdd uchel sy'n defnyddio dull ymchwil a datblygu.

5.52 Yn ogystal â darparu dealltwriaeth fanwl o amodau ac ymarfer cyfredol, yn bwysicach, bydd yr astudiaethau hyn yn darparu dealltwriaeth fanwl o sut y gellir gwella'r amodau a'r arferion hynny.

5.53 Fel astudiaeth 6, dylai'r astudiaethau achos hyn gynnwys Partneriaethau ymchwil-ymarfer

5.54 Mae astudiaethau ymyrraeth hefyd yn bwysig fel rhan o'r rhaglen ymchwil a gwerthuso gan eu bod yn mynd i'r afael â'r egwyddor o edrych ar y system gyfan — mae ymchwil a gwerthuso nid yn unig yn ystyried gwaith ymarferwyr mewn lleoliadau addysgol, ond hefyd waith y rhai sy'n eu cefnogi mewn rolau yn y system ehangach, gan gynnwys y rhai sy'n darparu gweithgaredd dysgu proffesiynol.

5.55 Gall astudiaethau ymchwil a datblygu ganolbwyntio ar ymyriadau a gyflwynir ar wahanol lefelau o fewn y system. Gallant gynnwys amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys: cymhariaeth trawstoriadol o grŵp cyn ac ar ôl yr ymyriad; cymharu grwpiau sydd wedi bod yn destun ymyriad a'r rhai nad ydynt wedi bod yn destun ymyriad; cymharu grŵp ymyriad a grŵp cymharu cyn ac ar ôl ymyriad; lled hap-dreial a hap-dreial rheoli.

5.56 Mae gan yr egwyddor sy'n ymwneud â dysgu parhaus a chynnwys gweithgaredd wedi'i gynllunio a gweithgaredd ymatebol ran bwysig i'w chwarae yma. Gall rhai ymyriadau, ar sail yr hyn sy'n hysbys eisoes am yr anghenion yn y system, gael eu cynllunio a'u cychwyn yn y camau cynnar. Yn ogystal, dylai samplau a ffocws astudiaethau ymyrraeth yn y dyfodol fod yn ymatebol i'r hyn a ddysgwyd o weithgarwch ymchwil a gwerthuso arall wrth benderfynu ar bosibiliadau a blaenoriaethau.

**Astudiaeth 9. Prosiectau cydweithredol ar ymholiadau ymarferwyr**

*Trosolwg*

| **Teitl yr Astudiaeth** | **9. Ymholiadau ymarferwyr cydweithredol** |
|---|---|
| Ffurf / Dull | Ymholiadau ymarferwyr.<br>Synthesis o ganfyddiadau ymholiad |
| Dulliau Casglu Data | Ystod eang fel y'i pennir yn ymholiadau proffesiynol ymarferwyr.<br>Dogfennau a chyfweliadau ymholiadau proffesiynol |
| Diben | Ymholiad ymarferydd: Galluogi athrawon ac ysgolion mewn cydweithrediad ag arbenigwyr allanol (gan gynnwys ymchwilwyr ac academyddion) i gynnal ymholiadau proffesiynol cadarn a dysgu ohonynt:<br>- archwilio syniadau a datblygiadau addysgol newydd yn eu sefyllfaoedd eu hunain.<br>- cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid mewn prosiectau cydweithredol i nodi a cheisio goresgyn problemau'n ymwneud ag ymarfer drwy ymholiad proffesiynol<br>- ymgysylltu â data ar gyrhaeddiad, dysgu a llesiant myfyrwyr i bennu blaenoriaethau ar gyfer dysgu<br>- archwilio data ar effaith eu hymarfer ar gynnydd dysgwyr, a chydweithio ag eraill i ddefnyddio'r data i wella ymarfer<br>- tynnu ar dystiolaeth (o ymarfer ac ymchwil) i bennu strategaethau addysgu sydd fwyaf tebygol o helpu dysgwyr i wneud cynnydd tuag at ddyheadau'r Cwricwlwm i Gymru<br>- sefydlu prosesau parhaus i gydweithio ag eraill ar ymholiad o'r fath<br>- adeiladu ar wybodaeth bresennol a datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad newydd drwy gael trafodaeth feirniadol ar ymarfer cyfredol ac ymholi i ddulliau newydd<br>Synthesis o ganfyddiadau'r ymholiad: Cyfosod canfyddiadau ar draws ymholiadau ymarferwyr mewn ffyrdd sy'n galluogi'r system ehangach i ddysgu o hynny. |
| Ffocysau / Themâu Posibl | - Wedi'u pennu'n lleol<br>- Yn rhychwantu elfennau theori newid, gan gynnwys deilliannau dysgwyr |
| Sampl | Samplu bwriadus (e.e.: achos critigol; achos eithafol; achos nodweddiadol; achos cymharol; pâr cyfatebol; amrywiad mwyaf) |
| Amserlen | Cyfres o astudiaethau i'w pennu'n flynyddol |
| Cwestiynau | - Beth mae ymholiadau ymarferwyr yn ei ddangos am gryfderau ac anghenion y system er mwyn gwireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- Beth yw'r goblygiadau i'r system yn seiliedig ar y ddealltwriaeth o ymholiadau ymarferwyr yn ymwneud ag ymdrechion gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru?<br>- Sut y mae ymarferwyr yn gweithio ar y cyd ag eraill i feithrin gallu a llunio eu galluogedd mewn ffyrdd sy'n gydnaws â gwella'r cwricwlwm a chynnydd dysgwyr? |
| Cwestiwn anffurfiol | Beth y mae ymarferwyr yn ei ddysgu o'u hymholiadau a beth mae'r dysgu hwnnw'n ei olygu i'r system?<br>Sut y mae ymarferwyr yn rhannu'r hyn y maent yn ei ddysgu o'u hymholiadau a chyda phwy y maent yn ei rannu? |

*Y sail resymegol*

5.57 Wrth wraidd y theori newid mae cydnabyddiaeth bod cynnydd dysgwyr yn cael ei ddylanwadu'n uniongyrchol gan y graddau y mae ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel ac yn gwella. Yr ymarferwyr eu hunain sy'n ysgogi gwelliannau o'r fath wrth iddynt ymgorffori ymholiad proffesiynol cadarn yn eu hymarfer. Mae ymholiadau proffesiynol yn mynnu cyfalaf dynol a chymdeithasol a dylent ddatblygu hynny. Mae cyfalaf dynol yn hollbwysig i ansawdd y cwricwlwm, addysgeg, asesu a hunanwerthuso ysgolion. Ond yr hyn sy'n bwysicach fyth yw sylw i gyfalaf cymdeithasol - hyrwyddo gweithgarwch cydweithredol a meithrin dealltwriaeth ddofn o'r amodau cymdeithasol y mae ymarferwyr yn gweithredu ynddynt ac sy'n atal neu'n galluogi ymdrechion diwygio i lwyddo. Mewn system sy'n dysgu ac yn gwella, mae dysgu o ymholiadau ymarferwyr nid yn unig o fudd i'r rhai sy'n eu cynnal ac i'r ysgolion y cânt eu cynnal ynddynt—bydd rhaglen gref o ymchwil a gwerthuso yn cefnogi ymholiadau proffesiynol ac yn datblygu systemau a phrosiectau sy'n sicrhau bod yr hyn a ddysgir gan ymarferwyr ar draws y system yn cael ei harneisio ac yn darparu dealltwriaeth sydd o fudd i bawb. Fel gydag astudiaeth 6, dylai'r astudiaethau achos hyn gynnwys partneriaethau ymchwil-ymarfer lle mae ymchwilwyr ac ymarferwyr yn cydweithio i ddeall a datrys problemau ymarfer.

5.58 Er y bydd ymholiadau ymarferwyr, yn ôl eu natur, yn canolbwyntio ar flaenoriaethau penodol mewn cyd-destunau lleol, bydd deall y dulliau a fabwysiedir tuag at ymholiadau gan ymarferwyr ei hun yn flaenoriaeth i'r system. Lle mae gweithgaredd gwerthuso ffurfiannol a phroses yn sefydlu anghenion a chyfleoedd penodol, gall prosiectau ymholiadau ymarferwyr dargedu'r rheini a chreu rhwydweithiau ymholi ar draws y system. Yn yr un modd, bydd mentrau ble mae arbenigwyr allanol yn cydweithio ag ymarferwyr mewn lleoliadau yn helpu i gryfhau'r ymholiadau hynny ac adeiladu'r gallu a'r corff o wybodaeth ar gyfer y rhai sydd mewn rolau dysgu proffesiynol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, rolau academaidd, a rolau system eraill.

5.59 Er y bydd dull a ffocws ymholiadau ymarferwyr yn amrywio, gall rhesymeg eang y theori newid fod yn fframwaith cyffredin iddynt. Gallai ystod o elfennau theori newid fod yn ffocws ar gyfer ymholiad ymarferwyr, gan gynnwys, er enghraifft, grŵp penodol o ddysgwyr, diben penodol y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr, ymdrechion i wella cydweithio rhwng athrawon ar draws rhwydwaith o ysgolion, dull addysgeg benodol sy'n cael ei harchwilio gan athrawon, gallu penodol yn ymwneud ag arwain

sy'n destun yr ymholiad, neu'n ehangach yr ymateb i ddarluniau a geir gan Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu.

5.60 Dylai pynciau ar gyfer ymholiadau proffesiynol gael eu llywio gan astudiaethau a gweithgareddau eraill, gan gynnwys y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Addysg ac Ymchwil ac Ymholiadau, deilliannau gwerthusiad PYPC a blaenoriaethau eraill a nodwyd gan Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru.

5.61 Bydd ffocws yr astudiaethau i'w benderfynu'n lleol ond dylent rychwantu elfennau'r theori newid, gan gynnwys deilliannau dysgwyr. Dylai'r sampl gynnwys y rhai sy'n brofiadol ac yn newydd i ymholiad proffesiynol a dulliau partneriaeth sy'n cynnwys cydweithio ag arbenigwyr allanol.

*Amlinelliad o'r dulliau arfaethedig*

5.62 Samplau bwriadus o ymarferwyr ac uwch arweinwyr. Cyfres o astudiaethau i'w pennu'n flynyddol.

## Amserlen ymchwil a gwerthuso arfaethedig

Mae amserlen arfaethedig wedi'i nodi isod (fesul blwyddyn academaidd) ar gyfer pob un o'r astudiaethau a gynigir yn yr adrannau uchod. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, bydd rhai o'r astudiaethau hyn yn gofyn am gynllunio helaeth ac o bosibl cyfnodau peilot, a nodir hynny isod.

**Tabl 2. Amserlen ymchwil a gwerthuso arfaethedig**

| Rhif ac enw'r astudiaeth | | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | 2029/30 | 2030/31 | 2031/32 | 2032/33 | 2033/34 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Gwerthusiad Ffurfiannol a Phroses o Wireddu'r Cwricwlwm** | Cam cwmpasu a dylunio sylweddol | | | | | | | | | | | |
| **2** | **Astudiaeth Fonitro Genedlaethol** | Cam cwmpasu a dylunio sylweddol | Cam cwmpasu a dylunio sylweddol | | | | | | | | | | |
| **3** | **Astudiaeth Genedlaethol o Garfan** | Cam cwmpasu a dylunio sylweddol | | | | | | | | | | | |
| **4** | **Astudiaeth Genedlaethol o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu** | | | | | | | | | | | | |
| **5** | **Adolygiad o Gydlyniaeth y System** | | | | | | | | | | | | |
| **6** | **Astudiaethau Achos: Ffocws ar Elfennau o'r Cwricwlwm** | | | | | | | | | | | | |
| **7** | **Astudiaethau Achos: Gweithgareddau theori newid / Ffocws ar ddeilliannau** | | | | | | | | | | | | |
| **8** | **Astudiaethau Ymyrraeth – Ymchwil a Datblygu** | | | | | | | | | | | | |

| Rhif ac enw'r astudiaeth | | 2022/23 | 2023/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | 2026 /27 | 2027 /28 | 2028 /29 | 2029 /30 | 2030 /31 | 2031 /32 | 2032 /33 | 2033 /34 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Prosiectau Cydweithredol ar Ymholiadau Ymarferwyr | | | | | | | | | | | | |

## 6. Atodiad A: Aelodau grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru

Cyfrannodd grŵp cynghori arbenigol y Cwricwlwm i Gymru, ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru, at drafodaethau i gefnogi'r astudiaeth gwmpasu hon.

Yr Athro Robin Banerjee, Pennaeth Ysgol Seicoleg Prifysgol Sussex.

Yr Athro Graham Donaldson, Cynghorydd ar ddiwygio addysgol i'r Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yr Athro Wilmad Kuiper, Athro Emeritws, Prifysgol Utrecht.

Y Fonesig Alison Peacock, Prif Weithredwr, y Coleg Addysgu Siartredig.

Claire Sinnema, Athro Cyswllt, Cyfadran Addysg a Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Auckland.

Yr Athro Richard Daugherty, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas Caerdydd

Yr Athro John Furlong, Athro Emeritws mewn Addysg o Brifysgol Rhydychen a Chymrawd Emeritws o Goleg Green Templeton

Yr Athro Mark Priestly, Athro Addysg, Prifysgol Stirling

Nienke Nieveen, Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr Rhaglenni addysg athrawon, Prifysgol Twente

## 7. Atodiad B: Mapio data

7.1 Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar adran 4, gan nodi'n fanylach y data sydd ar gael ar y gweithgareddau, y deilliannau a'r effeithiau a nodir yn y theori newid. Mae pob isadran yn cynnwys trosolwg o ddata sy'n ymwneud ag adrannau o'r theori newid, sef:

- gweithgareddau *i* ymarferwyr
    - Deilliannau tymor byr
- gweithgareddau *gan* ymarferwyr
- gweithgareddau'r system
    - deilliannau tymor byr: system
- data'n ymwneud â deilliannau tymor canolig ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr
- deilliannau tymor hwy (cymdeithasol).

7.2 Mae pob un o'r isadrannau hyn yn archwilio i ba raddau y mae data yn galluogi cwestiynau ymchwil lefel uchel yn ymwneud â'r theori newid i gael eu hateb ar lefel genedlaethol, ac a gynigir ymchwil ychwanegol fel rhan o werthusiad yn y dyfodol. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau yn Nhabl 1 yn Adran 4, a chynhwysir cyfeiriadau at yr astudiaethau ymchwil a gwerthuso arfaethedig a ddisgrifir yn Adran 5.

**Data'n ymwneud â gweithgareddau i ymarferwyr**

7.3 Mae'r adran hon yn archwilio'r data sydd ar gael yn ymwneud â'r gweithgareddau *i* ymarferwyr, sef:

- AGA, Sefydlu a Chymorth Gyrfa Gynnar
- cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol
- gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr

Yn y theori newid, tybir bod pob un o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gynnydd mewn cyfalaf dynol a chymdeithasol, yn ogystal â datblygiad ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Mae'r theori newid hefyd yn cydnabod bod ansawdd y gweithgareddau hyn *i* ymarferwyr yn dibynnu ar weithgareddau system sy'n creu'r amodau cryf ar gyfer ansawdd uchel (safonau proffesiynol, system sy'n seiliedig ar

dystiolaeth, systemau atebolrwydd, etc). Ar gyfer pob un o'r agweddau hyn ar y theori newid mae'r adrannau sy'n dilyn yn archwilio i ba raddau y mae'r data yn galluogi i werthusiad yn y dyfodol brofi'r rhagdybiaeth hon.

*Addysg Gychwynnol i Athrawon a Sefydlu a Chymorth Gyrfa Gynnar*

7.4 Cesglir data ar gyfranogiad mewn cyrsiau **AGA** yn flynyddol drwy'r cofnod myfyrwyr addysg uwch, a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Cyhoeddir data ar ddeilliannau myfyrwyr AGA yn flynyddol gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), tra bod HESA hefyd yn cyhoeddi data ar gyrchfannau myfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Mae'r data hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o nifer yr ymarferwyr sy'n ymuno â'r system dros amser, a'u cyflawniad, ond nid yw'n nodi i ba raddau y mae AGA yn cyfrannu at ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru.

7.5 Caiff darpariaeth AGA ei harolygu gan Estyn, y mae ei arweiniad ar gyfer arolygiadua arolygu (Estyn, 2021b).[16] Ar lefel genedlaethol, bydd adroddiadau ymgysylltu Estyn neu adolygiadau thematig dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth o'r graddau y mae partneriaethau AGA yn helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiad hyfforddeion mewn ffordd sy'n gyson â gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru. Ar lefel partneriaeth AGA, bydd adroddiadau darparwyr unigol yn cofnodi arferion sy'n dod i'r amlwg yn ogystal â darparu gwerthusiad clir o effeithiolrwydd modelau partneriaeth AGA a meini prawf achredu AGA, er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r graddau y maent yn cefnogi gwireddu nodau'r Cwricwlwm i Gymru.[17]

7.6 O ran **sefydlu**, cyhoeddir data ar nifer yr athrawon newydd gymhwyso cofrestredig (ANG) a nifer yr ANG hyn sy'n bodloni'r safonau sefydlu gofynnol bob blwyddyn gan CGA. Mae CGA hefyd yn casglu data a gofnodir gan ANG ar eu datblygiad proffesiynol eu hunain o fewn y pasbort dysgu proffesiynol (PDP). Darperir data ar nifer yr ANG ac athrawon sydd wedi cael SAC sydd wedi cofrestru ar gyfer y PDP ac yn ei ddefnyddio i Lywodraeth Cymru, ond nid yw'n cael ei gyhoeddi fel mater o

---

[16] *Arweiniad i Arolygwyr: Beth rydym ni'n arolygu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Ar gyfer arolygiadau peilot o fis Medi 2021*.

[17] Cyhoeddwyd yr adolygiad annibynnol diweddaraf o AGA yng Nghymru yn 2013 (Adolygiad o Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru; Tabberer, 2013) ac felly mae'n rhagddyddio'r broses ddiwygio.

drefn.[18] At hynny, ni fyddai'r data hyn yn galluogi asesiad o'r berthynas rhwng gweithgaredd sefydlu a deilliannau tybiedig y gweithgaredd sefydlu a nodir yn y theori newid.

7.7 **Bydd y data sydd ar gael ar AGA, Sefydlu a Chymorth Gyrfa Gynnar yn darparu sylfaen tystiolaeth rannol ar gyfer ateb cwestiynau'r gwerthusiad.**

- I ba raddau y mae AGA, Sefydlu a Chymorth Gyrfa Cynnar yn galluogi ANG i:
    - gredu eu bod, o'r dechrau, yn rhan arwyddocaol o'r ymdrech i ddiwygio'r cwricwlwm ac y gallant gyfrannu'n llawn at y genhadaeth i ddatblygu system addysg o'r radd flaenaf yng Nghymru?
    - meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymagweddau i chwarae eu rhan yn y broses o wireddu'r Cwricwlwm i Gymru?
    - bodloni'r disgrifyddion lefel sefydlu ar gyfer addysgu o fewn y safonau proffesiynol?

Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a yw AGA a Sefydlu a Chymorth Gyrfa Gynnar yn cyfrannu at y deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

*Cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol*

7.8 Cesglir data ar gyfranogiad lleoliadau mewn gweithgarwch cydweithio drwy rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru a'r consortia addysg rhanbarthol, ond ni chân eu cyhoeddi fel mater o drefn.[19] Cyhoeddwyd data hefyd ar ganran yr ysgolion neu leoliadau a ddywedodd eu bod yn 'cydweithio i gefnogi'r broses o ddylunio'r cwricwlwm newydd' yn *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad terfynol* (Llywodraeth Cymru, 2022a). Gall y math hwn o ddata roi syniad o nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd, faint o weithgarwch sy'n digwydd a/neu ganran y lleoliadau sy'n cydweithio drwy rwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw data ar gyfranogiad

[18] Mae dadansoddiad o ddata PLP wedi'i gynnwys yn yr adroddiad *Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: blwyddyn 1* (Llywodraeth Cymru, 2021e), er bod rhai cyfyngiadau i'r data sydd ar gael ar ddefnyddio'r PDP ymhlith ymarferwyr mwy profiadol sydd wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu.
[19] Gweler er enghraifft y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm - Hwb (llyw.cymru).

mewn gweithgarwch rhwydweithiau yn darparu tystiolaeth o'r graddau y mae'r gweithgarwch cydweithio hwn yn cyfrannu at gynnydd mewn cyfalaf dynol a gwell cyfalaf cymdeithasol fel y nodir yn y theori newid.

7.9 Mae arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn nodi y "…dylai arolygwyr ystyried pa mor dda mae'r Ysgol neu'r UCD: yn cydweithio ag ysgolion eraill, darparwyr addysg gychwynnol i athrawon a darparwyr dysgu proffesiynol i rannu a datblygu arfer broffesiynol".[20] Ar lefel genedlaethol, bydd adroddiadau ymgysylltu Estyn, adolygiadau thematig ac adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (PAEM) dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth o ansawdd y gweithgarwch cydweithio. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng cydweithio a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.10 **Bydd y data sydd ar gael ar gydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb y cwestiynau gwerthuso canlynol**.

- I ba raddau y mae cydweithio rhwng ysgolion/lleoliadau a phartneriaid allanol yn cefnogi:
    - dealltwriaeth o'r cynnydd, yr heriau ac ymatebion i heriau ar lefel system?
    - datblygu dulliau ar y cyd o oresgyn?
    - sefydlu rhwydweithiau a datblygu perthnasoedd?
    - hybu gweithredu ar bob lefel?

Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil penodol yn ymwneud ag a yw gweithgarwch cydweithio yn cyfrannu at y deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

[20] Arweiniad i Arolygwyr: Yr hyn rydym ni'n ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022

*Gweithgaredd Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr*

7.11 Caiff data cyfyngedig ar **gyfranogiad ymarferwyr mewn dysgu proffesiynol** a hyfforddiant arweinyddiaeth eu cyhoeddi ar lefel genedlaethol. Mae'r Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (CGA, 2021; CGA, 2017) wedi casglu data ar nifer yr oriau o ddysgu proffesiynol a gyflawnwyd dros y 12 mis diwethaf, y mathau o ddysgu proffesiynol a gyflawnwyd a'r prif rwystrau i ddysgu proffesiynol.[21] Mae consortia addysg rhanbarthol yn casglu data ar gyfranogiad ar gyrsiau dysgu proffesiynol y maent yn eu cyflwyno, er na chaiff y rhain eu cyhoeddi fel mater o drefn.

7.12 Casglwyd rhywfaint o ddata ar ganfyddiadau ymarferwyr o'r deilliannau tymor byr (cyfalaf dynol a chymdeithasol) ar gyfer ymarferwyr sy'n gysylltiedig â gweithgaredd dysgu proffesiynol yn y theori newid drwy arolygon diweddar o ymarferwyr. Adroddodd yr Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (CGA, 2021) ar ganran yr ymarferwyr sy'n ystyried bod ganddynt y wybodaeth/sgiliau i gyflwyno'r cwricwlwm newydd, a'r ganran sy'n cytuno eu bod wedi cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt gan eu hysgol. Yn yr un modd, cyhoeddwyd data ar ganran y lleoliadau a ddywedodd bod 'athrawon yn eu hysgol wedi cymryd rhan mewn ymholi proffesiynol i gefnogi paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd' yn *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru: adroddiad terfynol* (Llywodraeth Cymru, 2022a).

7.13 O ran ansawdd gweithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, mae arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi y dylai arolygwyr "… ystyried a yw dysgu proffesiynol i wella addysgu a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu darpariaeth yn yr ystafell ddosbarth sy'n bodloni anghenion dysgwyr." (Estyn, 2021a). Bydd y dystiolaeth o arolygiadau o ysgolion unigol ac unedau cyfeirio disgyblion yn darparu gwerthusiad cenedlaethol blynyddol o effaith dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Mae'r gwerthusiadau hyn ac arolygiadau thematig Estyn yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer adroddiad blynyddol PAEM. Mae consortia addysg rhanbarthol wedi cyhoeddi gwerthusiadau annibynnol o'u darpariaeth dysgu proffesiynol eu hunain. At hynny, yn 2022 cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o'r cymorth a ddarperir i ysgolion gan gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Cwricwlwm i

[21] Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (ewc.wales)

Gymru.[22] Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng gweithgaredd dysgu proffesiynol (gan gynnwys ar gyfer arweinyddiaeth) a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.14 **Bydd y data sydd ar gael ar weithgaredd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ond yn darparu sylfaen tystiolaeth rannol i ateb cwestiynau'r gwerthusiad.**

- I ba raddau y mae gweithgaredd Dysgu Proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr yn cefnogi:
  - cynyddu capasiti i ymarferwyr ddysgu'n barhaus ac ymateb yn hyblyg mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwelliannau o ran y cwricwlwm, addysgeg a threfniadau asesu?
  - newid diwylliannol sy'n gydnaws â gweithgaredd dysgu proffesiynol?
  - gweithgaredd dysgu proffesiynol a ysgogir gan ymarferwyr sy'n fframio twf proffesiynol yng nghyd-destun pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru?

Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a yw gweithgaredd dysgu proffesiynol, yn cyfrannu at y deilliannau tymor byr a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

**Data'n ymwneud â deilliannau tymor byr**

7.15 Awgryma tystiolaeth o gyd-destunau fod y *gweithgareddau i ymarferwyr* a nodir uchod yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r *deilliannau tymor byr* a nodir yn y theori newid. Er nad yw'r berthynas honno wedi'i phrofi'n helaeth eto mewn cyd-destun Cymreig, mae'r theori newid yn cysylltu llawer o'r deilliannau tymor byr ar gyfer ymarferwyr y cyfeirir atynt yn yr adrannau uchod (Adran 4.3 - 4.14) yn uniongyrchol â'r *gweithgareddau unigol ar gyfer ymarferwyr* (e.e. AGA). Fodd bynnag, mae'r theori newid hefyd yn cysylltu'r *gweithgareddau i ymarferwyr* yn gronnol â chyfres o *ddeilliannau tymor byr* i ymarferwyr, lleoliadau a'r system gyfan, sef gwelliannau

[22] Gweler Estyn (2022) *Y Cwricwlwm i Gymru - sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?*

mewn **cyfalaf dynol a chymdeithasol**, yn ogystal â **datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**. Mae'r adran hon yn archwilio'r data sydd ar gael yn ymwneud â'r deilliannau tymor byr hyn.

7.16 Mae nifer o ffynonellau data yn darparu rhywfaint o dystiolaeth mewn perthynas â datblygu **cyfalaf dynol ymarferwyr.**

- Yn y gorffennol mae Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg (CGA, 2021) wedi casglu data'n ymwneud â **llesiant** ymarferwyr, ond ar sail ad hoc.
- Caiff data'n yn ymwneud â **recriwtio a chadw** ymarferwyr eu casglu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru drwy Gyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion (CBGY) ers 2021,[23] a chafodd dadansoddiadau olrhain eu cynnal yn flaenorol gan CGA fel rhan o Ystadegau Blynyddol Gweithlu Addysg Cymru.
- Rhoddodd adroddiad *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022:* (Llywodraeth Cymru, 2022a) gipolwg o ddata ar ymarferwyr:
  - **ymrwymiad ac ymagweddau dysgu tuag at y Cwricwlwm i Gymru a newidiadau i'r cwricwlwm**
  - **gwybodaeth am newidiadau i'r cwricwlwm a dealltwriaeth o'r hyn y mae'r newidiadau hynny'n ei olygu a sut i ymateb iddynt**
  - **hyder i roi cynnig ar arferion newydd**
  - **galluoedd i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu bwriadau/dyheadau'r cwricwlwm.**
- Mae Holiadur Amgylchedd Ysgolion y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN) a gynhelir bob dwy flynedd hefyd wedi holi ymarferwyr uwchradd am eu **Galluoedd i ymarfer mewn ffyrdd sy'n gwireddu bwriadau/dyheadau cwricwlwm.**
- O ran y capasiti a'r **gallu i ymarfer drwy gyfrwng y Gymraeg,** mae awdurdodau lleol yn casglu data ar sgiliau Cymraeg eu gweithlu drwy eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

[23] Yn hanesyddol, mae data recriwtio a chadw ymarferwyr wedi'u casglu drwy'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), ond y bwriad yw casglu'r data hyn drwy CBGY yn y dyfodol, felly ni fydd y data hyn yn cael eu casglu drwy'r CYBLD mwyach.

Nid oes unrhyw ddata ar lefel genedlaethol wedi'i nodi mewn perthynas â lefelau **boddhad swydd** a **perchnogaeth** yn y proffesiwn yn ogystal na'r **gallu i ddatrys problemau** ac **effeithiolrwydd o ran arwain y cwricwlwm**. Mae'r data sydd ar gael felly yn rhoi darlun rhannol o **gyfalaf dynol**.

7.17 Nid oes unrhyw ffynonellau data wedi'u nodi ar lefel genedlaethol sy'n archwilio datblygiad **cyfalaf cymdeithasol** ymarferwyr a lleoliadau. At hynny, nid oes unrhyw ffynonellau'n ymwneud â chyfalaf cymdeithasol ymarferwyr ac ysgolion wedi'u nodi ar lefel leol a fyddai'n galluogi datblygu darlun cenedlaethol. Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys archwiliad o hyn, yn benodol:

- a yw'r cysylltiadau perthynol o fewn a rhwng ysgolion yn gydnaws â manteisio ar arbenigedd, a nodweddir gan frocera, dwyochredd, lefel isel o ddarnio, safbwyntiau amrywiol, cyfnewid adnoddau
- cydweithio sy'n cynnwys gweithio ar y cyd tuag at nodau i wireddu'r cwricwlwm gyda dyfnder, cwmpas, cyrhaeddiad a chyflymder
- ymddiriedaeth - lefelau cynyddol o ymddiriedaeth rhwng ymarferwyr, darparwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill o fewn ac ar draws ysgolion a lleoliadau
- cyd-ddealltwriaeth o newidiadau i'r cwricwlwm, y disgwyliadau a'r rhyddid i weithredu; dealltwriaeth gyffredin am gynnydd o ran y cwricwlwm.

7.18 Ni chaiff data ar ddatblygiad **ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu** eu cyhoeddi fel mater o drefn ar lefel genedlaethol. Mae'r adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella yn adnodd i gefnogi ysgolion gyda hunanwerthuso a gwelliant a'i nod yw cefnogi datblygiad ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu. Mae'r awgrymiadau yn yr adnodd cenedlaethol wedi'u mapio yn erbyn dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Fodd bynnag, nid yw'n orfodol i leoliadau ddefnyddio'r adnodd cenedlaethol, ac nid yw'n glir i ba raddau y bydd modd gwerthuso'r data ar ddefnydd lleoliadau ohono ar lefel genedlaethol.

7.19 **Bydd y data sydd ar gael ar ddeilliannau tymor byr i ymarferwyr, lleoliadau a rhanddeiliaid ond yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb cwestiynau'r gwerthusiad.**

- I ba raddau y mae'r gweithgareddau i ymarferwyr yn cefnogi cynyddu cyfalaf dynol?

- I ba raddau y mae'r gweithgareddau i ymarferwyr yn cefnogi gwell cyfalaf cymdeithasol?
- I ba raddau y mae'r gweithgareddau i ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu?

7.20 Mae hyn yn awgrymu y bydd angen gweithgaredd ymchwil penodol i archwilio i ba raddau y mae'r gweithgareddau *i* ymarferwyr a gweithgareddau system gyfan yn cefnogi datblygiad cyfalaf dynol a chymdeithasol yn ogystal â datblygiad ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

**Data'n ymwneud â gweithgareddau *gan* ymarferwyr**

7.21 Mae’r adran hon yn archwilio’r data sydd ar gael yn ymwneud â’r gweithgareddau allweddol gan ymarferwyr o fewn lleoliadau, sef:

- ymgysylltu cynhwysol a datblygu cwricwlwm wedi’i ddylunio’n dda
- hunanwerthusiad gan ysgolion er mwyn gwella'n barhaus
- ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel ac ymarfer proffesiynol sy'n gwella, gan gynnwys:
    - asesiadau sy'n canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau
    - addysgeg o ansawdd uchel
    - ymholiad proffesiynol cadarn.

Yn y theori newid, rhagdybir bod pob un o’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at gyfres o ddeilliannau tymor canolig i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr a’r gymuned ehangach. Ar gyfer pob un o'r agweddau hyn ar y theori newid mae'r adrannau sy'n dilyn yn archwilio i ba raddau y mae'r data yn galluogi i werthusiad yn y dyfodol brofi'r rhagdybiaeth hon.

*Cwricwlwm ysgol wedi'i ddylunio'n dda*

7.22 Mae canllawiau Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi nifer o agweddau y dylai arolygwyr eu hystyried wrth arfarnu cwricwlwm lleoliad.[24] Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig

[24] Estyn (2021). Arweiniad i Arolygwyr: Yr hyn rydym ni'n ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022

Estyn ac adroddiad blynyddol PAEM dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth o'r graddau y mae lleoliadau wedi creu cwricwlwm sydd wedi'i ddylunio'n dda. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng cwricwlwm wedi'i ddylunio'n dda a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.23 Mae data arolwg cyfyngedig ar lefel genedlaethol wedi archwilio'r graddau y mae ysgolion yn datblygu neu wedi datblygu cwricwlwm yn unol â'r fframwaith cenedlaethol. Edrychodd adroddiad yr arolwg *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2022a) ar hyder a gallu ymarferwyr i gynllunio eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu eu hunain. Yn ogystal â hynny, gofynnodd Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN, a gynhelir bob dwy flynedd, i ymarferwyr uwchradd (yn 2019/20) sut y mae rhai agweddau penodol ar y cwricwlwm yn cael eu gweithredu, er enghraifft:

- pa grwpiau blwyddyn sy'n cael Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o fewn y cwricwlwm ffurfiol a ble mae'n cael ei addysgu
- camau a gymerwyd gan ysgolion i baratoi i ddarparu addysg iechyd a lles o fewn y cwricwlwm newydd.[25]

Er bod yr uchod yn rhoi darlun gwerthfawr o'r agweddau hyn ar y cwricwlwm, nid yw'n galluogi ystyriaeth systematig o ba mor dda y mae cwricwlwm ysgol wedi'i ddylunio a gallu ymarferwyr i'w ddylunio.

7.24 **Bydd y data sydd ar gael ar ba mor dda y mae cwricwlwm ysgol wedi'i ddylunio yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb y cwestiwn gwerthuso:**

- I ba raddau y mae lleoliadau wedi datblygu cwricwlwm yn unol â'r fframwaith cenedlaethol?

Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a yw cwricwla ysgol yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

[25] Gweler Adroddiad ar Holiadur Amgylchedd Ysgol 2019/20 ar gyfer Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (Prifysgol Caerdydd, 2020). Ni chynhwyswyd y cwestiynau hyn yn holiadur 2020/21.

*Ymgysylltu cynhwysol*

7.25 Mae dau arolwg cenedlaethol wedi archwilio i ba raddau y mae lleoliadau wedi ymgysylltu'n gynhwysol ag amrywiol bartneriaid fel rhan o'u gweithgaredd datblygu'r cwricwlwm.

- Gofynnodd yr adroddiad arolwg *Paratoadau ymarferwyr ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2022a) i ba raddau yr oedd uwch arweinwyr, staff addysgu, dysgwyr, llywodraethwyr, a rhieni a gofalwyr wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio neu lywio eu cwricwlwm ysgol newydd.
- Gofynnodd *Holiadur Amgylchedd Ysgol SHRN* (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, Prifysgol Caerdydd, 2020) i ymarferwyr uwchradd ynglŷn â lefel cyfranogiad uwch arweinwyr, athrawon, staff bugeiliol a chymorth, myfyrwyr, teuluoedd a'r gymuned ehangach yn y gwaith o baratoi i gyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

7.26 **Bydd y data sydd ar gael ar ymgysylltiad cynhwysol yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb cwestiwn y gwerthusiad:**

- I ba raddau y mae lleoliadau wedi ymgysylltu'n gynhwysol ag amrywiol bartneriaid fel rhan o'u gweithgaredd datblygu'r cwricwlwm.

Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a yw ymgysylltu cynhwysol yn cefnogi gweithgareddau eraill ymarferwyr ac yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

*Hunanwerthusiad gan ysgolion er mwyn gwella'n barhaus*

7.27 Mae ffynonellau data cyfyngedig wedi eu nodi sy'n edrych ar i ba raddau y mae prosesau hunanwerthuso lleoliadau ar gyfer gwelliant parhaus: yn cyd-fynd â chynllunio gwelliannau; yn integreiddiol; yn fyfyriol; yn onest; yn gynhwysol; yn drwyadl; yn anfygythiol; yn seiliedig ar dystiolaeth a data.

7.28 Mae arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi, wrth werthuso cwricwlwm lleoliad, y "Dylai arolygwyr arfarnu pa mor gywir y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwybod am gryfderau a gwendidau'r ysgol. Dylent ganolbwyntio ar effeithiolrwydd ac effaith hunanwerthusiad a phrosesau gwella'r ysgol, yn hytrach nag ar ansawdd dogfennaeth"[26] Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig Estyn, adroddiad blynyddol PAEM ac adroddiadau ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth mewn perthynas â pha mor effeithiol yw prosesau hunanwerthuso lleoliadau ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng prosesau hunanwerthuso ysgolion a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.29 **Bydd y data sydd ar gael ar effeithiolrwydd prosesau hunanwerthuso ysgolion ar gyfer gwella'n barhaus yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb y cwestiwn gwerthuso:**

- I ba raddau y mae prosesau hunanwerthuso lleoliadau ar gyfer gwella'n barhaus: yn cyd-fynd â chynllunio gwelliannau; yn integreiddiol; yn fyfyriol; yn onest; yn gynhwysol; yn drwyadl; yn anfygythiol; yn seiliedig ar dystiolaeth a data?

7.30 Mae hyn yn awgrymu bod angen ymchwil penodol i archwilio a yw prosesau hunanwerthuso ysgolion ar gyfer gwella'n barhaus yn cefnogi gweithgareddau eraill ymarferwyr ac yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau. Gallai'r math hwn o ymchwil fod yn rhan o raglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru neu gael ei gynnal ar wahân fel rhan o ymchwil addysgol ehangach.

---

[26] Estyn (2021). Arweiniad i Arolygwyr: Yr hyn rydym ni'n ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022

*Asesiadau sy'n canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau*

7.31 Mae ffynonellau data cyfyngedig wedi'u nodi sy'n archwilio i ba raddau yr oedd prosesau asesu lleoliadau a oedd yn canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau yn brosesau o ansawdd uchel, yn addas at y diben ac yn cefnogi cynnydd y Cwricwlwm i Gymru.

7.32 Mae arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi “Dylai arolygwyr werthuso pa mor dda mae athrawon yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant er mwyn sicrhau bod eu hasesiadau yn ddilys, yn gywir ac yn ddibynadwy. Wrth werthuso defnydd athrawon o ddeilliannau eu hasesiadau eu hunain a rhai allanol, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda maent yn defnyddio’r wybodaeth hon i:

- gynllunio gwersi a’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion
- llywio addysgu a dysgu, a helpu disgyblion i ddeall eu cryfderau a’u meysydd i’w gwella eu hunain
- asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol, er enghraifft y disgyblion hynny sy’n mewn perygl o dangyflawni neu’r rhai sy’n fwy abl."[27]

Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig Estyn, adroddiad blynyddol PAEM ac adroddiadau ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth mewn perthynas â pha mor effeithiol yw prosesau asesu lleoliadau. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng prosesau asesu a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.33 **Bydd y data sydd ar gael ar effeithiolrwydd prosesau asesu lleoliadau sy’n canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb y cwestiwn gwerthuso:**

- I ba raddau y mae prosesau asesu lleoliadau yn canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau o ansawdd uchel, yn addas at y diben ac yn cefnogi cynnydd y Cwricwlwm i Gymru?

[27] Estyn (2021). Arweiniad i Arolygwyr: Yr hyn rydym ni'n ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022

7.34 Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a ddylai **prosesau asesu lleoliadau sy'n canolbwyntio ar gynnydd unigolion a grwpiau** gyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid, ac i ba raddau.

*Addysgeg o ansawdd uchel*

7.35 Mae ffynonellau data cyfyngedig wedi'u nodi a fyddai'n galluogi gwerthusiad yn y dyfodol i asesu i ba raddau y ceir **addysgeg o ansawdd uchel, gan gynnwys** a yw arferion proffesiynol ar lefel lleoliad yn cael eu llywio gan yr egwyddorion addysgeg. Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig Estyn, adroddiad blynyddol PAEM ac adroddiadau ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno'r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth mewn perthynas ag i ba raddau y ceir **addysgeg o ansawdd uchel**. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng addysgeg o ansawdd uchel a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.36 **Mae'r data sydd ar gael ar y graddau y mae lleoliadau'n defnyddio addysgeg o ansawdd uchel yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb cwestiwn y gwerthusiad:**

- I ba raddau y ceir addysgeg o ansawdd uchel, gan gynnwys a yw arferion proffesiynol ar lefel lleoliad yn cael eu llywio gan yr egwyddorion addysgeg?

7.37 Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a ddylai **lleoliadau ddefnyddio addysgeg o ansawdd uchel ac i ba raddau, a sut y mae hyn** yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid.

*Ymholiad proffesiynol cadarn*

7.38 O ran **ymholiad proffesiynol cadarn,** ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Gwerthusiad o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) sy'n golygu prosiectau cydweithredol rhwng tua 300 o ysgolion, consortia rhanbarthol a sefydliadau addysg uwch (SAU). Bydd hyn yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y dulliau ymholi proffesiynol presennol, ond mae'n debygol y bydd angen ymchwil

ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng ymholiad proffesiynol a deilliannau ehangach y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.39 **Bydd y data sydd ar gael ar i ba raddau y mae lleoliadau'n cynnal ymholiadau proffesiynol cadarn yn darparu sylfaen dystiolaeth rannol ar gyfer ateb cwestiwn y gwerthusiad:**

- I ba raddau y ceir ymholiad proffesiynol cadarn sy'n cefnogi gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru?

7.40 Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso'r Cwricwlwm i Gymru gynnwys ymchwil benodol yn ymwneud ag a yw **lleoliadau yn cynnal ymholiadau proffesiynol cadarn ac i ba raddau, a sut y mae hyn** yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig a nodir yn y theori newid.

**Data'n ymwneud â gweithgareddau'r system**

7.41 Ychydig iawn o ffynonellau data a nodwyd a fyddai'n darparu tystiolaeth o'r graddau y byddai gweithgareddau system gyfan a nodir yn y theori newid yn cyfrannu at ddeilliannau tymor byr tybiedig y Cwricwlwm i Gymru.

7.42 Mae Cymwysterau Cymru yn arwain sgwrs genedlaethol – Cymwys ar gyfer y Dyfodol – ar ddyfodol **cymwysterau** ac yn bwriadu cyflwyno cynigion erbyn haf 2022 ar gyfer cymwysterau newydd, a fydd yn destun ymgynghoriad pellach a phroses datblygu ar y cyd. Bwriedir cadarnhau'r gofynion TGAU ym mis Mai 2023, a bydd manylion am natur y cymwysterau 14-16 ehangach yn cael eu cytuno'n gynnar yn 2024. Y nod yw bod cymaint â phosibl o'r cymwysterau TGAU newydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 ymlaen, gyda'r gyfres ehangach o gymwysterau 14-16 yn barod i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2027. Mae Cymwysterau Cymru wedi cytuno ar egwyddorion arweiniol a fydd yn llywio sut y byddant yn penderfynu pa gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 16 oed a ddylai fod yn gymwys i gael arian cyhoeddus. Yr egwyddorion hyn yw y "dylai cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc 16 oed:

- gysylltu â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru, a'u cefnogi
- bod ar gael yn Gymraeg a Saesneg
- cyfrannu at gynnig cydlynol a chynhwysol." (Cymwysterau Cymru, 2020).

Mae data ar argaeledd cymwysterau yn y Gymraeg a'r Saesneg (yr ail egwyddor uchod) ar gael a bydd yn darparu tystiolaeth y gellir ei defnyddio fel rhan o werthusiad yn y dyfodol. **Fodd bynnag, ni fyddai'r data sydd ar gael ar hyn o bryd yn rhoi darlun o'r graddau y mae'r egwyddorion eraill uchod yn cael eu bodloni, gan awgrymu bod angen ymchwil ychwanegol i'r graddau y mae cymwysterau'n cyfrannu at y deilliannau tybiedig yn y theori newid.** Gall Cymwysterau Cymru gynnal gwaith gwerthuso yn y dyfodol ar y graddau y mae diwygiadau i gymwysterau yn bodloni'r egwyddorion arweiniol hyn.

7.43 Canfu adroddiad Blwyddyn 1 o'r *Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu* (Llywodraeth Cymru, 2021e) mai "cyfyngedig yw'r data sydd ar gael ar ymgysylltiad ymarferwyr â'r safonau". Mae hyn yn dangos bod bwlch yn y data sydd ar gael ar y graddau y mae'r **safonau proffesiynol** yn sbarduno pawb sy'n ymgysylltu â dysgwyr, fel y nodir yn y theori newid.

7.44 Nid yw'r graddau y mae gweithgareddau system gyfan eraill yn cyfrannu at y deilliannau tymor byr tybiedig yn y theori newid yn cael eu cofnodi'n llawn drwy ffynonellau data presennol. Mae'r rhain yn cynnwys y graddau y mae:

- **system sy'n seiliedig ar dystiolaeth** yn cyfrannu at wella'r system o ran gweithredu'r cwricwlwm ac at sefydlu addysg fel proffesiwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- **fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn galluogi hyblygrwydd wrth ddylunio'r cwricwlwm** ac wedyn yn cyfrannu at ymarferwyr yn datblygu cwricwlwm sydd wedi'i ddylunio'n dda, ar y cyd
- **prosesau monitro a gwerthuso** yn galluogi adborth ar draws y system a dysgu am weithrediad y cwricwlwm sy'n llywio blaenoriaethau a dulliau gweithredu a argymhellir ar draws y system
- **systemau atebolrwydd** yn galluogi problemau gweithredu'r cwricwlwm i gael eu nodi a'u datrys, gan gefnogi cynllunio i wella ysgolion a chyfrannu at godi safonau.

7.45 **Mae'r adrannau uchod yn dangos mai prin yw'r data sydd ar gael a fyddai'n galluogi i werthusiad yn y dyfodol archwilio'r cwestiynau gwerthuso canlynol:**

- I ba raddau y mae pob un o’r gweithgareddau ar lefel system yn arwain yn uniongyrchol at y deilliannau tymor byr cysylltiedig fel y’u nodir yn y theori newid?
- I ba raddau y mae gweithgareddau ar lefel system gyda'i gilydd yn cyfrannu at y deilliannau tymor canolig?

**Mae hyn yn awgrymu y dylai rhaglen ymchwil a gwerthuso yn y dyfodol gynnwys gweithgarwch penodol sy'n canolbwyntio ar gydlyniaeth ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn ar lefel system ac i ba raddau y maent yn cyfrannu at wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ar lefel genedlaethol.**

**Data'n ymwneud â deilliannau tymor canolig i ddysgwyr, ymarferwyr, rhieni/gofalwyr**

7.46 Yn ogystal â'r deilliannau tymor canolig a nodir yn yr adran 'gweithgareddau *gan* ymarferwyr' uchod, mae'r theori newid yn rhagdybio bod y gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr, a'r gweithgareddau ar lefel system, yn arwain ar y cyd at nifer o ddeilliannau tymor canolig i ddysgwyr. Mae’r adran hon yn rhoi trosolwg o’r data sydd ar gael yn ymwneud ag eitemau o dan yr adran hon.

*Mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd*

7.47 Mae data cyfyngedig ar gael ar lefel genedlaethol a fydd yn galluogi gwerthuso i ba raddau y *mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd* yn unol ag egwyddorion cynnydd, sef un o'r deilliannau tymor canolig allweddol i ddysgwyr yn y theori newid. Mae dod â chasgliadau data asesiadau athrawon cenedlaethol i ben yn y Cyfnod Sylfaen, cyfnodau allweddol 2 a 3 yn golygu y bydd diffyg data ar gyfer monitro cynnydd dysgwyr ar lefel genedlaethol. Mae asesiadau personol a wneir ar-lein gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 2 i 9 yn gyfyngedig i ddarllen a rhifedd ac ond yn darparu mesur cymharol o fewn Cymru, wedi’i safoni ar ddata gan ddysgwyr yng Nghymru.[28] Mae hyn yn golygu, cyn y data ar gymwysterau yn 16 oed, na fydd data ar gael ar lefel genedlaethol sy’n nodi i ba raddau y mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd ar draws y cwricwlwm o ran:

[28] Nid yw datganiadau ystadegol blynyddol sy’n seiliedig ar ddata’r Profion Cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu mwyach yn dilyn y newid i asesiad ar-lein. Gweler y cyhoeddiadau diweddaraf Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol: 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019a) a Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r hawl i brydau ysgol am ddim: 2019 (Llywodraeth Cymru, 2019b).

- cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth
- defnyddio a chymhwyso sgiliau'n well
- gwneud cysylltiadau o fewn eu dysgu a chymhwyso'r hyn a ddysgir i gyd-destunau newydd
- datblygu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.[29]

7.48 Bydd tystiolaeth o arolygon PISA yn y dyfodol yn rhoi cipluniau o sampl o wybodaeth a sgiliau dysgwyr 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae adroddiadau PISA blaenorol wedi darparu tystiolaeth ar gyfer dysgwyr yng Nghymru o gymharu â'r rheini mewn gwledydd eraill yn ogystal â data ar dueddiadau sy'n cymharu canlyniadau â charfannau blaenorol o bobl ifanc 15 oed yng Nghymru. O ran sicrhau *mwy o degwch yn y system addysg (gweler isod)* mae adroddiadau PISA yn darparu data ar amrywiadau yn ôl nodweddion dysgwyr gan gynnwys yn ôl rhyw, lefelau anfantais, statws mewnfudwyr a'r rhai nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.[30] Mae'n bwysig nodi bod gwall samplu a gwall mesur yn gysylltiedig â data PISA, y mae'n rhaid eu hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau.

*Mae cyrhaeddiad yn gwella ac mae mwy o degwch yn y system addysg*

7.49 Bydd cymwysterau newydd yn cael eu datblygu ar gyfer dysgwyr, a bydd y rhain yn cael eu haddysgu am y tro cyntaf i ddysgwyr 14 oed ym mis Medi 2025. Mae hyn yn golygu na fyddai data sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r cymwysterau newydd hyn ar gael tan ar ôl y flwyddyn academaidd 2026/27. Bydd y data hyn yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth wrth werthuso a fydd *cyrhaeddiad yn gwella ar draws y system addysg*, ac a oes *mwy o degwch yn y system addysg.* Gallai dadansoddi data eilaidd yn seiliedig ar ganlyniadau cymwysterau yn y dyfodol hefyd gefnogi a helpu i lywio'r astudiaethau a amlinellir yn Adran 5, yn enwedig Astudiaethau 1 a 2.

---

[29] Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol, drwy eu Cynlluniau Strategol, ddarparu data ansoddol a meintiol ar ddilyniant dysgwyr yn y Gymraeg a data sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

[30] Gweler Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2019). *Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed PISA adroddiad cenedlaethol: 2018.* Roedd canfyddiadau 2018 yn seiliedig ar sampl o 3,165 o ddysgwyr mewn 107 o ysgolion.

*Deilliannau tymor canolig eraill*

7.50 Mae'r theori newid yn nodi deilliannau tymor canolig eraill ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi'u cynnwys mewn setiau data cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae’r rhain yn cynnwys i ba raddau y mae:

- dysgwyr yn mynegi boddhad gyda'r hyn a ddysgant
- dysgwyr yn dangos diddordeb yn y cwricwlwm a ddarperir ac yn cael eu cyffroi ganddo
- anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu
- dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu herio i archwilio posibiliadau uchelgeisiol ac yn cael cefnogaeth i fodloni disgwyliadau uchel
- dysgwyr yn cydnabod y rôl y gallant ei chwarae mewn penderfyniadau am eu dysgu.

7.51 Bydd rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud â'r uchod, yn ogystal â thystiolaeth o'r graddau y mae dysgwyr yn cael profiad o addysgu a dysgu sy'n *eang, yn ddilys, yn integredig, yn gynhwysol a theg* yn cael ei chofnodi gan Estyn. Mae arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau atgyfeirio disgyblion yn nodi:

> “Wrth werthuso cwricwlwm y darparwr, dylai arolygwyr ystyried pa mor dda..
> ...mae’r darparwr yn datblygu ei gwricwlwm i adlewyrchu natur eu cyd-destun yn llawn, yn cynnwys cynllunio gweithgareddau dysgu sy’n adlewyrchu natur ddiwylliannol, ieithyddol ac amrywiol Cymru a’r byd ehangach, yn cynnwys sut mae’r darparwr yn cynllunio ar gyfer addysgu disgyblion am hanes a phrofiadau cymunedau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, a Thrawsryweddol + (LHDT+).”

Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig Estyn, adroddiad blynyddol PAEM ac adroddiadau ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno’r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth mewn perthynas â’r agwedd hon ar y theori newid. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o weithrediad y cwricwlwm, fodd bynnag mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i archwilio'r berthynas rhwng y Cwricwlwm i Gymru a'r deilliannau tymor canolig hyn a gyflwynir yn y theori newid.

7.52 O ran cofnodi *cynyddu yn hyder y cyhoedd yn y system addysg,* mae Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi casglu data canfyddiadol o'r blaen gan rieni sy'n ymwneud â rhai o'r deilliannau tymor canolig yn y theori newid. Mae hyn yn cynnwys barn rhieni ar y graddau:

- y mae eu plentyn yn hapus yn yr ysgol
- y mae ysgol eu plentyn yn sicrhau y darperir ar gyfer anghenion y plentyn
- y maent yn teimlo bod ysgol eu plentyn yn annog y plentyn i gyflawni ei lawn botensial.

Gallai fersiynau o'r Arolwg Cenedlaethol yn y dyfodol o bosibl gasglu'r math hwn o wybodaeth gan sampl o rieni. Fodd bynnag, byddai angen ystyried i ba raddau y gellid cysylltu'r math hwn o ddata canfyddiadol gan rieni yn ddienw â data gan ddysgwyr a lleoliadau, ac a fyddai meintiau'r samplau yn ddigon mawr i wneud hynny mewn ffordd gadarn. Gellid felly ystyried cynnwys ymchwil bwrpasol gyda rhieni o fewn rhaglen ymchwil a gwerthuso.

7.53 **Mae'r adrannau uchod yn dangos mai prin yw'r data sydd ar gael a fyddai'n galluogi i werthusiad yn y dyfodol archwilio'r cwestiynau gwerthuso canlynol:**

- I ba raddau y mae pob dysgwr yn gwneud cynnydd yn unol â'r egwyddorion cynnydd, o ran: cynyddu ehangder a dyfnder eu gwybodaeth? gwella'r ffordd y maent yn defnyddio ac yn cymhwyso eu sgiliau? gwneud cysylltiadau o fewn eu dysgu a chymhwyso'r hyn a ddysgant i gyd-destunau newydd? datblygu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn: mynegi boddhad gyda'u dysgu? yn dangos diddordeb yn y cwricwlwm a gyflwynir iddynt ac yn cael eu cyffroi ganddo? a yw eu hanghenion wedi'u bodloni? a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu herio i ymchwilio i bosibiliadau uchelgeisiol ac yn cael cefnogaeth i fodloni disgwyliadau uchel? adnabod y rôl y gallant ei chwarae mewn penderfyniadau am eu dysgu?
- I ba raddau y mae dysgwyr yn cael profiad o addysgu a dysgu sy'n eang, yn ddilys, yn integredig, yn gynhwysol ac yn deg?
- I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi hyder cynyddol y cyhoedd yn y system addysg?

*Gwireddu'r pedwar diben*

7.54 Mae setiau data cenedlaethol yn darparu data cyfyngedig a fyddai'n galluogi gwerthusiad yn y dyfodol i asesu i ba raddau y mae'r pedwar diben yn cael eu gwireddu. Caiff data'n ymwneud ag i ba raddau y mae dysgwyr yng Nghymru yn **iach a hyderus** eu casglu drwy *Arolwg o Iechyd a Lles Myfyrwyr* y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN), yn enwedig y graddau y mae dysgwyr yn:

- meddu ar werthoedd cadarn ac yn sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- datblygu eu llesiant meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, gwytnwch ac empathi
- cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol
- gwneud penderfyniadau pwyllog am ffordd o fyw a rheoli risg.

7.55 Cesglir data ar weithgarwch corfforol dysgwyr hefyd drwy Arolwg chwaraeon ysgol Chwaraeon Cymru. Yn ogystal, mae data canfyddiadol gan rieni yn ymwneud â llesiant digidol a diogelwch ar-lein eu plentyn wedi'u casglu'n flaenorol, ond nid yn flynyddol, drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru.

7.56 Bydd data o arolygon megis Arolwg o Iechyd a Lles Myfyrwyr SHRN, arolwg chwaraeon ysgol Chwaraeon Cymru a'r Arolwg Cenedlaethol yn rhoi darlun gwerthfawr o rai agweddau ar y pedwar diben, megis i ba raddau y mae dysgwyr yng Nghymru yn **iach a hyderus**. Gallai data arolygon eraill sydd heb eu cyhoeddi fel yr arolwg Gwirio Gyrfa gan Gyrfa Cymru (a gynhelir gyda dysgwyr ym Mlwyddyn 10) o bosibl roi rhywfaint o ddealltwriaeth o'r graddau y mae rhai dysgwyr yn **fentrus a chreadigol.**[31] Fodd bynnag, ychydig o ffynonellau sydd wedi'u nodi sy'n casglu data ar lefel genedlaethol mewn perthynas â gwireddu'r dibenion - **moesegol a gwybodus, mentrus a chreadigol** a **uchelgeisiol a galluog.** Ymhellach, byddai angen ystyried a ellid cysylltu data a gasglwyd drwy arolygon fel rhai SHRN a Chwaraeon Cymru â gwybodaeth arall ar lefel dysgwyr a lleoliadau, ac i ba raddau.

[31] Mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg 'Gwirio Gyrfa' yn flynyddol sy'n casglu cipolwg ar farn, agweddau, anghenion cymorth, hyder a dyheadau pobl ifanc mewn perthynas â'u nodau addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol. Pwrpas yr arolwg yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i gynghorwyr gyrfa ar lefel unigol i lywio gwaith wedi'i dargedu gyda disgyblion yn ystod Blynyddoedd 10 ac 11. Mae'r arolwg yn casglu data gan y mwyafrif o ddisgyblion yn ystod Blwyddyn 10, ond weithiau cesglir data yn ystod Blwyddyn 9 neu 11 os, am resymau'n ymwneud â logisteg, na ellir eu casglu yn ystod Blwyddyn 10. Nid yw data o'r arolwg yn cael eu cyhoeddi, maent yn seiliedig ar sampl cyfleustra ac nid ydynt yn cael eu casglu'n systematig.

7.57 Ar lefel lleoliad, bydd data sy’n ymwneud â gwireddu’r pedwar diben yn cael eu casglu gan Estyn, y mae ei arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yn nodi’r canlynol:

> “Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn sicr, ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol, a’u bod yn cael eu parchu a’u trin yn deg. Dylent ystyried pa mor dda maent yn dod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a llesiant emosiynol, gan gynnwys sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae pob disgybl yn:
>
> - yn defnyddio’r ddealltwriaeth hon yn eu bywyd yn yr ysgol neu’r UCD
> - yn datblygu eu medrau corfforol a gwneud dewisiadau iach, er enghraifft drwy ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd ag ystod o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, a thrwy glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol
> - yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy’n barod i ddysgu, ac yn dangos hyder a gwydnwch, er enghraifft yn y modd maent yn rhyngweithio ag oedolion, ac yn dyfalbarhau â’u gwaith
> - yn datblygu fel dinasyddion moesegol, gwybodus, er enghraifft drwy eu hymwybyddiaeth o degwch, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a hawliau plant
> - yn datblygu fel cyfranwyr mentrus a chreadigol, er enghraifft yn y ffordd y maent yn archwilio datrys problemau
> - yn datblygu eu dealltwriaeth o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol, a sut caiff deddfau eu llunio a’u cymhwyso i’r gymdeithas ehangach".[32]

Ar lefel genedlaethol neu system, bydd adolygiadau thematig Estyn, adroddiad blynyddol PAEM ac adroddiadau ymgysylltu dros yr ychydig flynyddoedd cyntaf o gyflwyno’r cwricwlwm yn darparu tystiolaeth mewn perthynas â’r agwedd hon ar y theori newid. Bydd y ffynonellau hyn yn rhoi darlun gwerthfawr o wireddu'r pedwar diben. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen ymchwil ychwanegol i asesu'r

[32] Estyn (2021). [Arweiniad i Arolygwyr: Yr hyn rydym ni'n ei arolygu Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022]

cysylltiadau rhwng gwireddu'r pedwar diben a deilliannau eraill y Cwricwlwm i Gymru a gyflwynir yn y theori newid.

7.58 **Mae'r adrannau uchod yn dangos mai prin yw'r data sydd ar gael a fyddai'n galluogi i werthusiad yn y dyfodol archwilio'r cwestiynau gwerthuso canlynol:**

- I ba raddau y mae'r pedwar diben yn cael eu gwireddu?
- I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at wireddu'r pedwar diben?

**Data'n ymwneud â deilliannau tymor hwy (cymdeithasol).**

7.59 Mae'r theori newid yn rhagdybio y bydd y gweithgareddau ar y cyd yn cyfrannu at gyflawni deilliannau tymor hwy ar lefel gymdeithasol. Daw'r rhan fwyaf o'r deilliannau hirdymor hyn o'r ddogfen *Cynllun gweithredu Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2021a) a nododd: 'Yn yr hirdymor, os bydd plant a phobl ifanc ledled Cymru yn cyflawni pedwar diben y cwricwlwm, caiff hyn effeithiau sylweddol a phellgyrhaeddol ar gymdeithas yng Nghymru' (ibid.).

7.60 Fe wnaeth *Cynllun gweithredu Cwricwlwm i Gymru* (ibid.) fapio deilliannau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru yn erbyn y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dangosir y rhain yn Nhabl 3 isod.

**Tabl 3. Nodau llesiant wedi'u mapio yn erbyn deilliannau'r Cwricwlwm i Gymru**

| Nod llesiant | Deilliannau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mwy o unigolion cyflogadwy yn gadael yr ysgol a'r coleg ac yn cael cyfle i ddod o hyd i waith boddhaol. |
| | Dinasyddion mwy ymgysylltiol a galluog |
| Cymru gydnerth | Mathau o ymddygiad mwy cynaliadwy, cyfrifoldebau egwyddorol, a gwell amgylchedd. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Llai o dlodi a mwy o symudedd cymdeithasol. |
| | Cau'r bwlch o ran cyrhaeddiad. |
| Cymru iachach | Dinasyddion iachach sy'n ymwybodol o'u lles corfforol a'u hiechyd meddwl eu hunain. |

| | |
|---|---|
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau cryfach, mwy cydlynus â chysylltiadau dyfnach rhwng ysgolion a chymunedau lleol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Dinasyddion sy'n gwerthfawrogi eu diwylliant nhw a diwylliant pobl eraill yn well. |
| | Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Dinasyddion mwy hunanymwybodol sy'n gwneud gwell penderfyniadau ac yn dangos mathau o ymddygiad cynaliadwy |

Ffynhonnell: Cwricwlwm i Gymru: cynllun gweithredu (Llywodraeth Cymru, 2021a)

7.61 Yn ogystal â'r rhain mae nod *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg* Llywodraeth Cymru wedi ei gynnwys fel canlyniad hirdymor yn y theori newid.[33] Bydd Cyfrifiad y DU yn darparu data yn y dyfodol ar nifer y siaradwyr Cymraeg,[34] ac mae ymchwil Llywodraeth Cymru wedi proffilio'r llwybr posibl ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg hyd at 2050, gan ystyried newidiadau i'r cwricwlwm.[35] Bydd monitro Cymraeg 2050 felly yn darparu rhywfaint o ddata ar i ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru a'r system addysg ehangach yn cyfrannu at gyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen gweithgarwch ymchwil pellach yn y maes hwn i asesu hyn yn llawn.

7.62 Mae data sy'n ymwneud â deilliannau hirdymor y Cwricwlwm i Gymru wedi'u mapio gan  Lywodraeth Cymru yn erbyn y saith nod llesiant. Caiff y ffynonellau data hyn eu cyhoeddi ochr yn ochr â set o Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol cysylltiedig a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gydag adroddiadau blynyddol yn asesu cynnydd tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant. Bydd yr adroddiadau a'r data blynyddol hyn yn darparu tystiolaeth werthfawr o gynnydd yn erbyn y nodau llesiant ar lefel genedlaethol, a thrwy hynny byddant yn helpu i lywio gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd y data hyn yn galluogi asesiad o'r graddau y mae diwygio'r cwricwlwm wedi cyfrannu at unrhyw gynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion.

[33] Yn ogystal â'r nod cyffredinol o filiwn o siaradwyr Cymraeg, mae strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi cyfres o nodau a 'newidiadau trawsnewidiol' mesuradwy sy'n ymwneud ag ehangu: darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar; dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg; dysgwyr yn gallu siarad Cymraeg; a nifer yr ymarferwyr sy'n gallu addysgu yn Gymraeg.
[34] Bydd arolygon fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn darparu amcangyfrifon o dueddiadau rhwng cyfrifiadau ond bydd y data hyn yn destun gwallau samplu ac ni fyddant mor ddibynadwy â Chyfrifiad y DU.
[35] Gweler *Adroddiad technegol: Amcanestyniad a thaflwybr nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd, 2011 i 2050* (Llywodraeth Cymru, 2018).

7.63 Gall astudiaethau hydredol parhaus helpu i ddarparu mwy o dystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng deilliannau addysgol a chymdeithasol tymor hwy. Er enghraifft, mae'r Astudiaeth hydredol o ddeilliannau addysg yn galluogi cysylltu data addysgol a pheth data ar ddeilliannau economaidd dysgwyr (e.e. a ydynt mewn cyflogaeth; sector cyflogaeth; data DWP, TWE a Chredyd Cynhwysol). Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru set ddata gyfatebol ar gyfer addysg sy’n galluogi data o nifer o ffynonellau (y CYBLD, Data ar y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, casgliad addysg ôl-16 a data HESA) i'w cysylltu i'w dadansoddi. Fodd bynnag, ceir diffyg data hydredol sy’n galluogi profiadau a deilliannau addysgol, ac yn enwedig gwireddu’r pedwar diben, i gael eu cysylltu ag ystod ehangach o ddeilliannau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn awgrymu y bydd angen gweithgarwch ymchwil pellach er mwyn gallu asesu i ba raddau y cyfrannodd y Cwricwlwm i Gymru at gyflawni’r deilliannau hirdymor a nodir yn y theori newid.

7.64 **Mae’r adrannau uchod yn dangos mai prin yw’r data sydd ar gael a fyddai’n galluogi i werthusiad yn y dyfodol archwilio’r cwestiynau gwerthuso canlynol:**

- I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at gyflawni’r Nodau Llesiant Cenedlaethol?
- I ba raddau y mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cyfrannu at gyflawni nod Cymraeg 2050 o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg?

## Llyfryddiaeth


Cyngor y Gweithlu Addysg (2017*). Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol: Adroddiad Ymchwil.*

Cyngor y Gweithlu Addysg (2021*). Adroddiad ar Arolwg Cenedlaethol o'r Gweithlu Addysg yng Nghymru 2021.*

Cymwysterau Cymru (2020). *Penderfyniadau ar sut y byddwn yn llunio'r ystod o gymwysterau fydd ar gael yn y dyfodol i ddysgwyr 16 oed yng Nghymru.* Cymwysterau Cymru.

Cymwysterau Cymru (2021). *Cymwys ar gyfer y dyfodol: y dewis cywir i Gymru – ein penderfyniadau.*

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Estyn (2020). *The National Evaluation and Improvement Resource (NEIR) update and guidance v1.3 [Dogfen yn Saesneg]*

Estyn (2021a). *Arweiniad I Arolygwyr: Beth rydym yn ei arolygu: Ysgolion a gynhelir ac UCDau – ar gyfer arolygiadau o 2022*. Hawlfraint y Goron.

Estyn (2021b). *Arweiniad i Arolygwyr: Beth rydym ni'n arolygu Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Ar gyfer arolygiadau peilot o fis Medi 2021.* Hawlfraint y Goron.

Estyn (2022). *Y Cwricwlwm i Gymru: Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?* Hawlfraint y Goron.

Furlong, J. (2015). *Addysgu athrawon yfory.*

OECD (2014). *Improving schools in Wales: an OECD perspective*. [dogfen Saesneg]

OECD (2018). *Developing Schools as Learning Organisations in Wales*. [dogfen Saesneg]

OECD (2020). *Achieving the New Curriculum for Wales.* [dogfen Saesneg]

Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2018). *Research to Support the National Professional Learning Approach for Wales. Area 9: Schools as Learning Organisations and the Welsh Government Professional Standards.*

Prifysgol Metropolitan Caerdydd (2019). *Undertaking professional enquiry: an introduction for lead enquirers*. Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Llywodraeth Cymru (2014). *Cynlluniau datblygu ysgolion*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2015) *Arolwg Llais y Dysgwr Cymru: rhaglen beilot dosbarthiadau chwech.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron. (Dogfen Saesneg)

Llywodraeth Cymru (2017a). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl Cynllun gweithredu 2017-21* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017b). *Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion: Safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2017c). *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018a). *Addysgu: Proffesiwn gwerthfawr*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2018b). *Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru Addysgu athrawon yfory*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019a). *Canlyniadau Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol: 2019.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2019b). *Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'r hawl i brydau am ddim: 2019.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2020a). *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl. Diweddariad Hydref 2020*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2020b) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron

Llywodraeth Cymru (2021a): *Cwricwlwm i Gymru: cynllun gweithredu*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021b): *Cwricwlwm i Gymru: y daith i weithredu'r cwricwlwm*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021c): *Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE): dogfen weledigaeth*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021d): *Trefniadau asesu: is-ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021e): *Gwerthusiad o'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu, arweinyddiaeth a chynorthwyo addysgu: blwyddyn 1.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021g): *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd* *[insert hyperlink]* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021h): *Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm*. Tudalen we.

Llywodraeth Cymru (2021i): *Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol disgrifiad technegol a chysylltiadau data.* Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021j): *Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol*. Tudalen we.

Llywodraeth Cymru (2021k). *Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021l). *Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2021m) *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: canfyddiadau interim* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2022a). *Arolwg ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer Diwygiadau Cwricwlwm ac Asesu 2022: adroddiad terfynol*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2022b). *Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu.* Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2022c) *Ymchwil ansoddol ag ymarferwyr ar baratoadau ar gyfer diwygiadau cwricwlwm ac asesu 2022: Adroddiad terfynol*

Llywodraeth Cymru (2022d), *Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (2019). *Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed PISA adroddiad cenedlaethol: 2018*. Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg.

Tabberer, R. (2013). *Adolygiad o hyfforddiant cychwynnol athrawon 2013.*

Waters, M. (2020). *Dysgu bod yn athro yng Nghymru: sefydlu athrawon yn y proffesiwn*.